PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

www.aber.ac.uk/prom

# PROM



Masnachu mewn Pobl

Menywod a Chyfrifiadureg

Mawr yw'r Prinder

Llygad am Lun

Tywod Amser




Trwy gydol ei hanes, mae **Prifysgol Aberystwyth** wedi elwa o roddion a gymynroddir yn Ewyllysiau ei chyn fyfyrwyr a'i chyfeillion. Mae cymynroddion yn sicrhau bod Aber yn gallu ffynnu fel sefydliad dysg ac ymchwil, a gwella ei henw da byd-eang am genedlaethau i ddod.

*"Mae'n ffordd hawdd a di-boen i roi rhywbeth yn ôl."*

*Alumnus 1982*

*"Ni all geiriau fynegi fy ngwerthfawrogiad i sylfaenwyr yr Ysgoloriaeth. Yn ogystal â rhoi sicrwydd ariannol trwy gydol f'astudiaethau, mae wedi fy ngalluogi i fanteisio ar amgylchedd academaidd ardderchog Aberystwyth."*

*Myfyriwr israddedig presennol*


I ddysgu mwy am adael cymynrodd i Aber, cysylltwch â:

Swyddog Cymynroddion
Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni
Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth
SY23 3EB

Ffôn: 01970 621568
E-bost: datblygu@aber.ac.uk
www.aber.ac.uk/cefnogwyr

# Cynnwys

## Erthyglau


10 


### Masnachu mewn Pobl
*Myth a gwirionedd*

14 

### Menywod a Chyfrifiadureg
*Beth yw'r broblem?*

22 

### Mawr yw'r Prinder
*Newyn yn nyddiau Shakespeare*

26 

### Llygad am Lun
*Taro golwg agosach*

28 

### Tywod Amser
*Ar draws y Sahara yn 1966*


## Colofnau


4 ........ Yr Is-Ganghellor
20 ........ Cyfweliad: Ymgysylltu â'r Cyhoedd
38 ........ Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr
40 ........ Fy Aber i: Yn Nhrap yr Harbwr
41 ........ Ysgrifau Coffa
49 ........ O Banty i Bentan
50 ........ Cicio'r Bar


## Newyddion


19 ........ Bioblitz Campws Penglais
32 ........ Y Gwyll: Ffilmio yng Ngheredigion
34 ........ Graddio a Chymrodyr
36 ........ Rhwydwaith Cyfleoedd Aberystwyth
37 ........ Aber dramor
44 ........ Silff Lyfrau
46 ........ Apwyntiadau a Gwobrau


Cylchgrawn Prifysgol Aberystwyth yw PROM.

*PROM is available in Welsh and English. If this copy is not in your preferred language, please contact* **development@aber.ac.uk** *or phone 01970 621568 and we'll send you another copy.*

Os ydych am dderbyn y newyddion alumni diweddaraf yn gyson o Brifysgol Aberystwyth, diweddarwch eich cyfeiriad e-bost cyfredol ar **www.aber.ac.uk/diweddarumanylion**, dilynwch ni ar Twitter neu ymunwch â Cyswllt Aber neu ein grwpiau alumni ar Facebook a LinkedIn. Gweler **www.aber.ac.uk/alumni** i gael y dolenni.


*Barn yr awduron unigol a fynegir yn yr erthyglau, ac nid ydynt yn cynrychioli'r Brifysgol oni nodir hynny. Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau bod y deunydd a gyhoeddir yn gywir ac yn ddibynadwy, nid yw'r cyhoeddwyr yn derbyn atebolrwydd am unrhyw honiadau a wneir gan gyfranwyr.*



PROM 22 | Cylchgrawn Prifysgol Aberystwyth

*Cyhoeddwyd gan: Prifysgol Aberystwyth University*
*Dyluniwyd gan: Y Stiwdio Ddylunio, Prifysgol Aberystwyth*
*Argraffwyd gan: McLays, Caerdydd*

# Dechrau Dramatig

**Bu dechrau'r flwyddyn yn reit heriol i ni yn Aber a gwnaed difrod mawr i'r Prom yn Ionawr a Chwefror.** Ni welwyd stormydd tebyg o'r blaen. Yn sgil ein cynlluniau wrth gefn rhagorol a chyfraniad aruthrol ein staff ac asiantaethau eraill, rydym wedi llwyddo i gadw ein holl fyfyrwyr yn gynnes ac yn sych a sicrhau eu bod yn cael gwybod am ddatblygiadau – hyd yn oed tua 150 o 'faciwîs' a dreuliodd noson ar gampws Penglais. Ni chafodd ein hadeiladau eu difrodi'n sylweddol, ar wahân i ychydig o ddŵr a lifodd i'r adeiladau ac ambell i ffenestr a dorrwyd. Byddwch yn falch iawn o wybod bod y Bar yn dal i sefyll, er gwaetha'r tonnau ffyrnig a nifer dirifedi o giciau gan ein myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr. Yn anffodus, ni fu un o'r cysgodfannau adnabyddus lle mae cynifer ohonom wedi eistedd i wylio'r tonnau mor ffodus. Llawer o ddiolch i'r cyn-fyfyrwyr a'r cefnogwyr hynny sydd wedi anfon negeseuon atom i'n cefnogi ac i ofyn sut y gallant gynorthwyo. Mae'n dda gennym ddweud fod Aber wedi bwrw mlaen â'r gwaith adfer a fydd wedi'i gwblhau erbyn y Pasg gobeithio.

Llwyddodd yr Hen Goleg, yn enwedig, i oroesi'r gwyntoedd cryfion a'r tonnau geirwon, gan golli ychydig o lechi yn unig. Serch hynny, mae hanes diweddar yr adeilad yn lliwgar iawn – a phe bai unrhyw un ohonoch wedi bod yng nghyffiniau'r Hen Goleg liw nos ar 17 Hydref, byddech wedi credu bod rhywbeth mawr wedi digwydd iddo. Roedd yr adeilad yn fôr o oleuni glas ac roedd tâp 'safle trosedd' ac arwyddion yr Heddlu'n britho'r adeilad – amlinelliad o gorff ar y pafin tu allan oedd yr unig beth a oedd ar goll (diolch byth)... Ond siawns nad oedd yr holl bobl a oedd yn cyrraedd yno'n llawer rhy drwsiadus a hwyliog i fod yn mynd i orsaf yr heddlu i roi gwybod am drosedd? Hyd yn oed yn Aberystwyth?

Wrth gwrs, byddwch wedi sylweddoli erbyn hyn ein bod yn cwrdd yno ar gyfer *première Y Gwyll / Hinterland*, sef cyfres dditectif drawiadol newydd a ddarlledwyd yn Gymraeg ar S4C ac yn Saesneg ar y BBC.

Roedd hi'n fraint i'r Brifysgol gael llwyfannu'r digwyddiad lansio. Roedd llu o sêr y diwydiant yn bresennol, gan gynnwys ein Cymrawd Anrhydeddus diweddar, Ian Jones, a gyflwynodd y bennod gyntaf. Ni wnaf ddatgelu unrhyw beth am y plot, ond gallaf ddweud yn bendant bod *Y Gwyll / Hinterland* yn rhoi Aber a'r Gorllewin ar y map mewn modd na wnaed erioed o'r blaen. Er bod y sêr dynol yn rhagorol ddigon, rhaid llongyfarch ein partner, Fiction Factory, ar y modd y cafodd ein tirluniau gwych a chymeriad Aber eu portreadu ar y sgrin – mae hwn yn lle llawn personoliaeth, ac i raddau, mae'n dwyn y sylw.

Mae ein staff marchnata wrth eu bodd yn mynd i'r afael â'r her o gyfuno ein darlun arferol o Aberystwyth fel lle diogel i astudio ynddo a nifer y llofruddiaethau a geir yn y gyfres deledu, sy'n agos at gyfanswm y llofruddiaethau yn holl achosion Sherlock Holmes. Mae'n wir mai hon yw'r Brifysgol fwyaf diogel yng Nghymru a Lloegr (*Complete University Guide 2013*), neu'r byd hyd yn oed (*International Student Barometer 2012*) – ond pe bawn i'n ddarpar fyfyriwr yn fy arddegau hwyr sy'n cadw llygad ar bopeth sy'n newydd ac yn cŵl, mae'n sicr y byddwn yn estyn am fy ffurflen UCAS ac yn ychwanegu Aber ati ar ôl gwylio *Y Gwyll /Hinterland*.

Ar wahân i swyn y sgrin (a'r bwcedi o waed), cafodd y gwaith o ffilmio'r gyfres ddylanwad cadarnhaol iawn arnom ni yn y Brifysgol, gan fod cynifer o'n myfyrwyr Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu wedi cael cyfle i weithio ar y cynhyrchiad. Drwy gyd-ddigwyddiad, mae'r Adran honno'n dathlu ei phen-blwydd yn 40 eleni. Mae'r myfyrwyr yn siarad yn huawdl am effaith gadarnhaol y profiad ar eu cyflogadwyedd, ac mae'r tîm cynhyrchu wedi bod yn barod iawn i ymgysylltu â'r myfyrwyr, gan ganmol eu hymdrechion a'u cyfraniad. Felly, bu hon yn berthynas wych drwyddi draw. Roeddem hefyd yn falch o weld Plas Gogerddan mewn sawl golygfa yn y gyfres (bydd rhai ohonoch yn cofio i ni ddod yn agos at golli'r Plas yn ystod llifogydd yr haf 2012) – efallai na fyddwch wedi adnabod y Plas, ond craffwch ar y golygfeydd tu mewn i swyddfa'r heddlu...

Yn wir, mae ein Hystad a'n hadeiladau wedi cael llawer o sylw yn gyffredinol dros y flwyddyn ddiwethaf. Bydd gan rai ohonoch atgofion trist ar ôl gweld y neuaddau preswyl yn cael eu dymchwel yn Llanbadarn, a'r rhan fwyaf o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau'n gadael y campws yno. Ond mae croeso i chi ailymweld â'r campws nawr ar ôl i ni fuddsoddi £3.5m mewn pum adeilad dros yr haf. Erbyn hyn, mae Llanbadarn yn gartref academaidd newydd i'r Athrofa Rheolaeth, y Gyfraith a Gwyddor Gwybodaeth, a Blas Padarn, y bwyty a'r siop goffi â'r golygfeydd gorau yng Nghymru o bosib (sy'n agored i'r cyhoedd, gyda llaw). Rydym hefyd wedi buddsoddi £640,000 i adnewyddu'r gofodau dysgu ac addysgu ar Gampws Penglais, a hynny fel rhan o gyfres o waith arfaethedig i drawsnewid ein labordai, ein darlithfeydd a'n hystafelloedd seminar. Rydym yn benderfynol o ddangos cymaint o werth yr ydym yn ei roi ar addysgu a phrofiad y myfyrwyr, a rhaid i ni wireddu hynny drwy ddatblygu lleoedd a gofodau y gall ein myfyrwyr a'n staff ymfalchïo ynddynt. Gan ddychwelyd i'r man cychwyn, yn yr Hen Goleg ar y Prom, mae ein hastudiaeth ddichonoldeb bellach wedi darparu cyfres gyffrous iawn o opsiynau i'w datblygu yn y dyfodol. Cyn bo hir, rydym yn mawr obeithio y bydd modd i ni rannu â'n cyn-fyfyrwyr ein cynlluniau ar gyfer Canolfan Uwchraddedig lewyrchus; llety y mae dirfawr ei angen ar gyfer gweithwyr allweddol; ac oriel gelf, siop a siop goffi a fydd yn apelio at drigolion y dref ac ymwelwyr fel ei gilydd. Rwy'n gwybod y byddwch am fod yn rhan o'r datblygiadau hyn – hyd yn oed ar ôl i'r tâp 'safle trosedd' a difrod y storm ddiflannu.



**Yr Athro April McMahon,**
**Is-Ganghellor**



# Llwyddiant i Aberystwyth yng Ngwobrau Addysg Uwch y Times Higher Education 2013

**Mae Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) wedi ennill gwobr categori Cyfraniad Eithriadol i Arloesi a Thechnoleg mewn seremoni ddisglair a gynhaliwyd yn Llundain ym mis Tachwedd ac a fynychwyd gan dros fil o westeion a oedd yn cynnwys gweinidogion y llywodraeth a staff prifysgolion.**

Roedd cais buddugol y Brifysgol yn canolbwyntio ar fridio a datblygu Glaswellt Siwgr Uchel (AberHSG) gan wyddonwyr yn IBERS, ac mae Aberystwyth hefyd yn aelod o Crwsibl Cymru a enillodd yn y categori Cyfraniad Neilltuol i Ddatblygu Arweinyddiaeth.

Mae'r Gwobrau yn gyfle unigryw ac uchel eu proffil i ddathlu rhagoriaeth a'r hyn y mae Sefydliadau Addysg Uwch yn y Deyrnas Unedig wedi ei gyflawni, a dau weithgaredd craidd addysg uwch, sef addysgu ac ymchwil.

Mae'r cyfuniad buddugol o ragoriaeth mewn ymchwil yn dilyn her ac ymchwil ryngddisgyblaethol diwylliant mentro cryf, y tu ôl i raglen bridio planhigion lwyddiannus yn IBERS.

Roedd yr ymchwilwyr a anrhydeddwyd â'r wobr eleni wedi datblygu rhywogaethau newydd o laswellt a all wneud ffermio bîff, cig oen a llaeth yn fwy cynhyrchiol ac yn fwy ystyriol o'r amgylchedd.

Mae Glaswellt Siwgr Uchel Aber, a ddatblygwyd drwy dechnegau bridio traddodiadol, wedi cynyddu lefel y siwgr gan alluogi gwartheg a defaid i ddefnyddio rhagor o brotein o'r glaswellt. Mae profion yn dangos bod hyn yn cynyddu cynhyrchiad cig a llaeth o 24 y cant ac yn lleihau gollyngiad methan, nwy tŷ gwydr, a llygryddion eraill o hyd at 20 y cant.

Mae mathau o'r glaswellt sy'n cael eu marchnata drwy bartneriaeth gyda chwmni hadau Germinal Holdings erbyn hyn yn cyfrif am tua 175,000 hectar o laswelltir y DG. Mae



*Aelodau o dîm IBERS yn dathlu yng Ngwobrau Addysg Uwch y* Times Higher Education

archfarchnadoedd Asda a Sainsbury's, sy'n hyrwyddo'r glaswellt ar eu ffermydd, yn amcangyfrif i'r defnydd ohonynt leihau allyriadau blynyddol carbon deuocsid o 186,000 tunnell a chynyddu proffidiolrwydd o £10 miliwn y flwyddyn.

Mae rhai mathau hefyd yn darparu siwgr ar gyfer ei droi'n fioethanol, sy'n ffynhonnell ynni adnewyddol.

Dywedodd Chris Cobb, beirniad y gwobrau a phrif swyddog gweithredol ac ysgrifennydd Prifysgol Llundain, bod cyfnewidiadau Aberystwyth wedi dod i'r brig mewn cystadleuaeth ardderchog. "Mae'r effaith gyfunol ar gynhyrchu bwyd ac ar yr amgylchedd yn gwneud y cynnig hwn yn ddwbl haeddiannol ac yn enillydd teilwng."

Mae Aberystwyth hefyd yn aelod o Crwsibl Cymru a enillodd y wobr am Gyfraniad Neilltuol i Ddatblygu Arweinyddiaeth am ei hymdrechion arloesol i ddatblygu arweinwyr ymchwil ar gyfer Cymru.

Mae Crwsibl Cymru yn cael ei redeg gan Grŵp Dydd Gŵyl Dewi – Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol De Cymru – ac fe'i cefnogir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Meddai Mark Pegg, prif weithredwr y Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch ac aelod o'r panel beirniadu, "Mae'r adborth yn gadarnhaol dros ben, ac mae'n cael effeithiau chwyldroadol ar agweddau ac ymddygiadau."

# Dadlau ar y llwyfan rhyngwladol

**Cafodd Roberto Sarrionandia ac Ollie Newlan o Gymdeithas Ddadlau Prifysgol Aberystwyth gryn lwyddiant ym Mhencampwriaethau Dadlau Prifysgolion y Byd a gynhaliwyd yn Universität Technische Berlin.**

Bu'r ddau'n dadlau yn erbyn timau o rai o sefydliadau mwyaf adnabyddus y byd academaidd gan drechu'r LSE a Harvard a'u tebyg wrth iddynt gyrraedd yr 16 olaf.

Ar ôl naw diwrnod o drafod a dadlau dwys, daethant yn yr 11eg safle, ar ôl mynd ymhellach yn y gystadleuaeth na Yale, Princeton, Caergrawnt B, Durham, Coleg Prifysgol Cork, Stanford, Bryste, a Phrifysgol McGill.

Stori lawn **www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2013/02/title-126959-cy.html**

# Llwyddiant Seicoleg



*Llun: Gareth Hall*

**Dyfarnwyd achrediad cenedlaethol i Adran Seicoleg Prifysgol Aberystwyth gan y Gymdeithas Seicolegol Brydeinig (BPS), y gymdeithas ddysgedig a gydnabyddir yn rhyngwladol ac sy'n gyfrifol am sicrhau safonau ansawdd yn y maes.** Dengys hyn fod myfyrwyr yn cael yr hyfforddiant gorau mewn seicoleg, ac y byddant yn graddio gyda'r sylfaen cywir ar gyfer cael swydd a llwyddiant yn y dyfodol.

Mae'r adran eisoes wedi cyrraedd y safle uchaf yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr er mai pum mlynedd yn unig a aeth heibio ers ei sefydlu.

Stori lawn **www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2013/06/title-136726-cy.html**

# Buddsoddiad sylweddol mewn cyfleusterau academaidd



*Mae Blas Padarn, gyda'i olygfa banoramig ar draws Llanbadarn a rhan isaf Cwm Rheidol, yn fan astudio anffurfiol ac yn fwyty hyfryd ar y campws*

**Mae rhaglen buddsoddi'r Brifysgol wedi cynnwys £3.5m ar gyfer Campws Llanbadarn ac ar ôl misoedd o ddarparu ac adnewyddu mae'r campws bellach yn gartref newydd i Athrofa Rheolaeth, y Gyfraith a Gwyddor Gwybodaeth, yn cynnwys adrannau Cyfraith a Throseddeg, a'r Astudiaethau Gwybodaeth a'r Ysgol Rheolaeth a Busnes.**

Mae Canolfan Llanbadarn mewn lle hyfryd gyda gerddi hardd a digon o le i gerddwyr, gofod gwyrdd a pharcio. Mae'r adeiladau sydd wedi eu hailwampio yn hawdd eu cyrraedd, yn hyfryd ac yn fywiog. Mae tu fewn pob un o'r adeiladau wedi cael ei ad-drefnu a'i adnewyddu ac maent yn cynnwys ystafelloedd dysgu sy'n cynnig yr offer diweddaraf, mannau dysgu modern, ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd, mannau i gymdeithasu a chyfleusterau TG, a'r cyfan yn ateb anghenion dysgu a datblygiad proffesiynol modern.

Ceir hefyd lyfrgell bwrpasol yn adeilad Thomas Parry sy'n cynnwys yr holl werslyfrau angenrheidiol, cyfnodolion ac adnoddau cymorth dysgu yn ogystal â mynediad llawn i'r adnoddau electronig diweddaraf.

Ynghyd â'r buddsoddiad mewn adnoddau addysgu, dysgu ac ymchwil yn Llanbadarn, mae Aberystwyth yn ymgymryd hefyd â rhaglen dreigl o adnewyddu ac ailaddurno ystafelloedd dysgu; mae'r cam cyntaf wedi ei gwblhau yn ystod haf 2013 yn Adeilad Hugh Owen ar Gampws Penglais.

Mae'r buddsoddiad cychwynnol hwn, gwerth £640,000, wedi darparu systemau technoleg addysgu gwell, system goleuadau ynni-effeithlon, arwynebau ysgrifennu a thaflunio newydd, dolenni clywed sain, rhwydwaith diwifr, dodrefn, lloriau a gorchuddion ffenestri ar gyfer pob ystafell. Yn ogystal â'r cyfarpar addysgu technolegol diweddaraf, mae ystafelloedd wedi eu hailddodrefnu i gynnig amrywiaeth o osodiadau addas ar gyfer gwahanol ddulliau o addysgu a dysgu, ac yn ben ar y cyfan rydyn ni wedi defnyddio cynlluniau lliw i ychwanegu rhyw gymaint o fywiogrwydd.

# Stormydd Ionawr

**Cafwyd cychwyn dramatig i'r Flwyddyn Newydd yn Aberystwyth gyda chyfuniad o un o'r stormydd ffyrnicaf a'r llanw uchaf a welwyd ers degawdau lawer yn curo'n ddidrugaredd ar y prom**. Cyhoeddodd y gwasanaethau argyfwng a'r Swyddfa Dywydd rybuddion y byddai perygl gwirioneddol i eiddo a bywyd yn ystod cyfnodau'r llanw uchel. Roedd delweddau o'r tonnau brawychus ar y newyddion ym mhob rhan o'r byd, ac yn y Brifysgol gweithredwyd trefniadau argyfwng. Ar ddau achlysur gwagiwyd neuaddau preswyl a lletyau preifat ar lan y môr a symudwyd tua 250 o fyfyrwyr i fyny'r bryn i Benglais lle roedd staff, Undeb y Myfyrwyr a gwirfoddolwyr i gyd yn ymdrechu hyd yr eithaf i wneud yn siwr bob pob un yr effeithwyd arno yn gynnes, yn cael ei fwydo ac yn cael gwely am y noson.

Yn ffodus ni chafodd neb ei anafu (er i un neu ddau gael cryn drochfa) ac nid oedd y difrod i'r adeiladau ar hyd glan y môr yn ddifrifol. Fodd bynnag, ni fu'r Prom mor ffodus gyda cherrig palmant, meinciau a pholion lamp yn cael eu taflu o gwmpas a'u malurio, a'r lle i gyd o dan haen o raean, tywod a cherrig.



*Y tonnau'n teyrnasu*

*Llun: Sara Penrhyn Jones*

Gwnaed difrod sylweddol i'r lloches gyhoeddus ym mhen gogleddol y prom cyn i'r môr fylchu'r wal oddi tani a sgubo'r sylfaeni i ffwrdd gan adael bwlch llydan y suddodd y lloches i mewn iddo hyd at sylfaeni'r baddondy Fictorianaidd oddi tani.

Derbyniodd y Brifysgol negeseuon dirif yn mynegi pryder a chefnogaeth oddi wrth gynfyfyrwyr o bob rhan o'r byd, gan bwysleisio unwaith yn rhagor yr hoffter o Aberystwyth ymhlith ei chymuned estynedig. Yr wythnos ganlynol, ar gais Cyngor Sir Ceredigion, daeth pobl leol, ynghyd â rhai heb fod mor lleol, i helpu i rofio peth o'r tywod yn ôl i'r traeth, gan ddangos yn gorfforol eu penderfyniad i helpu i adfer un o brif asedau Aberystwyth.

Gyda chefnogaeth cymuned estyngedig Aberystwyth, y dref, y Brifysgol a'r cynfyfyrwyr, bydd Aber yn barod i groesawu ymwelwyr dros y Pasg.

# Cartrefi newydd i fyfyrwyr ar Fferm Penglais



**Fel rhan o raglen buddsoddi sylweddol yn Aberystwyth, mae'r Brifysgol ar hyn o bryd yn codi preswylfeydd newydd ar gyfer myfyrwyr ar Fferm Penglais a fydd yn darparu'r lletyau pwrpasol diweddaraf ar gyfer 1000 o fyfyrwyr.** Bydd yr ystafelloedd unigol yn fwy nag unrhyw beth y mae'r Brifysgol wedi ei ddarparu o'r blaen, ac mae'r datblygiad yn cynnwys 100 o fflatiau stiwdio sydd wedi eu cynllunio'n benodol ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig.

Mae'r datblygiad newydd wedi ei leoli yn agos i bentref myfyrwyr Jane Morgan ac yn gyfleus o agos i Gampws Penglais. Bydd y cyfleusterau newydd yn darparu digon o le ar gyfer byw ac astudio a byddant yn cynnwys gwifrau caled a diwifr i'r rhyngrwyd. Wedi ei ysbrydoli gan dirwedd a phensaernïaeth y Gymru wledig, mae'r datblygiad yn cynnwys cyfres o adeiladau dau a thri llawr gyda fflatiau ar gyfer chwech i wyth o fyfyrwyr mewn llety hunan-arlwyol.

Bydd lle canolog hefyd yn darparu ystod o swyddogaethau cymdeithasol, dysgu a byw gan gynnwys gofod cymunedol ar gyfer clybiau a chymdeithasau, a chyfleusterau astudio a chyfrifiadurol, golchdai, storfa beiciau ynghyd â chae chwarae glaswellt newydd.

Fferm Penglais, a fydd yn agor ei drysau i fyfyrwyr ar ddechrau blwyddyn academaidd 2014, fydd ffocws y gymuned o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith sy'n byw yn Neuadd Pantycelyn ar hyn o bryd, gan roi'r cyfle iddynt fwynhau'r mwyaf modern o'r adnoddau preswyl sydd i'w cael yn Aberystwyth.

Dewch ar rithdaith drwy'r datblygiadau newydd: **www.aber.ac.uk/cy/university/future/residence-project**

# Datgelu graddfa'r cynhesu byd-eang



*Dr Pippa Moore, sy'n ymchwilydd yn IBERS, yw un o brif awduron yr astudiaeth*

**Mae prosiect ymchwil tair blynedd wedi dangos fod y cynnydd yn nhymheredd y moroedd yn peri i rywogaethau môr newid eu hadegau epilio ac i symud trigfannau, a disgwylir i hyn effeithio'n sylweddol ar dirwedd ehangach y moroedd.**

Cafodd symudiadau systemig helaeth i fesuriadau megis dosbarthiad rhywogaethau a ffenoleg – sef amseriad calendr byd natur – eu datgelu ar raddfa gyffelyb neu'n fwy na'r rhai a welir ar y tir.

Stori lawn **www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2013/08/title-139151-cy.html**

# Y lle diogelaf i astudio

**Yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd gan y *Complete University Guide* Aberystwyth yw'r Brifysgol ddiogelaf yng Nghymru a Lloegr i astudio ynddi.**

Mae'r adroddiad, sy'n cael ei lunio o ddata swyddogol gan yr heddlu, yn rhoi'r darlun cliriaf posibl o gyfraddau troseddu ymron i 120 o brifysgolion yng Nghymru a Lloegr. Gan Aberystwyth y mae nifer isaf y troseddau perthnasol i fyfyrwyr o fewn tair milltir o'r campws.

Stori lawn **www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2013/07/title-138240-cy.html**

# Cymeradwyo cymorth gadael gofal

**Cafodd Prifysgol Aberystwyth adroddiad gwych gan Buttle UK, sef elusen fwyaf y Deyrnas Gyfunol yn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi, er mwyn cydnabod bod fframweithiau cymorth y Brifysgol yn cyflawni ac yn mynd y tu hwnt i anghenion ieuenctid rhai sy'n gadael gofal.** Cafodd Aber gydnabyddiaeth am hyn yn wreiddiol nôl yn 2008 pan ddyfanwyd Marc Safon Buttle UK iddi, a daeth yr adroddiad newydd yn sgil ymweliad gan Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr, David Anderson, ym mis Mai 2013.

Stori lawn **www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2013/05/title-130740-cy.html**

# Campws Arloesi a Lledaenu



**Bydd buddsoddiad cyfunol gan y Cyngor Ymchwil Gwyddoniaeth Biotechnegol a Bioleg (BBSRC) a Phrifysgol Aberystwyth, y disgwylir iddo gyrraedd tua £35m, yn dod â Champws Ymchwil ac Arloesedd newydd y DG i gampws Gogerddan ychydig y tu allan i Aberystwyth.**

Bydd Campws Aberystwyth ar gyfer Arloesi a Lledaenu (AIDC) yn dod â chryn fanteision i'r economi a'r gymdeithas, o'r lleol i'r byd eang, drwy harneisio adnoddau naturiol unigryw Aberystwyth o bobl a lle a'r doniau rhyngddisgyblaethol sydd ar gael yma.

Drwy adeiladu ar y cryfderau ymchwil ac academaidd sydd ar gael yn IBERS, bydd yr AIDC yn dod yn gyfleuster blaenllaw i alluogi i arbenigedd y DG mewn gwyddor a thechnoleg amaeth ennill statws fyd eang. Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar fwyd ac ynni adnewyddol ac yn dod yn rhan allweddol o'r Strategaeth Technoleg Amaeth a lansiwyd gan y Weinyddiaeth dros Brifysgolion a Gwyddoniaeth yn 2013.

Bydd isadeiledd a chyfleusterau newydd yn cael eu datblygu i ddenu cwmnïau ac ymchwilwyr sydd â diddordeb mewn creu cynnyrch newydd masnachol sydd yn seiliedig ar ddulliau modern o fridio planhigion. Bydd ymchwilwyr o'r Brifysgol a busnesau yn gallu cydweithio i wireddu potensial syniadau sy'n fasnachol ymarferol, a rhoi sylw i bryderon rhyngwladol yn ymwneud â dyfodol diogelu'r cyflenwad bwyd a hybu economi'r DG.

O'r cyfanswm a fuddsoddir, clustnodwyd hyd at £2.5m i ddatblygu Canolfan Ymchwil Ucheldir Pwllpeiran ger Aberystwyth, adnodd unigryw a fydd yn canolbwyntio ar ehangu a gwella amaethyddiaeth yr ucheldir drwy ymchwil, hyfforddiant a datblygu.

Bu Pwllpeiran yn ganolfan ymchwil ers yr 1930au, gan weithio i wella ymarferoldeb amaethu'r ucheldir. Mae'r ucheldiroedd hyn yn cwmpasu 80,000 hectar, ac mae'r adnodd naturiol hwn yn darparu gwasanaethau anhepgor yn cynnwys dŵr, bwyd, tanwydd, atafaeliad carbon, cynefinoedd bywyd gwyllt, hafanau bioamrywiaeth, lliniaryddion llifogydd a gofod hamdden.

Mae sialensau diogelwch bwyd, gostyngiad nwyon tŷ gwydr ac amddiffyn bioamrywiaeth yn gofyn am well deunydd o'r ucheldiroedd a datblygiad planhigion newydd a systemau anifeiliaid er mwyn gallu cyrraedd targedau'r llywodraeth. Mae angen dulliau arloesol, a ysgogir gan wyddoniaeth i gwrdd â'r sialensau hyn.

Meddai'r Athro Wayne Powell, Cyfarwyddwr IBERS: "Mae'r buddsoddiad hwn yn bleidlais o hyder yn y gwaith rydyn ni'n ei wneud yma yn IBERS a bydd yn ein galluogi i adeiladu ar gynhysgaeth y lleoliad hwn ac i wella ymhellach ein safle fel arweinwyr byd-eang mewn ymchwil amaethyddiaeth trawsfudol.

"Mae amaethyddiaeth yn gonglfaen rhai o'r prif sialensau sy'n wynebu cymdeithas yn y 21ain Ganrif, a'n gweledigaeth ni yw trawsnewid heriau anferth diogelwch bwyd, dŵr ac ynni yn gyfleoedd cynaliadwy a ffyniannus i gymdeithas, a chydnabod bod arloesi mewn amaethyddiaeth yn chwarae rhan allweddol wrth feithrin bioeconomi sy'n seiliedig ar wybodaeth."

Disgwylir y bydd gwaith ar Gampws newydd Arloesi a Lledaenu Aberystwyth yn dechrau yn 2014.

# Y diwrnod agored cyntaf yn llwyddiant ysgubol

**Manteisiodd dros 400 o bobl ar y gwahoddiad agored a'r croeso cynnes i Mynediad am Ddim, diwrnod agored i'r gymuned cyntaf y Brifysgol, a gynhaliwyd ar ddydd Sadwrn 22 Mehefin 2013.**

Roedd staff o bob rhan o'r Brifysgol wedi trefnu amrywiaeth eang o weithgareddau, arddangosfeydd ac arddangosiadau i amlygu'r gwaith cyffrous sy'n digwydd yn y Brifysgol, ac roedd yr unigolion yn bresennol i gynnig gwybodaeth fanwl ac i ateb cwestiynau.

Denwyd llawer o bobl, yn deuluoedd ac unigolion gan y digwyddiad BeachLab yn y Bandstand. Roeddent wedi rhyfeddu at robotiaid yr Adran Gyfrifiadureg, ac yn arbennig at y gerddorfa robotig a wnaed o hen offerynnau ac a reolid gan ddau gyfrifiadur bychan Raspberry Pi.

Manteisiodd llawer hefyd ar y teithiau tywys o amgylch y Ganolfan Ffenomeg Planhigion Genedlaethol, cyfleuster tŷ gwydr ymchwil mwyaf blaenllaw y byd sydd wedi ei leoli ar Gampws Gogerddan, lle y gellir rheoli pob agwedd o'r amodau tyfu yn fanwl i fod yn gyffelyb i unrhyw amgylchedd naturiol.

Roedd gweithgareddau eraill yn cynnwys cerddoriaeth fyw, dosbarthiadau micro, teithiau, arbrofion, sesiynau chwaraeon, arddangosiadau coginio, peintio wynebau a gemau ar y we.

Yn ddiweddglo teilwng ar y diwrnod daeth cyfanswm o 3000 o bobl leol ac eraill sy'n hoff o gerddoriaeth i wŷl gerdd flynyddol rad ac am ddim Canolfan y Celfyddydau, ar lwyfan MidMad ar Gwrt y Capel i fwynhau cerddoriaeth fyw. Roedd y bandiau oedd yn perfformio yn cynnwys The Bhagdaddies, PigBag a Sound Assembly, ac enillwyd y gystadleuaeth Bandslam i fandiau lleol gan Arms Like Legs.

# Masnachu mewn Pobl

*Myth a Gwirionedd | Geiriau gan Ryszard Piotrowicz*



**Ym mis Tachwedd 1989 gwelwyd cwymp Wal Berlin, a doedd fawr neb y tu allan i lywodraeth Dwyrain yr Almaen yn gweld y tu hwnt i'r llawenydd ar y pryd.** Bu dathlu mawr. Chwarter canrif yn ddiweddarach, rydym yn byw gyda chanlyniadau (da a drwg) y digwyddiad pwysig hwnnw.

Daeth manteision i'r amlwg ar unwaith i bobl dwyrain Ewrop wrth gwrs – rhyddid i deithio, cyfle i wneud arian go iawn (doedd dim arian caled yn nwyrain Ewrop, dim ond papur tŷ bach caled) a hawl i ethol eu llywodraethau eu hunain. Doedd hi ddim mor hawdd darogan anfanteision a risgiau'r newid hwnnw: diweithdra a thlodi ar raddfa fawr, a newid cymdeithasol aruthrol wrth i gannoedd ar filoedd fudo o'r dwyrain i'r gorllewin i geisio gwneud bywoliaeth dda. Mae hyd yn oed economïau cryfaf y dwyrain (Gwlad Pwyl yw'r enghraifft orau) yn gorfod dygymod â thlodi gwirioneddol o hyd. Mewn rhai gwledydd, fel Moldofa – y wlad dlotaf yn Ewrop yn swyddogol – does dim gobaith o gwbl i'w weld.

Y cyfuniad enbyd hwnnw – tlodi a diffyg gobaith neu drem ar y dyfodol – sydd wedi gadael llawer o bobl ifanc yn agored i'w masnachu.



**Mae masnachu mewn pobl yn drosedd ddifrifol iawn.** Mae'n gyfystyr â chaethiwo, a phobl yn cael eu symud o wlad i wlad, ac yn aml o fewn yr un wlad, er mwyn i bobl gamfanteisio'n anghyfreithlon arnynt, a phawb heblaw'r dioddefwyr yn gwneud elw mawr.

Mae sawl myth ynglŷn â masnachu mewn pobl, a hynny'n aml yn deillio o'r mudo gorfodol hwnnw o ddwyrain Ewrop, ond rwyf am egluro rhywfaint ar y realiti, a thynnu sylw at yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd pan gaiff rhywun ei fasnachu.

## Myth un:
### *Dyw dioddefwyr ddim yn ddioddefwyr go iawn am eu bod "yn gwybod beth sydd o'u blaenau".*

Mae hyn yn dangos methiant llwyr i ddeall natur masnachu mewn pobl. Mae masnachu'n golygu bod â rheolaeth dros bobl eraill, boed hynny drwy rym neu dwyll neu mewn rhyw ffordd arall, er mwyn camfanteisio arnynt. Proses yw hon: mae pawb sy'n rhan o'r broses, gan wybod hynny, yn fasnachwyr – o'r bobl hynny yn yr asiantaethau recriwtio amheus sy'n addo swyddi mawr yn y gorllewin, i berchnogion gwestai sy'n gadael i'r dioddefwyr gael eu cloi mewn ystafelloedd dros nos tra byddant yn cael eu cludo, gan wybod y bydd pobl yn camfanteisio arnynt, i berchnogion bariau sy'n prynu merched i'w gorfodi i fod yn buteiniaid, neu'r gwerthwyr cyffuriau sy'n cloi'r drws ar fechgyn yn eu harddegau ac yn eu gorfodi i weithio 16 awr y dydd yn tyfu canabis. Mae pob un yn fasnachwr, pob un yn chwarae ei ran yn camfanteisio ar y dioddefwr a phob un yn elwa ar y camfanteisio hwnnw.

Unwaith y byddwch yn deall mai *proses* yw masnachu mewn pobl, a bod sawl troseddwr gwahanol a dulliau gwahanol iawn o recriwtio a rheoli, dylai fod yn weddol amlwg na allwch gydsynio i gael eich masnachu: mae masnachu mewn pobl yn ei hanfod yn golygu camfanteisio ar bobl (gan gynnwys dwyn eu rhyddid a defnyddio trais corfforol, rhywiol a seicolegol i gadw rheolaeth drostynt). Efallai ei bod yn *ymddangos* bod y dioddefwyr wedi cydsynio ond mae hynny oherwydd nad oeddent yn gwybod i beth yr oeddent yn cydsynio: mae digonedd o achosion o fenywod ifanc a wyddai eu bod yn mynd i wledydd eraill i fod yn buteiniaid, a oedd fel petaent yn cydsynio am eu bod yn credu y byddent yn cael dewis eu cwsmeriaid ac yn cadw eu henillion. Beth bynnag yw'ch barn am buteindra, nid yw ynddo'i hun yn gyfystyr â masnachu mewn pobl. Fyddai neb yn cydsynio i'r realiti hwn – cael eu gorfodi i weithio am y nesaf peth i ddim, a'r arian a enillir i gyd yn mynd i dalu dyledion ffug am lety a bwyd, lle na chaiff y dioddefwyr adael yr adeilad, lle gorfodir disgyblaeth (a chosbi unrhyw anghydffurfio) â thrais eithafol, a lle defnyddir blacmel a bygythiadau i ddweud wrth deuluoedd y dioddefwyr am yr hyn y maen nhw'n ei wneud. Does neb yn cydsynio i hynny.

## Myth dau:
### *Unig ddiben masnachu yw camfanteisio'n rhywiol.*

Wrth gwrs, mae masnachu mewn pobl yn ymwneud yn aml â chamfanteisio'n rhywiol – ar fenywod a phlant fel arfer. Mae hynny'n digwydd, ac yn digwydd yn aml. Ond mae sawl rheswm arall dros fasnachu mewn pobl: caiff pobl ifanc o Fietnam eu masnachu i'r DG i weithio dan orfodaeth (er enghraifft i dyfu canabis). Caiff dynion eu masnachu i'r DG (gan gynnwys o wledydd eraill yr UE) i weithio yn y sector amaethyddiaeth. Caiff plant eu masnachu i'w gorfodi i gardota – daw llawer o blant o Rwmania i'r perwyl hwnnw. Caiff y plant eu cadw'n aml mewn amodau enbyd a'u gorfodi i ildio'r holl arian y byddant yn ei gardota. Caiff rhai pobl eu masnachu am rannau o'u cyrff, ac er mwyn priodi dan orfodaeth (a hynny'n aml yn ffordd o arfer rheolaeth dros fenyw cyn camfanteisio arni drwy ei gorfodi i fod yn butain).

## Myth tri:
### *Mae'r masnachu bob amser yn digwydd o ddwyrain i orllewin Ewrop.*

Dyna fu'r patrwm yn Ewrop yn y gorffennol, ac yn arbennig felly oherwydd y newid cymdeithasol aruthrol a chwymp economïau dwyrain Ewrop wedi tranc comiwnyddiaeth yno. Mewn gwirionedd, mae masnachu mewn pobl yn digwydd ledled y byd: o'r de i'r gogledd, o'r dwyrain i'r gorllewin ac o fewn cyfandiroedd. Mae'r rhestr bron yn ddiddiwedd. Gelwir rhai gwledydd yn wledydd tarddu (lle caiff y dioddefwyr eu recriwtio – gwledydd tlotach fel arfer); mae rhai'n wladwriaethau tramwy (lle ceir camfanteisio hefyd), ac eraill yn wledydd pen y daith (fel arfer, ond nid bob amser, yn wledydd cyfoethocach). Mae'r DG yn bendant yn wlad pen y daith.

Mae masnachu'n digwydd o fewn gwledydd hefyd. Os cofiwch y sgandal ddiweddar am ddynion yn camfanteisio'n rhywiol ar ferched yn eu harddegau yng ngogledd Lloegr, roedd y dioddefwyr hynny'n cael eu masnachu.

> "Mae dioddefwyr masnachu mewn pobl ym mhobman, er nad yw bob amser yn hawdd eu gweld..."

## Myth pedwar:
### *Yr un peth yw masnachu mewn pobl a smyglo pobl.*

Dyw hynny ddim yn wir. Wrth fasnachu mewn pobl, camfanteisir ar y dioddefwyr heb iddynt gydsynio. Ar y llaw arall, mae pobl yn cydsynio i gael eu smyglo dros ffiniau rhyngwladol heb yn wybod i'r awdurdodau. Mae pobl yn talu i gael eu smyglo i wlad arall, a hynny fwy na thebyg am mai dyna'r unig ffordd y gallant fynd i mewn i'r wlad honno. Mae'n broblem gyson ar ffin ddeheuol yr Unol Daleithiau, yn nod i bobl dlawd ledled America Ladin sy'n gweld yr Unol Daleithiau'n rhywle lle bydd cyfle iddynt symud yn eu blaenau. Ond pan gaiff pobl eu smyglo, maent yn rhydd i fynd ar ôl cyrraedd pen y daith. Maent yn cymryd rhan o'u gwirfodd. Efallai y bydd pobl sy'n cael eu masnachu'n meddwl eu bod yn

cymryd rhan o'u gwirfodd am iddynt gael eu twyllo ynglŷn â'r hyn fydd yn digwydd iddynt ar yr ochr draw. Ac mae rhai pobl sy'n meddwl eu bod yn cael eu smyglo sy'n cael eu masnachu yn y pen draw. Mae'r ffin rhwng y ddau'n denau iawn weithiau.

## Myth pump:

***Mae masnachu mewn pobl yn mynd yn groes i hawliau dynol.***

O ddarllen am y camfanteisio corfforol a rhywiol ar bobl sy'n cael eu masnachu, gallech feddwl bod hynny'n gwbl groes i'w hawliau dynol. Ond gweithred droseddol breifat yw masnachu mewn pobl yn ei hanfod. Os byddaf yn eich taro ar eich trwyn neu'n dwyn eich waled, byddaf yn cyflawni trosedd yn eich erbyn ond ni fyddaf yn ymyrryd â'ch hawliau dynol: rhwymedigaethau gan y Wladwriaeth yw hawliau dynol tuag at y rhai hynny o dan ei hawdurdodaeth; maent yn unioni'r diffyg cydbwysedd rhwng grym y Wladwriaeth a grym yr unigolyn. Dim ond pan fydd y Wladwriaeth ynghlwm â'r mater y bydd masnachu mewn pobl yn fater o hawliau dynol. Felly, er enghraifft, os bydd y Wladwriaeth yn dod i wybod bod rhywun wedi ei fasnachu neu ei fod mewn perygl o gael ei fasnachu, mae'n ddyletswydd gadarnhaol arni i gymryd camau i'w amddiffyn. Mae'r ddyletswydd honno'n seiliedig ar rwymedigaeth y Wladwriaeth o safbwynt hawliau dynol i atal caethwasiaeth, caethiwed neu lafur gorfodol. Gallai fod yn ddyletswydd ar y Wladwriaeth hefyd o safbwynt hawliau dynol i ganiatáu i dramorwr aros yn ei thiriogaeth os bydd, o'i orfodi i fynd adref, yn agored i risg cael ei fasnachu.

Felly, mae *dimensiwn* hawliau dynol i fasnachu mewn pobl. Nid chwarae â geiriau yr ydw i yma: mae goblygiadau gwleidyddol arwyddocaol i hyn. Mae angen i awdurdodau'r wladwriaeth wybod ymhle y mae cyfraith droseddol yn berthnasol ac ymhle y mae cyfraith hawliau dynol yn berthnasol, fel y gallant ddefnyddio eu hadnoddau mor effeithiol â phosib a sicrhau bod eu trefniadau cyfreithiol domestig wedi eu drafftio cystal ag y bo modd er mwyn ymdrin â bygythiad masnachu mewn pobl. Mae hynny'n bwysicach o lawer na rhethreg hawdd, a diog, dweud bod rhywbeth yn mynd yn groes i hawliau dynol pan nad ydyw mewn gwirionedd.

## Myth chwech:

***Does a wnelo masnachu mewn pobl ddim â mi.***


Oes, a dweud y gwir. Byddai'r rhan fwyaf o bobl, o weld rhywun wedi'i anafu ar y ffordd, yn ceisio helpu, hyd yn oed os na allent wneud dim ond ffonio am ambiwlans. Mae dioddefwyr masnachu mewn pobl ym mhobman, er nad yw bob amser yn hawdd eu gweld. Efallai y byddant yn glanhau eich ystafell yn y gwesty lle rydych yn aros; efallai y byddant yn eistedd y drws nesaf i chi wrth i chi hedfan yn ôl i'r DG – a rhywun yn aros yr ochr draw i'r swyddogion pasbort i gymryd eu pasbort oddi arnynt a mynd â nhw i buteindy yng Nghaerdydd neu yn Llundain. Os credwch fod rhywun mewn perygl, mae gennych ddewis: gallwch gymryd arnoch na welsoch ddim a pharhau â'ch bywyd cyfforddus, neu gallwch roi gwybod i'r heddlu.

**Mae Ryszard Piotrowicz yn Athro yn y Gyfraith yn Adran y Gyfraith a Throseddeg. Mae'n aelod o GRETA (Grŵp Cyngor Ewrop o Arbenigwyr ar Weithredu yn Erbyn Masnachu mewn Pobl) ac yn aelod o Grŵp y Comisiwn Ewropeaidd o Arbenigwyr ar Fasnachu mewn Pobl.**



*Llun: Seb Balcombe*






Roedd cyfrifiadureg yn llawn menywod yn y blynyddoedd cynnar. Amcangyfrifir bod dros 80% o staff Bletchley Park yn ystod y rhyfel yn fenywod, yn gweithio rhai o beiriannau cyfrifiadura cyntaf y byd, ac yn cyfrannu at sylfeini cyfrifiadureg ym Mhrydain. Roedd cyrsiau cyfrifiadureg cynnar yn apelio at ddynion a menywod fel ei gilydd. Yn wir, ystyr gwreiddiol 'cyfrifiadur' oedd rhywun – menyw fel arfer – a oedd yn gwneud symiau digon cyffredin. Ond yn y 1970au, newidiodd hynny. Daeth cyfrifiadureg yn ddisgyblaeth ac yn wir yn broffesiwn lle roedd problem o ran niferoedd dynion a menywod. Erbyn hyn, tua 15% o'r gweithlu technegol sy'n fenywod, ac mae'n amlwg bod menywod yn dewis gadael y trywydd hwn ym mhob cam o'r daith addysgol.

# Menywod a chyfrifiadureg:

*y broblem, pam ddylai fod ots gennym, a'r hyn y dylem fod yn ei wneud ynglŷn â'r sefyllfa*

*Geiriau gan Hannah Dee*



**Mae'n anodd gwybod pam y mae hyn yn digwydd: mae'n digwydd yn y rhan fwyaf o wledydd y gorllewin (ond yn llai cyffredin mewn rhannau eraill o'r byd)**. Efallai nad oes gan fenywod ddiddordeb mewn cyfrifiaduron. Neu efallai fod rhywbeth sy'n rhwystro menywod – er enghraifft, efallai fod rhywbeth ynglŷn â chyfrifiadureg mewn ysgolion sy'n gwneud i fenywod feddwl nad yw'n addas iddyn nhw. Neu efallai fod problem ehangach yn ymwneud â delwedd.

Pan ofynnwch i blentyn dynnu llun cyfrifiadurwr, bydd fel rheol yn tynnu llun dyn, yn gwisgo sbectol, a chanddo blorod, fwy na thebyg, yn pwyso dros fyseddell. Os chwiliwch am lun o 'gyfrifiadurwr', mae'r dudalen gyntaf yn llawn lluniau ystrydebol – ac mae'r lluniau ar gyfer 'rhaglennydd' yn ddigon tebyg. Beth bynnag a ddywedwn am y ddisgyblaeth ac am y proffesiwn, mae un peth yn amlwg, sef bod gan gyfrifiadureg broblem o ran ei delwedd.

## Beth sy'n digwydd mewn ysgolion?

Bu'n argyfwng ar gyfrifiadureg mewn ysgolion, a gwelwyd penllanw hynny y llynedd pan alwodd y Gymdeithas Frenhinol am ad-drefnu mawr ar y cwricwlwm technegol yn ei chyhoeddiad *Shut down or restart?*. Y broblem yw nad yw plant ysgol y wlad hon yn gwybod beth yw cyfrifiadureg – yn yr ysgol, mae'r plant yn astudio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), sy'n cynnwys taenlenni, prosesu geiriau, ac efallai rywfaint o ddylunio cronfeydd data neu wefannau. Does dim sôn am gyfrifiadureg – systemau, rhaglennu, rhwydweithiau, algorithmau. Gwelwn hyn wrth gyfweld pobl am le yn y brifysgol bob blwyddyn, ac mewn adrannau cyfrifiadureg ledled y DG mae glasfyfyrwyr yn meddwl tybed beth sydd o'u blaenau. Nid dim ond ym myd cyfrifiadureg y mae hynny'n digwydd (nid yw'r rhan fwyaf o fyfyrwyr y gyfraith, er enghraifft, wedi astudio'r gyfraith cyn iddynt gyrraedd prifysgol), ond mae i hyn oll, law yn llaw â'n problem o ran delwedd, oblygiadau sylweddol, ac yn arbennig felly o ran niferoedd dynion a menywod.

Yn 2012, cwympodd nifer y menywod a oedd yn dewis astudio Safon Uwch cyfrifiadureg i 297 (h.y. 297 o fenywod ledled y DG – dim ond 38 o fenywod oedd yn astudio Safon Uwch cyfrifiadureg yng Nghymru). Ond mae'r niferoedd sy'n astudio cyfrifiadura yn yr ystyr ehangach wedi bod yn cwympo drwyddi draw, nid dim ond ymhlith menywod: cwympodd niferoedd Safon Uwch TGCh 34% yn 2003–2012, a chwympodd niferoedd Safon Uwch cyfrifiadureg 60% yn yr un cyfnod. Yn y brifysgol, mae'r diffyg cydbwysedd rhwng niferoedd dynion a menywod yn parhau ar ôl Safon Uwch. Mae cymhareb dynion a menywod yr Adran Gyfrifiadureg yma yn Aberystwyth yn weddol gyfartalog – yn amrywio o 10 i 15 y cant.

Felly mae gennym broblem: nid cyfrifiadureg mo cyfrifiadureg mewn ysgolion, ac oherwydd problem gyffredinol y pwnc o ran delwedd, sef mai byd unig ydyw, a rhywbeth i ddynion yn bennaf, nid yw myfyrwyr sy'n chwilio am yrfaoedd eraill – gyrfaoedd creadigol, cymdeithasol – yn ystyried gwneud cais.

## Gall cyfrifiadureg fod yn hwyl

Gwn efallai y bydd rhai o'm myfyrwyr yn anghytuno, ond rwy'n credu'n gryf y gall cyfrifiadureg fod yn bwnc sy'n rhoi boddhad aruthrol. Wrth i chi raglennu, rydych yn llythrennol yn creu pethau o syniadau, a gall llwyddo i wneud i god anodd weithio roi boddhad mawr i chi. Pan fyddaf yn rhaglennu, mae'r adegau "Aha!" hynny'n digwydd yn weddol aml. Ond mae cyfrifiadureg yn fwy na dim ond rhaglennu: mae'n ymwneud â dylunio systemau, algorithmau, dylunio profiadau'r defnyddiwr (gwneud rhyngwynebau), profi meddalwedd, profi defnyddwyr, hyfforddiant technegol, ysgrifennu technegol, rhwydweithio, cefnogi defnyddwyr a gweithio ar ddesgiau cymorth, a llu o yrfaoedd eraill. Ac mae hynny heb sôn am swyddi rheoli a dadansoddi, ymhellach i fyny'r goeden fusnes. Dim ond mewn llond llaw o'r gyrfaoedd hynny y byddech yn eistedd mewn cornel ar eich pen eich hun yn ysgrifennu codau: mae'r rhan fwyaf yn yrfaoedd lle byddwch yn gweithio mewn tîm, a lle bydd angen sgiliau gweithio mewn tîm arnoch, ynghyd â sgiliau creadigol ac (os caf i ddweud) sgiliau cymdeithasol.

## Bylchau o ran sgiliau, marchnadoedd swyddi, a grym timau amrywiol

Cafwyd newid byd yn y degawd diwethaf pan ddechreuodd busnesau gydnabod bod amrywiaeth yn rhywbeth i'w werthfawrogi. Mae'r cwmni ymgynghorwyr rheoli byd-eang, McKinsey, wedi rhyddhau cyfres o adroddiadau o dan faner "Women Matter", sy'n dangos – o safbwynt busnes eithaf caled – fod timau lle ceir amrywiaeth yn perfformio'n well ym myd busnes. Er enghraifft, os cymharwch gwmnïau yn y chwartel uchaf o ran amrywiaeth dynion a menywod ymhlith y swyddogion gweithredol â chwmnïau lle nad oes yr un fenyw ar y bwrdd gweithredol, mae'r rhai hynny lle ceir amrywiaeth yn sicrhau 41% yn fwy o enillion ar ecwiti, ac yn gwneud 56% yn well o ran enillion cyn llog a threth[1]. Mae'n bwysig nodi nad oherwydd bod menywod yn fwy dawnus ym myd busnes y mae'r timau hyn yn gwneud yn well; maent yn perfformio'n well am fod timau amrywiol yn ymddwyn yn wahanol. Mae diwylliannau unffurf yn tueddu i'w hatgyfnerthu eu hunain: os gwneir y penderfyniadau i gyd gan un sector o'r boblogaeth, bydd y ffordd o wneud penderfyniadau a rheoli hefyd yn debyg. Mae byrddau amrywiol yn cynnig amryw o wahanol gefndiroedd a dulliau rheoli, pob un yn rhan o'r broses fusnes, a phan ddigwydd hynny, dengys McKinsey fod y broses fusnes yn fwy effeithiol.

Mae dadleuon eraill dros gael amrywiaeth yn y gweithle: mewn proffesiynau lle ceir anghyfartaledd mawr rhwng dynion a menywod, mae'r rhyw lleiafrifol fel arfer yn ei chael yn fwy anodd. Mae dynion sy'n nyrsys yn cymryd mwy o ddyddiau o'r gwaith yn sâl, a menywod sy'n gyfrifwyr yn

fwy tebygol o ddioddef pryder ac iselder o ryw fath[2]. Mae term – *gorlif rhyw (sex role spillover)* – i ddisgrifio'r ffordd y mae agweddau anghysylltiedig o rolau dynion a menywod yn treiddio i broffesiwn pan fo anghyfartaledd mawr yn y proffesiwn hwnnw rhwng dynion a menywod. Does dim rhaid i weinyddwyr systemau cyfrifiadurol ymddiddori mewn cwrw a threnau: dyw diddordebau anghysylltiedig ond cyffredin ddim yn eich gwneud yn well gweinyddwr (er y gallai ei gwneud yn haws i chi sgwrsio â'ch cyd-weithwyr).

Mae prinder sgiliau hefyd mewn rhai swyddi TG: yn ddiweddar, cynigiodd Neelie Kroes, comisiynydd yr UE dros yr agenda ddigidol (ac is-lywydd yr UE) y dylid sefydlu cynghreiriau mawr i ymdrin â'r bylchau o ran sgiliau technegol. Nid yw'r bylchau'n unffurf ledled maes TGCh/Cyfrifiadureg, ond mae bylchau yn y rhan fwyaf o is-barthau; er enghraifft, dywedodd Swyddfa Archwilio'r DG yn ddiweddar y byddwn, oni cheir cynnydd dramatig yn nifer y rhai sy'n dilyn cyrsiau cyfrifiadureg, yn gorfod aros 20 mlynedd hyd nes y cawn ddigon o weithwyr proffesiynol medrus ym maes seiberddiogelwch.

Felly: mae timau amrywiol yn perfformio'n well, ac mae llawer o swyddi ar gael (mewn rhai rhannau o'r proffesiwn, o leiaf). Beth ydyn ni'n ei wneud i geisio annog merched i fentro i fyd cyfrifiadureg? A Allen ni wneud mwy? Beth allwn ni ei wneud i helpu?

## Merched anoracaidd a genod amgodio

Mae cyfrifiadureg bellach yn rhan annatod o'n bywydau. Mae gan y rhan fwyaf ohonom gyfrifiaduron yn ein pocedi sy'n fwy pwerus o lawer na'r cyfrifiaduron a ddefnyddiwyd ar y wennol ofod; mae mwy o bŵer prosesu mewn rhai peiriannau golchi dillad nag oedd ar gael i arloeswyr cyfrifiadura'r chwedegau. Mae rhwydweithio cymdeithasol mor boblogaidd nes bod tua'r un nifer o ddynion a menywod yn defnyddio cyfrifiaduron, yn chwarae gemau ac yn prynu: yn wir, rwyf finnau'n rhan o'r grŵp demograffig sy'n tyfu fwyaf o ran gemau cyfrifiadurol (menywod 35–55 mlwydd oed). Felly er bod menywod yn defnyddio technoleg yn weithredol, dydyn ni ddim yn rhan o'r broses o'i chreu i'r un graddau.

Mae sefydliadau a digwyddiadau wedi'u targedu at fenywod sy'n ceisio torri'r patrwm hwn. Mae rhai o'r rhain yn gysylltiedig â chymdeithasau proffesiynol, fel BCSWomen (grŵp Cymdeithas Gyfrifiaduron Prydain i fenywod mewn technoleg). Mae eraill yn sefydliadau llawr gwlad, fel Girl Geek Dinners, sy'n trefnu sgyrsiau a chiniawau ledled y byd i fenywod. Mae rhai sefydliadau hefyd ar gyfer meysydd penodol ym myd cyfrifiadureg, fel MzTek sy'n targedu menywod a chanddynt ddiddordeb mewn cyfrifiadureg a chelf, neu CAS #include (Computing At School) sy'n gweithio i wneud cyfrifiadura yn yr ysgol yn fwy cynhwysol. Yn ôl Dr Reena Pau, aelod o CAS #include, "Rydym yn awyddus i gynnig cyfleoedd i gynifer o fyfyrwyr ag y bo modd i gael profiad o gyfrifiadura – ond yn sylweddoli wrth gwrs na fydd at ddant pawb!". Mae'r sefydliadau hyn yn gyfle i fenywod gwrdd a rhwydweithio, ond maent hefyd yn cynnig cyfleoedd cymorth a mentora.

Yn Aberystwyth, mae grŵp o'r enw Aber Comp Sci Ladies, a ddechreuwyd gan Phoebe Murphy sy'n dweud iddi wneud hynny "i geisio helpu'r menywod yn yr adran i deimlo'n llai ynysig ac i'n helpu i gefnogi ein gilydd." (Myfyrwraig israddedig yw Phoebe, ar ei blwyddyn ddiwydiannol yn Blackberry). Mae sefydliadau fel CAS yn rhoi ail wynt i gyfrifiadura mewn ysgolion, ac mae llawer o'r cwmnïau mawr yn rhoi help llaw (mae Microsoft, Google ac IBM i gyd wedi noddi rhai o'r mentrau y soniais amdanynt). Ar hyn o bryd, un o'r heriau mwyaf yw hyfforddi digon o athrawon i gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

## Beth ellir ei wneud i wella'r sefyllfa?

- Annog plant i gyfrifiadura'n greadigol – mae pethau fel yr iaith raglennu Scratch (**http://scratch.mit.edu**) yn cyflwyno cysyniadau rhaglennu i blant o tua 7 oed.
- Rwyf wedi ysgrifennu diwrnod rhaglennu i deuluoedd i ffonau Android, lle bu merched 6 oed yn creu ap am y tro cyntaf (dim ond ap synau anifeiliaid fferm, ond mae'n rhaid i bawb ddechrau yn rhywle!); mae ar gael yn rhad ac am ddim ar-lein yn **www.hannahdee.eu/appinventor** – gallech gael gafael ar y deunyddiau a rhoi cynnig arni drosoch eich hun.
- Gallai pobl fwy technegol helpu mewn ysgolion – mae **www.computingplusplus.org/** yn cysylltu rhaglenwyr ag ysgolion ledled y DG.
- I gael gwybod mwy, mae'r llyfr *Little Miss Geek* gan Belinda Parmar yn gyflwyniad gwych i'r maes yn gyffredinol, a *Delusions of Gender* gan Cordelia Fine yn ymdriniaeth fwy academaidd (ond darllenadwy serch hynny) ar wahaniaethau rhwng y rhywiau drwyddi draw.

Yng ngeiriau'r diweddar Karen Spärck Jones "*Mae cyfrifiadureg yn rhy bwysig i'w adael i ddynion*".



**Mae Dr Hannah Dee yn ddarlithydd mewn cyfrifiadureg yn Aberystwyth. Mae'n ymchwilio i olwg gyfrifiadurol ac yn dysgu rhaglennu ar gyfer y we. Mae hefyd yn aelod o bwyllgor cenedlaethol BCSWomen, ac yn gyfrifol am Golocwiwm Lovelace BCSWomen, prif ddigwyddiad y DG i israddedigion sy'n fenywod. Mae'n Bencampwr Gwyddoniaeth ar brosiect GOWS (Get On With Science), ac yn cymryd rhan mewn gweithdai rhaglennu i blant a'u rhieni yng Nghymru a ledled y DG.**

---

[1] **www.mckinsey.com/~/media/McKinsey/dotcom/client_service/Organization/PDFs/Women_matter_oct2010_english.ashx** McKinsey, Women Matter at the top of corporations, 2010.

[2] **dx.doi.org/10.1016/S0277-9536(01)00044-2** Olga Evans, Andrew Steptoe, The contribution of gender-role orientation, work factors and home stressors to psychological well-being and sickness absence in male- and female-dominated occupational groups, Social Science & Medicine, Cyfrol 54, Rhifyn 4, Chwefror 2002, tudalennau 481–492.

# Dull newydd o gynhyrchu graffin

**Mae ffisegwyr defnyddiau yn Aberystwyth dan arweiniad yr Athro Andy Evans wedi daganfod dull newydd o gynhyrchu graffin, haenen o atomau carbon wedi eu bondio gyda'i gilydd mewn ffordd debyg i graffit.** Fodd bynnag, mae iddo briodweddau gwahanol iawn a llawer gwell na graffit gan gynnwys priodweddau optegol a thrydanol anhygoel.

Dangosodd arbrofion bod graffin yn un o'r deunyddiau cryfaf y gwyddys amdano, llawer iawn cryfach na deunyddiau eraill ac yn llawer cyflymach ac ysgafnach na deunyddiau eraill mewn electroneg megis silicon. Mae'n synhwyrydd nwy hynod o sensitif ac yn medru synhwyro moleciwlau unigol ac yn un o'r dargludyddion gorau o wres a thrydan, ac mae hefyd bron yn dryloyw i olau gweladwy.

Meddai'r Athro Andrew Evans, Pennaeth yr Adran Mathemateg a Ffiseg, a oedd yn arwain y tîm ymchwil: "Bydd graffin i'r 21ain Ganrif fel yr oedd plastig a silicon i'r 20fed ganrif, gan ei fod yn ddefnydd y gellir ei ddefnyddio mewn nifer o ffyrdd amrywiol a fydd yn creu dyfeisiadau cyflymach, meinach, mwy hyblyg a rhatach."

Un o'r heriau mwyaf wrth ddatblygu graffin masnachol yw darganfod ffyrdd economaidd o gynhyrchu graffin uchel ei ansawdd y gellir ei brosesu yn ddyfeisiadau bach, ysgafn ac effeithlon.

Mae cyfarpar a ddatblygwyd yn Aberystwyth wedi galluogi'r tîm i dyfu dalennau o graffin drwy reoli cyfnewid carbon o wyneb diemwnt a chreu crisial graffin perffaith. Mae'r diemwnt yn cael ei drin yn gyntaf gydag ychydig haenau o haearn sy'n gweithredu fel catalydd ac yn cael ei wresogi i gychwyn y cyfnewid.

Maent wedi dangos ei bod yn bosibl atal y broses ar haen o graffin unigol ac yna cario ymlaen i greu dwy, tair, pedair neu ragor o haenau. O'i gymharu â dulliau eraill o ddarparu graffin, gellir defnyddio'r broses hon ar dymheredd cynhyrchu is ac mae'n darparu meintiau mwy o ansawdd crisialog.

Drwy gydweithio â chydweithwyr yn NTNU (Prifysgol Gwyddoniaeth a Thechnoleg Norwy) yn Trondheim, Norwy a MaxLab, Lund, Sweden, maent wedi dangos ei bod hefyd yn bosibl troi carbid silicon yn graffin gan ddefnyddio'r un dull a'r un catalydd, yn yr achos hwn gan ostwng y tymheredd angenrheidiol o dros 1000C i 600C sy'n fwy diwydiannol realistig.

Erbyn hyn mae'r tîm wedi ffeilio cais am batent rhyngwladol ar y ffordd newydd hon o gynhyrchu graffin.

Ariannwyd y gwaith ymchwil hwn gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol (EPSRC) a'i gyflawni o fewn y Ganolfan ar gyfer Defnyddiau a Dyfeisiau Swyddogaeth Uwch, partneriaeth menter ymchwil rhwng Prifysgolion Aberystwyth a Bangor a gyllidir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Mae'r papur cyflawn ar gael ar-lein yn: **www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0008622312005696**



*Yr Athro Andrew Evans, Pennaeth Adran Mathemateg a Ffiseg, ac arweinydd y gwaith*

# Nosweithiau comedi

**Daeth ychydig bach o Aber i ganol Llundain gyda *Comedy Works on the Thames* yn dychwelyd am y trydydd tro ar 13 Tachwedd 2013 ar y Tattershall Castle, rhodlong wedi'i hadnewyddu sydd wedi'i hangori'n barhaol gyferbyn â'r London Eye.** Daeth tua 100 o gyn-fyfyrwyr i fwynhau noson wych yng nghwmni pedwar o sêr stand-up newydd y DG. Dywedodd Steve Pickup, trefnydd y digwyddiad: "Mae'n wych gweld cefnogaeth gref fel hyn - mae'n ddigwyddiad hwyliog dros ben i fod yn rhan ohono ac yn gyfle delfrydol i'n cyn-fyfyrwyr yn Llundain gyfarfod a mwynhau chwerthin gyda'i gilydd".

**Bydd Comedy Works on the Thames yn dychwelyd yn 2014, ac yn ddiweddar ac am y tro cyntaf, cynhaliwyd noson yng Nghaerdydd!**

# Hawliau'r henoed



*Chwith i'r dde: Rebecca Boaler, Jeremy Newman a Sarah Wydall o'r Ganolfan Astudio Heneiddio, Cam-drin ac Esgeulustod*

**Mae ymchwilwyr o Ganolfan Astudio Heneiddio, Cam-drin ac Esgeulustod yn ymchwilio i'r rhwystrau sy'n wynebu pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin yn y cartref rhag cael cyfiawnder.** Amcangyfrifir bod mwy na 500,000 o bobl hŷn yn cael eu cam-drin yn y Deyrnas Gyfunol bob blwyddyn.

Mewn ymgais i fynd i'r afael â cham-drin yr henoed fel ffurf o gam-drin yn y cartref, mae academyddion yn edrych ar nifer o ffactorau a all ddylanwadu ar eu dewis i ddefnyddio prosesau cyfiawnder troseddol neu sifil.

# Prawf llygaid yn yr anialwch



*Dr Stephen Pugh*

**Teithiodd Dr Stephen Pugh, gwyddonydd gofod yn yr Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg i anialwch Atacama yn Chile fel rhan o baratoadau ar gyfer taith ExoMars i'r blaned Mawrth yn 2018.**

Mae Dr Pugh yn gweithio ar Offeryn Camera Panoramig (PanCam) ExoMars a fydd yn 'llygaid' y gwyddonwyr ar y daith. Mae gan PanCam system cywiro lliw newydd i sicrhau fod y delweddau a anfonir yn ôl i'r ddaear yn adlewyrchiad cywir o'r lliwiau ar Mawrth.

# Darganfod cath fawr

**Fe ailddarganfyddodd Max Blake, myfyriwr PhD yn Aber, gath fawr mewn storfa yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Bryste.**



*Max Blake a ddarganfu'r sbesimen*

**Ar ôl dadansoddi sgerbwd a chroen yr anifail canfyddwyd mai lyncs ydoedd, a saethwyd yn Nyfnaint yn gynnar yn yr 1900au.** Felly dyma'r enghraifft gynharaf o gath fawr estron i grwydro'n rhydd yng nghefn gwlad y DG. Mae hyn wedi sefydlu y gallai cathod mawrion estron fod wedi byw yn wyllt yn y Deyrnas Gyfunol lawer yn gynharach na 1976 pryd y cyflwynwyd Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus pan gafodd nifer o anifeiliaid anwes anghyffredin eu gollwng yn rhydd.

Stori lawn **www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2013/04/title-129638-cy.html**

# Bioblitz Campws Penglais

**Y Gwynt a'r Glaw yn rhwystro'r Record Byd**



**Am 3.30 y bore Ddydd Sadwrn 11 Mai roedd y selogion olaf yn ymlusgo o'r Ddawns Fai.** Ar yr un pryd roedd grŵp o tua ugain o ystlum-garwyr ar fin dechrau ar eu dydd trwy grynhoi y tu allan i fynedfa Campws Penglais. Rhain oedd *avant-garde* Bioblitz. Ac i ffwrdd â nhw am ddwy awr gyda'u synwyryddion uwchsain, a dod yn ôl yn dal yn llawn brwdfrydedd er na chlywsant na siw na miw! Oedd, roedd y tywydd ar Gampws Penglais ar gyfer BioBlitz yn wirioneddol echrydus – yn oer, yn wlyb, gyda chesair hyd yn oed ar brydiau – ond doedd hynny ddim yn ddigon i atal dros 200 o bobl rhag dod atom drwy gydol y dydd. Bu arbenigwyr o bob math o grwpiau diddordeb lleol yn helpu i arwain sesiynau ar bopeth o ficrobau i fodau dynol.

Cynhaliwyd y digwyddiad dros 24 awr, o ganol nos nos Wener tan ganol nos nos Sadwrn 11 Mai, a llwyddodd llond llaw o selogion i aros yn effro drwy gydol y dydd. Wrth i'r llwch lonyddu o'r diwedd ar Bioblitz roedd yn amlwg fod ein cyfanswm o 2407 rhywogaeth yn ogleisiol o agos i guro'r record byd answyddogol ac yn brin o ddim ond 112 rhywogaeth. Ymhlith yr hyn a ganfyddwyd gennym oedd: 1062 microbau, 450 planhigion uwch, 14 mamal, 40 aderyn, 24 pryfyn, 2 ymlusgiad, 3 amffibiad a 7 pysgodyn, a'r uchafbwyntiau oedd record newydd i bryfed cop ac i bryfaid cantroed. I'r rhai sy'n cael eu denu'n fwy gan bethau delach fe welsom hefyd foch daear, cwningod a gwiwerod, er gwaetha'r tywydd dychrynllyd a'r Ddawns Fai. Yn olaf, wrth i'r digwyddiad ddod at ei derfyn, gwobrwywyd yr ystlum-garwyr pan welsant ddau rywogaeth, sef y Pipistrelle a'r Pipistrelle Soprano.

# Athrawon Ymgysylltu â'r Cyhoedd

*Cyfweliad gyda'r ddau Athro Ymgysylltu â'r Cyhoedd*

*Geiriau gan John Gilbey*

**Yn gynnar yn 2013, penododd Prifysgol Aberystwyth Athrawon Ymgysylltu â'r Cyhoedd am y tro cyntaf.** Mae Nigel Scollan o Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig wedi ymgymryd â swyddogaeth 'Athro Ymgysylltu â'r Cyhoedd gyda Gwyddoniaeth' ac mae Richard Marggraf Turley o'r Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol wedi ei benodi'n 'Athro Ymgysylltu â Dychymyg y Cyhoedd'. Bu John Gilbey yn sgwrsio â nhw am eu penodiadau, y swyddi a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

O edrych yn ôl, mae'n amlwg y gallwn fod wedi dewis gwell diwrnod i'n trafodaeth. Fe gwrddon ni yn amgylchfyd llawn caffîn IBERbach, ar drothwy 'Mynediad am Ddim' – sef prif achlysur cyhoeddus Prifysgol Aberystwyth am 2013. Wrth i ni eistedd o amgylch y bwrdd, sylweddolais fod Nigel a Richard wrthi'n brysur yn datrys rhai manylion terfynol, yn trefnu allweddi bysiau mini ac yn gwirio trefniadaeth y bore.

Holais Nigel ynglŷn â'r digwyddiad, a beth oedd yr ymresymu y tu ôl iddo. "Dyma'r cyntaf o'i fath yn y brifysgol ers llawer blwyddyn. Mae'n wir ein bod ni'n cael llawer o ddyddiau agored ond eu targed hwy i raddau helaeth yw recriwtio a marchnata ar gyfer ein cynlluniau gradd. Mae hyn yn ymwneud ag agor ein drysau er mwyn i'r cyhoedd gael deall beth rydyn ni'n ei wneud. Fe fyddwn ni yno i helpu a hyrwyddo'r digwyddiad drwyddo draw ac i helpu ein cydweithwyr yn yr adrannau academaidd a gwasanaeth – mae llawer ohonyn nhw'n cael eu cynrychioli."

Faint o'r elfennau amrywiol hyn fydd yn benodol i waith Aberystwyth? "Enghraifft bwysig iawn o hyn fydd yr hyn sy'n digwydd i lawr yn y bandstand ar y prom lle mae'r Adran Cyfrifiadureg a Labordy'r Traeth – ond yn yr un modd, os awn ni'r ffordd arall draw i gampws Gogerddan, bydd IBERS yn dangos yr adnodd ffenomeg planhigion cenedlaethol newydd – y cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Gyfunol – adnodd unigryw. Mae llawer o bobl yn gyrru heibio ac yn gweld y datblygiadau newydd - tŷ gwydr newydd arall eto - ac yn meddwl 'beth yw diben hyn i gyd?' Rydyn ni'n gwybod bod llawer o bobl eisiau gwybod beth sy'n digwydd, ac mae 'na stori gwirioneddol gyffrous yno – un y bydd pobl, dybiwn i, yn rhyfeddu ati."

Mae'n amlwg bod mwy i'r swyddogaeth na digwyddiadau fel Mynediad am Ddim, felly gofynnais i Richard os oes diffiniad o ymgysylltu â'r cyhoedd. I mi, roedd yn ymddangos yn derm hynod o eang - ac roeddwn i'n meddwl tybed a oedd hyn yn fwriadol.

"Mae'r diffiniad mae'r mwyafrif o brifysgolion yn ei arddel y dyddiau hyn yn bur agos at ddiffiniad y Ganolfan Cyd-drefnu Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd (NCCPE), sy'n ei ddisgrifio fel 'proses ddwy-ffordd gyda manteision i'r naill ochr a'r llall'. Bu rhyw gymaint o newid pwyslais sylfaenol oddi wrth



*Yr Athrawon Nigel Scollan (i'r chwith) a Richard Marggraf Turley*

'drosglwyddo gwybodaeth', a oedd yn tueddu i fod i un cyfeiriad - trosglwyddo gwybodaeth ganolog tuag allan. Y dyddiau hyn mae'r pwyslais yn fwy ar gyd-gynhyrchu, deialog a chydberchnogaeth."

Gyda dau Athro Ymgysylltu â'r Cyhoedd, roeddwn i'n meddwl tybed a fyddai'r ddau ohonynt yn cystadlu am yr un diriogaeth. A yw swyddogaethau Athro Ymgysylltu â'r Cyhoedd gyda Gwyddoniaeth ac Athro Ymgysylltu a Dychymyg y Cyhoedd yn ategu'i gilydd? Mae Richard yn gwbl argyhoeddedig eu bod. "Dyna un o'r pethau cyffrous: maen nhw'n ymblethu â'i gilydd."

Roedd Nigel yr un mor gadarnhaol, "Mae'r synergedd wedi bod yn wirioneddol hynod – a dyna'r elfen bwysig yn y swyddi cyfunol, gweld sut y gellir dod â'r ddau – nid pegynau ar wahân, ond dau wahaniaeth arwyddocaol - at ei gilydd i gael canlyniad sy'n creu mwy o effaith."

O ran Aberystwyth ei hun, beth roddodd gychwyn i'r broses? Beth oedd y wreichionen fyw a arweiniodd at benodi dau Athro Ymgysylltu â'r Cyhoedd? Roedd Richard yn amheuthun o blaen a diamwys. "Fe allech chi ddweud ein bod ni dipyn ar ei hôl hi yn nhermau strategaeth gwbl gydlynol a dyna'r dasg sydd wedi ei gosod i Nigel a finnau: cynllunio strategaeth a fydd yn cysylltu'n ddeinamig â Chynllun Strategol y Brifysgol. Mae rhai prifysgolion wedi sefydlu canolfannau ac unedau Ymgysylltu â'r Cyhoedd, mewn amrywiol ffyrdd – ond nid oes unrhyw un ateb sy'n addas i bawb. Fodd bynnag, rydyn ni nawr yn gallu gweld beth mae sefydliadau eraill wedi bod yn ei wneud ac yn edrych am ffyrdd i wahaniaethu – hynny yw, beth sy'n gwneud ymgysylltu o ganolfan yng nghanolbarth Cymru yn unigryw? Mae'n gyfle gwych i ni."

Roedd Nigel yn cytuno. "Mae llawer o brifysgolion yn yr un sefyllfa, ac mae hyn hefyd yn esblygiad o 'gael effaith' i 'ymgysylltu â'r cyhoedd'. Os meddyliwch chi am y ffordd y mae prifysgolion yn cael eu hasesu mewn bywyd, sef drwy'r fframwaith rhagoriaeth ymchwil (REF), yna, yr agenda mawr fu cael effaith. Mae'r metrigau gwirioneddol sy'n ymwneud ag ymgysylltu am fod yn bwysig iawn i REF 2020. Mae'r prifysgolion wrthi'n prysur addasu eu hunain i fod yn abl i baratoi eu strategaeth ac i adeiladu ar yr hyn y maent yn ei wneud ym maes eang ymgysylltu â'r cyhoedd."

Wrth i'r drafodaeth fynd yn fwyfwy cymhleth, roedd Nigel yn awyddus i dynnu sylw at y ffaith fod diffiniadau'n bwysig fan hyn, fel mewn llawer agwedd ar fywyd prifysgol. "Beth yw 'cyhoeddus'? Oherwydd mae'n ehangach na threfnu digwyddiadau i siarad a gwrando ar bobl am ddarn arbennig o ymchwil. Ydy, mae'n cynnwys hynny – ond mae hefyd yn cyrraedd grwpiau eraill gan gynnwys yr holl grŵp busnes masnachol, gan gynnwys y llywodraeth ei hunan ac ymgysylltu â pholisi, mae'n cynnwys gweithio gydag awdurdodau iechyd ac amryfal gyrff anllywodraethol ac yn y blaen."

"Felly mae'n llawer mwy eang na chynnal digwyddiad fel un yfory - dim ond un agwedd ar ymgysylltu yw hynny. Mewn gwirionedd mae pedwar neu bump o feysydd o bwys yn cael sylw gennym ar amryfal lefelau yn y brifysgol - ond dydyn ni ddim yn eu pecynnu yn y modd hwnnw a'u cyflwyno fel 'ein strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd'. Defnyddir y gair 'cyhoedd' i ddiffinio amryw gynulleidfaoedd gwahanol y dylen ni fod yn ymgysylltu â nhw, yn gwrando arnynt ac yn cydweithio â hwy."

Dyma thema y cydiodd Richard ynddi. "Mae'n ymwneud â sicrhau enillion - yr ymadrodd marwaidd yna! - i randdeiliaid a chymwynaswyr. I raddau helaeth rydyn ni'n gyrff a gyllidir yn gyhoeddus ac mae - nid y cyfan, ond cyfran helaeth - o'r ymchwil a wneir yma, a llawer o'r amser i weithio arno, yn dibynnu yn y pen draw ar arian cyhoeddus. Felly mae'n ymwneud â dosbarthu buddiannau ein hymchwil yn briodol, ar yr un pryd â manteisio ar arbenigedd ein cyhoedd amrywiol wrth i ni gyflawni'r ymchwil hwnnw. Ffordd ddefnyddiol arall o feddwl am ymgysylltu yw edrych ar y ffordd y mae athrawon ymgysylltu yn gweithio'n agos â Chyfathrebu, Materion Cyhoeddus a Digwyddiadau ar y naill law a'r Swyddfa Ymchwil ar y llaw arall - credaf fod hynny'n pwysleisio'r natur fwyfwy cyhoeddus sydd i ymchwil mewn sefydliad modern."

Roedd hi'n amlwg bod hwn yn faes cyfarwydd iawn i Nigel. "Fel y gŵyr Richard, mae masnacheiddio ymchwil a menter yn hynod o bwysig i'm sefyllfa i yn y brifysgol. Hynny yw ymgysylltu â busnes, i egluro iddynt beth rydw i'n ei wneud, beth mae fy nghydweithwyr yn ei wneud ymhob rhan o'r brifysgol - yn ein hymchwil, yn ein dysgu a'n haddysgu, yn ein cyfnewid gwybodaeth ac i rannu'r hyn rydyn ni'n ei wneud gyda nhw. Oherwydd os na fyddwn ni'n rhannu, fyddan hwythau ddim yn deall - felly mae'n rhaid i ni greu perthynas er mwyn rhoi gwybodaeth iddynt, a chreu o'r berthynas honno gydberthynas lle byddwn ni'n creu partneriaeth."

Wrth i law mân cynnes Aberystwyth ddechrau syrthio ar y teras y tu allan i'r caffi, holais beth oedd wedi eu symbylu i gynnig am y swyddi.


Doedd dim amheuaeth gan Richard. "Fe alla i ateb y cwestiwn yna'n rhwydd iawn, gan i'r agwedd 'dychymyg y cyhoedd' apelio'n syth ataf i fel Rhamantydd. Roedd y beirdd Rhamantaidd yn damcaniaethu dychymyg yn nhermau cenhadaeth gymdeithasol. Yn achos beirdd fel Keats a Coleridge roedd yn ofod y gellid ei lenwi'n wleidyddol. Cefais fy nenu at y swyddogaeth newydd hefyd oherwydd, gan droi at y Rhamantwyr unwaith eto, y dychymyg yw'r man lle rydyn ni'n creu, ac mae'n bosibl y gallwn newid, ein perthynas â'r byd. Roedd yn ymddangos i mi bod llawer o'r hyn roeddwn i'n ei ddysgu yn ymwneud yn union â hyn, a nawr dyma gyfle i'w roi ar waith."

Disgrifiodd Nigel gymhellion cyffelyb. "Teimlaf mewn llawer ffordd fod yr hyn rydw i'n ei wneud yn fy holl waith yn ymwneud ag ymgysylltu. Yn fy ymchwil fy hun, yn yr hyn rydw i'n ei ddysgu, mae'n ymwneud i raddau helaeth â rhoi'r hyn yw ymgysylltu ar waith. Rydw i'n angerddol iawn ynglŷn â chreu partneriaethau, ac ymgysylltu â phobl - boed hynny'n gyhoeddus neu'n breifat - oherwydd dim ond drwy'r ymgysylltu a'r ddealltwriaeth a'r ymddiried y gallwn ni ei adeiladu y gallwn ni helpu pobl i ddeall pwysigrwydd y swyddogaeth bwysig sydd gan brifysgolion i'w chwarae mewn cymdeithas. Felly, gallu cymryd yr ethos hwnnw, ac edrych ledled y brifysgol, a chynorthwyo'r brifysgol i ddatblygu hwnnw fel strategaeth i ddyrchafu ymgysylltu - roedd hynny'n fy nenu'n arbennig."

Dau gefndir academaidd, dwy set o ganfyddiadau ac un weledigaeth a strategaeth esblygol. Bydd gweld beth fydd yn digwydd nesaf yn hynod o ddiddorol.

**Awdur a ffotograffydd sy'n byw ac yn gweithio yn Aberystwyth yw John Gilbey. Mae ei waith wedi ymddangos yn y cylchgrawn gwyddonol *Nature*, ym mhapur newydd y *Guardian*, y *New Scientist*, y *Times Herald-Tribune*, y *Times Higher Education* a nifer o gyhoeddiadau eraill.**





Syr Ian McKellen a William Gaunt yng nghynhyrchiad Trevor Nunn o King Lear (2008)

Llun: Manuel Harlan © Royal Shakespeare Company

# 'Mawr Yw'r Prinder':

## *Newyn yn nyddiau Shakespeare*

*Geiriau gan Dr Jayne Elisabeth Archer, yr Athro Richard Marggraf Turley a'r Athro Howard Thomas*

> *The gods know I speak this in hunger for bread, not in thirst for revenge.*
>
> (Coriolanus, 1.1)

**Roedd William Shakespeare yn byw mewn dyddiau o newyn.** Cyfnod o brinder oedd Oes Aur y Frenhines Elizabeth I a blynyddoedd cynnar ei holynydd James Stuart. Cafwyd cyfres o gynaeafau aflwyddiannus a thrychinebau naturiol ac felly roedd grawn, prif gynhwysyn dau o'r bwydydd sylfaenol, sef bara a chwrw, yn brin. Ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg, cododd prisiau bwyd i'r entrychion ledled Ewrop. Ni allai'r rhai a oedd yn hau, yn aredig, yn medi ac yn dyrnu – arwyr anhysbys hanes, y gweithwyr amaethyddol – fforddio'r bwyd yr oeddent yn ei gynhyrchu. Gwelwyd *genre* llenyddol newydd a digon annymunol yn dod i'r amlwg: y 'pamffled newyn'. Mewn manylder anghynnes, byddai awduron y pamffledi hyn yn disgrifio pa mor bell yr oedd y rhai a oedd yn newynu'n barod i fynd i roi bwyd yn eu boliau gweigion. Yn ôl un pamffled a gyhoeddwyd yn Llundain yn 1590, aeth trigolion Saint Denis, ym Mharis, mor bell â bwyta bara wedi'i wneud o bys, ceirch, mes, blawd lli, ac, yn y pen draw, esgyrn y meirw wedi'u malu. Ceisiodd Elizabeth a James ffrwyno'r argyfwng â chyfres o ddatganiadau er mwyn cadw llygad barcud ar bris, purdeb ac amodau gwerthu'r prif fwydydd megis grawn. Byddai'r rhai hynny a geid yn euog o dorri'r rheolau hyn ac o gadw bwydydd at eu defnydd eu hunain neu i'w gwerthu ar y 'farchnad ddu' am grocbris yn cael eu cosbi'n llym.

Beth oedd ymateb Shakespeare i'r dyddiau hyn o newyn? O edrych yn ôl o safbwynt yr unfed ganrif ar hugain, hawdd fyddai credu nad oedd y pryderon hyn yn cyffwrdd ag awdur ffantasïau dihangol megis *A Midsummer Night's Dream* a dathliadau gwladgarol megis *Henry V*, a'i fod yn ceisio cynnig i'w gynulleidfaoedd ddihangfa dros dro oddi wrth galedi bywyd bob dydd. Ond mae'n debyg y byddai dramodwyr Lloegr fodern gynnar hefyd yn byw mewn tlodi. Treuliodd sawl un o gyd-ddramodwyr mwyaf dawnus Shakespeare gyfnodau hir mewn carchardai dyledwyr. Cyn cyflwyno'r deddfau hawlfraint cyntaf yn 1662, nid oedd awdur drama a gâi ei pherfformio ar lwyfan cyhoeddus yn berchen ar ei ddrama ei hun (a chyn 1660, dynion oedd y dramodwyr hyn bob amser): byddai'n ei gwerthu am daliad untro i berchennog cwmni drama neu theatr. Gallai'r prynwr wneud fel a fynnai â'r testun – golygu a llwyfannu'r ddrama fel y mynnai, comisiynu rhywun i'w hailysgrifennu, newid y diweddglo ac efallai, os oedd y ddrama'n boblogaidd, ei hargraffu ar ffurf bedwarplyg rad. Byddai'r theatrau'n cau dros fisoedd yr haf rhag ofn y pla, a dramodwyr Lloegr fodern gynnar yn debyg o fod yr un mor newynog ag aelodau tlotaf eu cynulleidfaoedd, y sefyllwyr: heb wybod o ble y deuai ei gomisiwn llenyddol nesaf ni fyddai'r dramodydd chwaith yn gwybod o ble y deuai ei bryd bwyd nesaf.

Doedd neb yn Lloegr yn oes Elisabethaidd a'r Jacobeaidd yn gwneud eu ffortiwn yn ysgrifennu dramâu ar gyfer y llwyfan cyhoeddus – neb, hynny yw, ond Shakespeare. Bu modd iddo ymddeol i Stratford-upon-Avon yn ei bedwardegau hwyr yn un o berchnogion eiddo mwyaf ei dref enedigol. Ymhlith ei asedau, sydd i'w gweld mewn dogfennau cyfreithiol a gedwir yn y Shakespeare Birthplace Trust, Stratford-upon-Avon, a'r Archifdy Cenedlaethol, Kew, roedd ganddo dai yn y dref, dros 120 erw o dir âr, a buddiannau yn yr elw blynyddol a geid o dir pori a thir cynhyrchu bwyd.

Sut wnaeth Shakespeare ei arian? Mae dwy ran i'r ateb, a bydd yn rhaid herio ein syniadau am Shakespeare yr athrylith tragwyddol ac ailystyried yr hyn yr ydym yn meddwl ein bod yn ei wybod am awduraeth. Yn gyntaf, manteisiodd Shakespeare ar y cyfleoedd ariannol a oedd wrth law drwy brynu cyfran yn y cwmnïau drama, ac yn ddiweddarach, y theatr, yr oedd yn ysgrifennu ar eu cyfer; yn ail, defnyddiodd yr elw hwnnw i hapfuddsoddi mewn newyn, i gronni bwyd ac i brynu hawliau dros dir cynhyrchu bwyd. Dros gyfnod o bymtheg mlynedd, yn ystod y prinder, prynodd a storiodd rawn, brag a haidd i'w gwerthu am grocbris i'w gymdogion ac i fasnachwyr lleol. Defnyddiodd yr elw i brynu tir, ac yn 1602 roedd ganddo nid yn unig frics a mortar (neu, yn hytrach, bren a gwellt, plethwaith a chlai), ond ugain erw o dir pori a 107 erw o dir addas i dyfu cnydau âr. Yn ogystal â hynny, â golwg at y dyfodol, prynodd ddegymau ar gynnyrch lleol, gan gynnwys 'ŷd, grawn, glaswellt a gwair', ac felly gallai elwa ar lafur pobl eraill.

Mae newyn, yn ôl un o ddywediadau poblogaidd y Dadeni, yn hollysol; mae'n amhosib ei ddiwallu. Ysgrifennai Shakespeare mewn cyfnod o brinder, a gofalodd amdano'i hun a'i deulu drwy weld ei gyfle, yn ogystal â'i gyfrifoldebau, yn sgil y prinder bwyd hwn. Gwerthai rawn i'r newynog yn Swydd Warwick – neu, fwy na thebyg, i'r sychedig, gan fod llawer o fragwyr yn Stratford-upon-Avon ar y pryd – a bodlonai chwant y Llundeinwyr am ddramâu am y prinder, gan ymateb iddo fel pwnc llosg gwleidyddol yr oes ond hefyd o safbwynt ei effaith ar y corff a'r enaid. Ond sut oedd mynd ati i gyfleu gwacter y newyn hwnnw ar lwyfan? Newyn yw un o brif batrymau iaith a delweddau dramâu Shakespeare, a hynny'n adleisio boliau gweigion y sefyllwyr. Mae newyn yn arteithio ac yn ystumio iaith, yn gwyrdroi geiriau, yn cymylu'r ystyr. Ac yntau newydd ei ladd, dywed Hamlet am Polonius ei fod:

> *At supper … Not where he eats, but where he is eaten. A certain convocation of politic worms are e'en at him. Your worm is your only emperor for diet. We fat all creatures else to fat us, and we fat ourselves for maggots. Your fat king and your lean beggar is but variable service, two dishes, but to one table. That's the end.*

*(Hamlet, 4.3)*

Ydy, mae Polonius wedi marw, ond yn ôl rhesymeg wyrdroëdig Hamlet, mae'r cyn gynghorydd brenhinol yn bwyta ac yn cael ei fwyta – mae Polonius, a ninnau, yn fwyd i'w brosesu ac i'w ailddosbarthu. I Hamlet, mae newyn a bwydo'n gwneud pawb yn gyfartal: mae mwydyn yn bwyta corff y brenin a chorff y cardotyn, a'r brenin a'r cardotyn yn un corff y tu mewn i'r mwydyn. Trodd brenin yn gardotyn: mae'r gadwyn fwyd yn gyfrwng i Hamlet fyfyrio am weddnewidiad cymdeithasol na fyddai wedi bod yn bosib yn y byd go iawn.

Yn *King Lear*, a ysgrifennwyd ar ôl i James ddod yn frenin ac ynghanol yr ymdrechion i uno Coron yr Alban â Choron Cymru a Lloegr, mae'r brenin yn gwneud rhywbeth sydd y tu hwnt i bob amgyffred, ac yn troi'n gardotyn. Caiff Lear ei ddiarddel o lysoedd ei ddwy ferch hynaf, Goneril a Regan, oherwydd dywedant na allant fwydo ei ddilynwyr ac na all eu tiroedd gynnal helfa ddyddiol eu tad. 'Bastard' y ddrama, Edmund, chwedl yntau, sy'n cydnabod bod hwn yn fyd llawn 'prinder' ac yn cael trefn ar y blysiau gwyrdroëdig a'r grymoedd naturiol annaturiol a achosir gan gamweinyddu Lear ar y tir a'i adnoddau. Amlygir y camweinyddu hwnnw a'i effaith ar y cyflenwad bwyd tua diwedd y ddrama yn y darlun grymus o Lear mewn cae o ŷd, ac ar ei ben, yn lle'r goron frenhinol, goron o efrau a chwyn (*King Lear*, 4.4). Mae Lear wedi methu â chadw trefn ar ei deyrnas a bu rhyfel cartref ac ymosodiadau o'r tu allan. Mae'r cynhaeaf heb ei fedi ac yn chwyn i gyd, gan gynnwys efrau, y mae eu priodweddau seicowenwynig, o fynd i mewn i'r gadwyn fwyd, yn peri dallineb, syrthni a gwallgofrwydd. Newynu fydd hanes pobl teyrnas Lear, a'r rhai hynny a fydd yn llwyddo i grafu rhywbeth i'w fwyta, fel eu cyn frenin, yn gwallgofi.

Wrth wraidd darlun Shakespeare o'r prinder hwn, y rhesymau drosto a'r hyn y gellid ei wneud i'w ddatrys, mae cydnabyddiaeth y gall prinder bwyd danio anghydffurfiaeth boblogaidd a mympwyon chwyldroadol, lled weriniaethol. Gan amlaf, awgryma dramâu megis *Hamlet, King Lear* a *Coriolanus* y gall llywodraethu gofalus liniaru effeithiau gwaethaf newyn. Yn *Coriolanus*, a ysgrifennwyd ynghanol terfysgoedd bwyd canolbarth Lloegr yn 1607 a 1608, pan oedd eiddo Shakespeare yntau dan fygythiad, y ceir dadansoddiad mwyaf cymhleth a soffistigedig Shakespeare o wleidyddiaeth diogelu cyflenwadau bwyd. Yn Rhufain *Coriolanus*, 'Mawr yw'r prinder', ac mae rhyfel cartref (ynghyd ag ymosodiadau o'r tu allan) ar y gorwel wrth i'r werin newynog brotestio yn erbyn y rhai sydd mewn grym, yr uchelwyr, sydd, yn nhyb y werin, yn cadw grawn iddyn nhw eu hunain. Mae'r seneddwyr yn rhoi'r bai ar y 'duwiau' am y newyn sy'n rheibio'r werin bobl yn *Coriolanus*, ond, fel y dywed y dinasyddion, dyna fyddai'r seneddwyr yn ei ddweud, onid e?

Mae cyflenwadau bwyd ansicr yn fwrn ar ein byd ninnau hefyd. Yn rhan annatod o'r anghydfod rhwng yr uchelwyr a'r dorf yn *Coriolanus* mae materion allweddol yn ymwneud â pholisi bwyd sydd yr un mor ddybryd yn yr unfed ganrif ar hugain ag yr oeddent i gyfoedion Shakespeare. Sut mae bwydo poblogaeth sy'n tyfu pan fo'r adnoddau'n gyfyngedig a'r cynaeafau'n ansicr? A ddylid rheoli pris a dosbarthiad bwyd drwy ddeddfwriaeth, neu a ddylid gadael hynny i rymoedd y farchnad? A ddylai llywodraeth storio bwyd, gan wybod y bydd rhai'n newynu'n gynt er mwyn i lai newynu yn nes ymlaen? A daw'r cwestiwn olaf hwn â ni'n ôl at Shakespeare ei hun, y dyn busnes y tu ôl i'r dramâu, a oedd, drwy storio bwyd yn ystod cyfnod o brinder, yn torri'r gyfraith. Os gwelwn fai arno am wneud hynny, rhaid i ni ofyn oni fydden ninnau, petaen ni a'n teuluoedd yn newynu, yn gwneud yr un modd.



*Portread o William Shakespeare, olew ar gynfas, 1610. Oriel Bortreadau Genedlaethol.*

**Jayne Elisabeth Archer a Richard Marggraf Turley (Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol) a Howard Thomas (Athro Emeritws yn IBERS) yw cyd-awduron nifer o erthyglau ar Shakespeare a diogelu cyflenwadau bwyd, gan gynnwys *The Autumn King: Remembering the Land in King Lear*, a gyhoeddwyd yn rhifyn gaeaf 2012 o *Shakespeare Quarterly,* ac *A Tragedy of Idle Weeds,* a gyhoeddwyd fel sylwebaeth yn y *Times Literary Supplement* ym mis Chwefror 2010.**

# Llygad am lun


*Wrth gyfarfod â Francis Prior am y tro cyntaf, mae i'w weld yn ŵr ifanc cyfeillgar, tawel, ond wrth fwrw golwg drwy ei bortffolio o ddelweddau arlein fe ddaw i'r amlwg yn fuan iawn fod ganddo angerdd ynghyd â gwir dalent am ddarganfod prydferthwch annisgwyl ym myd bychan bach y pryfaid sy'n ein hamgylchynu ni.*



**Ar hyn o bryd mae Francis ar ail flwyddyn cwrs BSc Bioleg yn Aber, ond mae wedi dod o hyd i'r amser i adeiladu ei git ffotograffiaeth facro ei hun (ar gost is o lawer na systemau masnachol) a gyda hwn mae'n datgelu manylion a phrydferthwch coeth byd y pryfaid nad yw ein llygaid dynol yn ei weld o'n cwmpas o ddydd i ddydd.**

Bu gan Francis ddiddordeb mewn anifeiliaid erioed, ac ar ôl dod i wybod am ffotograffiaeth Thomas Shahan, yn 16 oed, sicrhaodd swydd ran amser a phrynu ei gamera cyntaf. Roedd gwaith Shahan wedi gwneud argraff fawr arno, ac aeth ati i efelychu ei ddulliau, ond yn fuan dechreuodd ddatblygu ei dechnegau ei hun. Gydag ychydig o gymorth gan gyfaill ymarferol ("mae e wastad wedi bod yn un da am adeiladu pethe"), rhywfaint o ymchwil ar y we a phrynu ambell i declyn, adeiladodd Francis ei rig ffotograffiaeth facro ei hun i dynnu lluniau pryfaid am tua £20 (byddai offer masnachol cyfatebol wedi costio tua £500), a dechreuodd dynnu lluniau'r anifeiliaid sy'n ei gyfareddu.

Mae'n creu cyfres o ddelweddau ac yn eu gosod un ar ben y llall, gan ddefnyddio pecyn meddalwedd i'w mireinio, ond does dim lliw'n cael ei ychwanegu; mae ymddangosiad y pryfyn yn aros yn union fel y mae.







"Dyw pobl ddim yn gwerthfawrogi prydferthwch pryfaid am nad ydyn nhw'n eu gweld nhw'n ddigon manwl..."




*Francis yn derbyn ei ddyfarndal gan Bill Oddie*

"Mae adeiladu fy nghit fy hun a phentyrru'r delweddau fel paentio llun - rwyf i'n cael boddhad o weld y ddelwedd yn adeiladu. Y peth gorau i fi yw dangos y pryfaid fel y maen nhw. Mae pryfaid cop yn rhyfeddol, yn enwedig eu llygaid."

Un o'i hoff bynciau yw pryfaid cop sy'n neidio, a gyda deuddeg rhywogaeth yn y DG, maen nhw'n gymharol gyffredin.

"Os ydych chi'n eu dal nhw, maen nhw'n edrych i fyny arnoch chi - mae ganddyn nhw allu annaearol i wneud hyn - maen nhw'n gallu gweld 360 gradd o'u cwmpas, ond maen nhw bob amser yn troi i edrych arnoch chi. Mae gan bryfaid cop wyth llygad, pob un wedi'i strwythuro'n wahanol o ran safle ac ongl, gan ddibynnu ar y rhywogaeth."

Delwedd o lygaid un o'r pryfaid cop hyn yn neidio ddaeth â chynulleidfa ehangach i waith Francis, pan enillodd wobr Ffotograffydd Ifanc y Flwyddyn 2012 yr RSPCA am ddelwedd â'r teitl *Through the Looking Glass*. Mae'r llun, sy'n debyg iawn i waith celf, yn dangos llygaid porffor gwydrog y pryf copyn yn syllu ar y gwyliwr yn hypnotig.


"Mae rhai o'r lliwiau ar y pryfaid yn syfrdanol - yn enwedig pryfaid llwyd benywaidd a phryfaid brigyn. Dyw pobl ddim yn gwerthfawrogi prydferthwch pryfaid am nad ydyn nhw'n eu gweld nhw'n ddigon manwl."

Cymerodd yn agos i ddwy flynedd i ddal ei ddelwedd gyntaf o bryf llwyd benywaidd, ond er gwaethaf cael ei frathu o dro i dro, y pryf llwyd yw un o'i hoff destunau oherwydd lliwiau rhyfeddol y llygaid  cyfansawdd. Mae gwyfynod hefyd yn uchel ar restr Francis o hoff destunau, nid yn unig am eu lliwiau trawiadol ond hefyd eu gallu i eistedd yn llonydd, gyda chymorth rhodd fach o fêl o dro i dro!

Er gwaethaf ennill cystadleuaeth Ffotograffydd Ifanc RSPCA a'r sylw ddilynodd hynny yn y cyfryngau, gan gynnwys cyfweliadau gyda'r *Daily Mail* a'r *Liverpool Post* a chanmoliaeth gan y cyflwynydd rhaglenni teledu bywyd gwyllt Chris Packham, dyw Francis ddim yn chwilio am arian mawr. "Dwyf i ddim yn dangos fy ngwaith, rwyf i'n ei wneud o ran difyrrwch, ac er mwyn dangos i bobl pa mor brydferth yw'r pryfaid." Mae hefyd yn awyddus i rannu gwybodaeth am sut y mae'n adeiladu ei systemau macro ar gyllideb dynn gydag unrhyw un sydd â diddordeb.

Mae llygad craff Francis yn estyn yn ehangach na'r manylion bach; mae hefyd yn ffotograffydd tirluniau talentog ac ymhlith ei luniau o greaduriaid hudolus ceir rhai delweddau bendigedig o Aber gyda'r nos a dociau Lerpwl. Gallwch edmygu ei waith ar Flickr: **www.flickr.com/photos/sequentialmacro**

# TYWOD AMSER



# Siwrnai'r Gymdeithas Teithiau Ymchwil ar draws y Sahara

*Geiriau gan Barrie Dennett*



*Paratoi ymarfer yn Ynyslas*









## *Beth sy'n creu cyfeillgarwch?*

**A yw'n deillio o fod yn 'eneidiau hoff cytûn', o gyfarfod ar hap a sylweddoli fod y naill a'r llall wedi mwynhau cwmni ei gilydd, neu a yw cyfeillgarwch yn cael ei greu mewn gwres a chaledi?** Efallai ei fod yn gyfuniad o bob un o'r rhain, a phan fod y gymysgedd yn iawn, gall y cyfeillgarwch hwnnw oroesi'r blynyddoedd, ychydig o esgeulustra diniwed a phellter daearyddol.

Enghraifft dda o hyn yw grŵp o wyth o fyfyrwyr Aber a ddaeth yn gyfeillion yn wreiddiol ar antur Cymdeithas Fforio Aberystwyth ar draws y Sahara yn 1966. Ymron i hanner canrif yn ddiweddarach, cyfarfu'r saith o'r grŵp gwreiddiol sy'n dal yn fyw ar y Prom yn Aber. Nid oedd pob un wedi cadw cyswllt ac roedd pob un ohonynt wedi mynd i yrfaoedd a'u dygodd dros y byd, ond llithrodd pob un yn ôl yn gyflym i'r gwmnïaeth hawdd a oedd wedi creu tîm a lwyddodd i oresgyn eithafion hinsawdd, tirwedd, biwrocratiaeth, methiannau mecanyddol a gwrthdaro i wneud y daith ar draws y Sahara i Nigeria ac yn ôl *via* Timbuktu.

O ystyried y ffasiwn diweddaraf i gymryd blwyddyn allan, sy'n cael ei hwylsuo gan y posibilrwydd o deithio mewn awyren i unrhyw le bron, cardiau credyd, ffonau symudol a'r rhyngrwyd, mae'n hawdd anghofio nad oedd un o'r pethau hyn i'w cael hanner can mlynedd yn ôl. Bu'n rhaid i'r tîm godi digon o arian i fynd gyda nhw ac yna'i gario, yn arian parod, i'w gyfnewid i'r arian lleol yn ôl yr angen. Cafodd cyflenwadau eu prynu, eu benthyg neu eu rhoi a'u storio yn ystafell y Gymdeithas ar lawr ucha'r Hen Goleg cyn eu rhoi yn y cerbydau. Dywedodd un aelod o'r tîm wrth ei fam "wrth gwrs y bydd popeth yn iawn; mae na fws yn teithio bob dydd ar draws y Sahara..."

Yn y diwedd bu popeth yn iawn, ond mae'r profiadau a rannwyd ganddynt o galedi, antur a gorfoledd wedi creu cyfeillgarwch gwirioneddol. Hon yw eu stori.



*O'r chwith i'r dde: Bill Dean, Dai Pugh, Barrie Dennett, Dick Davies, Richie Baker, Bob Meddins, Bob Gardener*

**Rai misoedd yn ôl, a minnau'n clirio'r atig, fe ddes i o hyd i hen ddyddiadur yn disgrifio taith gan grŵp o fyfyrwyr diniwed ar draws y Sahara, yr anialwch mwyaf digroeso yn y byd.** Mae'r dyddiadur yn disgrifio siwrnai anhygoel dros 12,000 o filltiroedd yn haf 1966, bron i 50 mlynedd yn ôl, gan wyth myfyriwr o Aberystwyth.

Roedd yn stori anhygoel. Ar ôl cyrraedd yr anialwch, sylweddolodd y grŵp nad oeddent yn barod ar gyfer y gwres a oedd ar adegau ymhell dros 50 gradd canradd – yn ddigon poeth i ffrio wyau ar fetel. A doedden nhw ddim yn barod chwaith ar gyfer yr effaith ar eu cerbydau – trŷc a arferai fod yn berchen i'r fyddin a Land Rover â phellter hir rhwng yr echelydd: doedd yr un o'r ddau'n gallu ymdopi yn y gwres, ac anweddai'r tanwydd cyn cyrraedd y carbwraduron, oedd yn ei gwneud yn amhosib teithio.

Yn y dyddiadur ceir disgrifiad o'r daith ddymunol o Aber i lawr drwy Ewrop ac i Gibraltar, ac yna dros y môr i Oran yn Algeria cyn paratoi i fentro i'r anialwch. Mae sawl llyfr wedi'i ysgrifennu am groesi'r Sahara, rhai'n disgrifio'r harddwch a'r gwacter, ac eraill fel *Trek* gan Paul Stewart yn ein hatgoffa o ddifrifoldeb croesi'r anialwch, yn arbennig y Sahara, a'r hyn a all fynd o'i le, a hynny'n gallu bod yn angheuol. Dim ond y llyfrau â diweddglo da yr oedd y tîm wedi'u darllen; roedden nhw'n ifanc ac yn meddwl y gallen nhw ymdopi â phopeth.

Wrth deithio tua'r de i ganol yr anialwch mae'r dyddiadur yn sôn am flinder gwres yn mynd yn fwyfwy difrifol ac yn achosi rhithweledigaethau a dysentri cronig. Erbyn cyrraedd Agades, tref fasnach hynafol yn anialwch Niger ar ymyl ddeheuol y Sahara, a phen eu taith, roedd golwg druenus arnynt. Ar ôl gorffwys am ychydig wythnosau a gwneud rhai arbrofion gwyddonol dyma ddechrau ar eu taith yn ôl drwy'r anialwch. Aethant ffordd wahanol, drwy Mali a'r enwog Timbuktu. Roedd yn anodd gyrru drwy'r mwd, a'r afonydd yn orlawn ar ymyl ddeheuol y Sahara a milltiroedd ar filltiroedd o dywod yn lluwchio ymhellach i'r gogledd. Doedd dim modd gweld dim yn y stormydd tywod ffyrnig ac roedd yn hynod anodd teithio a dod o hyd i'r ffordd. Ddwy ran o dair drwy'r siwrnai yn ôl drwy'r anialwch, wedi mynd drwy safle profi niwclear tanddaearol Ffrengig, daw'r dyddiadur i ben. Does dim negeseuon olaf i anwyliaid, dim geiriau olaf. Ar 4 Medi 1966 daw i ben â'r geiriau "gwersylla mewn gwyntoedd cryfion iawn, mae'n annioddefol o boeth, rydym i gyd wedi ymlâdd, mae echel y Land Rover wedi plygu..."

Hawdd oedd datrys y dirgelwch. Fi oedd awdur y dyddiadur, ac er bod y cof yn pylu ar ôl yr holl flynyddoedd, mae'n siŵr gennyf fod popeth wedi mynd yn fater o arfer, roedden ni wedi hen arfer â'r anialwch, neu efallai i mi golli fy mhin ysgrifennu olaf!










Cafodd aelodau taith Prifysgol Cymru ar draws y Sahara yn 1966 aduniad yn ddiweddar yn Aberystwyth. Trist yw cofnodi y bu farw un o'r tîm, Dave Thompson (Daearyddiaeth 1967), ychydig flynyddoedd yn ôl, ond cyfarfu'r saith sy'n weddill, pawb bellach dros eu 65, yn y Belle Vue ar Rodfa'r Môr.

Roedd Bill Dean (BSc Daeareg 1965) wedi llwyddo i roi hen ddeunydd fideo at ei gilydd a chasgliad o'r ffotograffau a dynnwyd ar y daith. Roedd yr atgofion yn llifo, fel yr ymwelydd hynod a ddaeth ar gefn ei gamel i'n gwersyll un bore pan oeddem filltiroedd lawer o'r dŵr agosaf. Atgof cryf arall oedd hwnnw am hela gafrewig gyda chriw o filwyr Algeria. Ar ôl hela'r anifail am awr ar draws yr anialwch, a'r Land Rover yn mynd yn arswydus o gyflym, saethwyd yr anifail hardd yn farw. Aeth Dick Davies (Swoleg 1967) ati i flingo'r anifail, ei ddiberfeddu a'i dorri, a chawsom gig ffres am y tro cyntaf ers chwe wythnos.

Bob Meddins (Ffiseg 1967) a minnau oedd ffisegwyr y daith, gan fod Sefydliad Ymchwil Tiroedd Sych Prifysgol Califfornia a chwmni trydanol mawr wedi'n noddi i brofi amrywiadau ar ddistyllwyr haul i dynnu dŵr o bridd neu dywod a deunydd organig.




Roedd gan y tîm lu o brosiectau eraill, gan gynnwys arolwg daearegol Richie Baker (Daearyddiaeth 1967) o gefnen anghysbell drawiadol tua 100 milltir i'r de o'n gwersyll yn Agades. Gadawyd Richie wrth y gefnen ac aeth y Land Rover yn ei flaen rai cannoedd o filltiroedd i Kano yn Nigeria i gasglu offer gwyddonol bregus a oedd wedi'i anfon atom mewn awyren. Mae Richie'n dal i sôn am ei deimlad cynyddol o baranoia wrth iddo ddechrau meddwl pa mor anghysbell oedd y gefnen a'i ofn efallai na fyddai'r Land Rover yn dod i'w nôl.

Bob Gardner (Swoleg 1967), a oedd wedi bod flwyddyn ynghynt ar daith y Brifysgol i Norwy Arctig gyda Richie Baker, oedd yn bennaf gyfrifol am drefnu'r daith. Un noson dywyll o aeaf, fwy na thebyg yn un o dafarndai Aberystwyth, tynnodd Richie gylch â radiws 5,000 milltir ag Aberystwyth yn y canol, a dyna yn y bôn sut y cyrhaeddon ni Agades.

Cyn hir, roedd wedi casglu criw i fod yn rhan o'r antur, a minnau yn eu plith, ynghyd â Bob Meddins, Dick Davies a Dave Thompson. Roedd Bill Dean a Dai Pugh (Ffiseg 1963) yn hen lawiau ar deithiau o'r fath; roedd gan Bill brofiad o fod yn yr anialwch gan ei fod yn ddiweddar wedi arwain tîm i Wladwriaethau'r Cadoediad sydd bellach yn rhan o'r Emiraethau Arabaidd Unedig. Roedd Dai'n aelod hynod bwysig o'r tîm; roedd nid yn unig yn gorfforol gryf ac yn deithiwr profiadol, roedd hefyd yn fecanig da iawn.

Ar wahân i'r problemau corfforol y bu pob un ohonom yn eu dioddef, roedd sawl digwyddiad bach doniol a oedd yn tystio i'n naïfrwydd, fel yr adeg pan gollon ni'r arwyddbyst a oedd yn dangos y ffordd drwy'r Sahara. Wedi bod yn gwersylla dros nos, roedd arnom ofn ein bod wedi gwyro gryn dipyn oddi ar ein llwybr, a phenderfynwyd y byddai'n dda o beth edrych i weld ble roedden ni gan ddefnyddio secstant y tîm daearyddiaeth. Daeth yn amlwg yn fuan iawn y byddai'n anodd gwneud hynny gan nad oedd neb yn siŵr sut i ddefnyddio'r offeryn ac roedd yn gwbl ddi-werth beth bynnag oherwydd roedden ni wedi anghofio dod â'r tablau a fyddai wedi rhoi'r lledred i ni. Yn ffodus i ni roedd tân y gwersyll i'w weld am filltiroedd yn nüwch clir y nos yn yr anialwch a gwelodd confoi o fyddin Ffrainc ni. Roedden nhw'n ddigon call i deithio ar ôl i'r haul fachlud. Daethant draw atom i gael gwybod beth oedd yn digwydd ac ar ôl rhannu diodydd a mân siarad aethant yn eu blaenau. Drannoeth, roedd modd i ni ddilyn ôl eu cerbydau i'r prif lwybr a'r arwyddbyst.

Roedd yr aduniad ym mis Medi 2011 yn dipyn o achlysur; buom yn ymweld â'n hen gyrchfannau ac yn ceisio prynu cwrw am brisiau 1966. Aethom i weld y campws ar y bryn ac adeilad ysblennydd Canolfan y Celfyddydau a hyd yn oed ail-greu, gyda dau hen ŵr yn britho, y ffotograff a dynnwyd yn y labordy Ffiseg ar ddiwedd tymor yn 1966.

Mae'n ddiddorol gweld effaith y Sahara ar bob un ohonom. Er gwaetha'r ffaith nad yw'r corff a'r cymalau'n gweithio cystal ag y buon nhw, mae pob un ohonom, yn ddieithriad, yn dal i fod wrth ein bodd ag anturio a'r awyr agored. Yn yr aduniad roedd arbenigwr ar achub mynydd, beiciwr pellter mawr (John O'Groats i Land's End), cerddwyr pellter mawr (o arfordir i arfordir a llwybrau hir yn Ewrop ac yn Awstralia), canŵ-wyr pellter mawr yn y gwyllt a chredaf fod pob un ohonom yn teimlo rhyw angerdd o hyd dros deithio, gwersylla yn y gwyllt a'r anialwch.

Diddorol hefyd oedd cael clywed am fywydau pawb ers i'r rhan fwyaf ohonom gwrdd ddiwethaf. Ymhlith y tîm mae Is-gyrnol wedi ymddeol, arweinydd achub mynydd wedi ymddeol, heliwr pennau wedi lled ymddeol, arbenigwr ar arolygon olew seismig, darlithydd prifysgol wedi ymddeol, cyfarwyddwr cwmni llwyddiannus yn ymdrin â pheiriannau a pheirianwaith a Siôn bob swydd a fu'n rhedeg cwmni mwyngloddio enfawr yn Awstralia.

Roedd y Belle Vue, a'i swyn hen ffasiwn, yn lle perffaith i gwrdd, ond rydym eisoes wrthi'n trefnu aduniad 50 mlynedd yn Tamanrasset yng nghanol y Sahara.

Ond y tro hwn, hedfan yno fyddwn ni.

# Y Gwyll

**Mae cyfres newydd wedi ymddangos ar ein sgrin yn arddull y dramâu ditectif noir poblogaidd o Sgandinafia.** Fe ffilmiwyd *Y Gwyll / Hinterland* mewn ardaloedd gwledig o amgylch Aberystwyth ac mae'n torri tir newydd oherwydd iddi gael ei ffilmio mewn dwy iaith ar yr un pryd, y naill i'w darlledu yn Gymraeg ar S4C a'r llall i'w darlledu yn ddwyieithog ar BBC Cymru a BBC Four. Yn sgil llwyddiant dramâu poblogaidd o Sgandinafia, fel *Wallander* a *The Killing*, mae is-deitlau'n llawer mwy derbyniol i'r gwylwyr erbyn hyn, ac mae *Y Gwyll / Hinterland* hefyd yn defnyddio is-deitlau i adlewyrchu'r gymuned naturiol ddwyieithog. Mae'r gyfres yn cyflwyno ardal Aberystwyth i gynulleidfa ryngwladol ac fe werthwyd yr hawliau darlledu i'r darlledwr DR yn Nenmarc cyn i'r gyfres gael ei darlledu yma hyd yn oed.

Wrth wylio'r rhaglenni, bydd cyn-fyfyrwyr Aberystwyth yn cofio nid yn unig am olygfeydd llwm a phrydferth Aber dros fisoedd tawel y gaeaf, ond hefyd am naws y gymuned Gymreig, lle mae sgyrsiau'n llifo'n naturiol o'r naill iaith i'r llall a lle mae pawb yn adnabod ei gilydd – byd gwirioneddol fach! Ym mhob pennod, fe welwn rannau cyfarwydd o Aber sy'n agos at ein calonnau (heb y llofruddiaethau arswydus, wrth gwrs).

Serch hynny, nid y cynnyrch terfynol sydd wedi dylanwadu fwyaf ar y Brifysgol, ond yn hytrach y broses gynhyrchu. Ar ôl penderfynu lleoli'r gyfres yng Ngheredigion, cafodd myfyrwyr Aber gyfle i gael profiad ymarferol amhrisiadwy o'r gwaith sydd ynghlwm wrth gynhyrchu cyfres deledu ryngwladol fawr, ac roedd Fiction Factory yn barod iawn i'w croesawu. Roedd cyfle i'r myfyrwyr gael profiad gwaith, drwy gysgodi gweithwyr proffesiynol ac ymddangos fel ecstras.

Dywedodd Ellen Dingstad o Norwy, myfyrwraig trydedd blwyddyn yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu: "Roedd gweithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant yn gyfle da i ddysgu, ond roedd hefyd yn gyffrous ac yn hwyl. Fe ges i fy annog i wneud cais am brofiad gwaith gan fy narlithwyr, ac fe ges i swydd 'Cynhyrchydd'.

"Roedd y tasgau'n debyg i rai rhedwr ar y set, ond ro'n i hefyd yn ddigon ffodus i gael gweithio yn y swyddfa gynhyrchu. Ar ôl i'r cyfnod profiad gwaith ddod i ben, fe ges i gynnig swydd ran-amser hyd yn oed. Mae'r profiad wedi gwella fy CV ac rwy'n deall mwy am ofynion y diwydiant. Efallai nad hwn yw'r proffesiwn hawsaf i ymuno ag ef, ond mae'r budd ges i o helpu i greu rhywbeth yn ddiguro."

Dywedodd Dr Jamie Medhurst, Pennaeth Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu Aber: "Roedd y bartneriaeth â Fiction Factory, un o gwmnïau cynhyrchu mwyaf blaenllaw'r DG, wrth gynhyrchu *Y Gwyll / Hinterland* yn dangos sut all adran addysgu ac ymchwil o safon byd, fel yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, ddarparu profiad gwaith o'r radd flaenaf i'w myfyrwyr. Fe wnaeth pob un ohonyn nhw elwa'n fawr ar y cyfle i gydweithio â'r cwmni.

"Rwy'n ddiolchgar iawn i Fiction Factory am ddarparu



profiadau mor fuddiol i'n myfyrwyr ac, yn wir, i'n staff a fu'n cydweithio â nhw yn ystod eu cyfnod yn Aberystwyth. Fe ddangosodd y bartneriaeth ymrwymiad yr Adran i gydweithio â'r diwydiannau creadigol a diwylliannol yng Nghymru a thu hwnt er budd y myfyrwyr, y staff a'r cwmni cynhyrchu."

Fe wnaeth y Brifysgol ddarparu rhai lleoliadau ffilmio hefyd. Fe ffilmiwyd y golygfeydd tu mewn i swyddfa'r heddlu ym Mhlas Gogerddan ac fe gafwyd sawl ymddangosiad cameo gan yr Hen Goleg hardd. Cafodd yr Hen Goleg gyfle arall i serennu ym mis Hydref pan gynhaliwyd y *première* swyddogol a pharti yn y Cwad. Fe gafodd yr adeilad ei drawsnewid ar gyfer y dangosiad cyntaf drwy ei oleuo â goleuadau atmosfferig a'i amgylchynu â thâp 'Heddlu – Safle Trosedd'.



Bu cyn-fyfyrwyr Aber yn rhan o'r prosiect hefyd, gan gynnwys y cynhyrchydd Gethin Scourfield a'r actor Aneurin Hughes (y Prif Uwcharolygydd Brian Prosser). Fe gynhyrchwyd *Y Gwyll / Hinterland* gan Fiction Factory mewn cydweithrediad ag S4C, Tinopolis, BBC Cymru, Cronfa Gyd-gynhyrchu S4C ac All3Media International Ltd. Cynhyrchwyd y gyfres yn Gymraeg ac yn Saesneg ac fe gaiff ei gwerthu i ddarlledwyr ar draws y byd drwy'r dosbarthwr a'r partner cyd-gynhyrchu All3Media International. Ar ôl ei darlledu am y tro cyntaf ar S4C ym mis Hydref 2013, fe gafodd ei darlledu ar BBC Cymru a BBC Four ddechrau 2014 a chan y darlledwr DR yn Nenmarc.



# Graddio 2013

**Graddio yw'r adeg pan fydd Aber yn dathlu llwyddiannau ei myfyrwyr, ac yn 2013 graddiodd dros 2,700 mewn naw seremoni rhwng 9 a 12 Gorffennaf.** Am y tro cyntaf cynhaliwyd seremoni hefyd i'r rhai a gwblhaodd y Dystysgrif Addysg i Raddedigion yn llwyddiannus. Ymunodd teuluoedd a ffrindiau o bedwar ban byd â ni i nodi'r achlysur, a dilynodd y rhai nad oedd yn gallu bod yn bresennol y gwasanaeth ffrwd fideo byw. Roedd pabell fawr a Sinema Canolfan y Celfyddydau hefyd yn dangos darllediad byw, ac ymunodd y tywydd hyd yn oed yn ysbryd yr achlysur, gyda haul braf!



# Cymrodyr 2013

Yn ystod Graddio 2013 croesawyd deg o Gymrodyr Er Anrhydedd i'r Brifysgol. Mae hwn yn ddyfarniad i unigolion eithriadol sydd â chyswllt agos â Phrifysgol Aberystwyth neu sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i fywyd proffesiynol neu gyhoeddus Cymru. Y canlynol yw Cymrodyr Er Anrhydedd Prifysgol Aberystwyth 2013:



## Ian Jones

Chwaraeodd Ian Jones (BSc Econ Economeg, 1980) ran allweddol wrth lansio S4C yn 1982. Ar ôl cyfnod yn gweithio yn ITV ac fel cynhyrchydd annibynnol, ailymunodd â S4C fel Cyfarwyddwr Busnes, S4C Rhyngwladol a Chydgynhyrchu yn 1992. Ers hynny mae wedi gweithio mewn swyddi rheoli uwch i Scottish Television, United News and Media, (ITEL), Granada International (sef ITV Global erbyn hyn) a gwasanaethodd am ddwy flynedd, sydd yn dymor digynsail, yn Gadeirydd ar Gymdeithas Diwydiant Dosbarthu Teledu Prydain (BTDA). Bu'n Llywydd ar National Geographic Television International, cyn dod yn Rheolwr-Gyfarwyddwr Grŵp Target Entertainment. Ei swydd ddiwethaf oedd Rheolwr-Gyfarwyddwr ar Ddosbarthu Cynnwys a Datblygu Masnachol Rhyngwladol ar gyfer A+E Television Networks yn Efrog Newydd. Ddeng mlynedd ar hugain ar ôl helpu i lansio'r sianel, dychwelodd i S4C fel Prif Weithredwr ym mis Ionawr 2012.



## Neil Brand

Mae Neil Brand (BA Saesneg a Drama, 1979) yn awdur, yn gyfansoddwr ac yn gyfrannwr rheolaidd i raglenni radio a theledu'r BBC, ond yn anad dim, ef yw 'Prif gyfeilydd y ffilmiau mud' (Torin Douglas, Radio 4). Mae Neil wedi cyflwyno *Arts Show* ar Radio 2, mae'n gyfrannwr rheolaidd ar *The Film Programme* Radio 4, yn gyfarwyddwr Gŵyl Ffilmiau Mud Prydain, yn athro ymweliadol yn y Coleg Cerdd Brenhinol, ac mae'n cael ei ystyried yn un o'r cyfeilyddion gorau yn y byd ar gyfer ffilmiau mud. Mae'n cyfeilio i ffilmiau mud ers bron i 30 mlynedd, ledled Prydain, ac mewn gwyliau ffilmiau ar draws y byd.



## Gwyneth Lewis

Gwyneth Lewis oedd Bardd Cenedlaethol cyntaf Cymru o 2005 i 2006. Mae wedi cyhoeddi wyth cyfrol o farddoniaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Enillodd *Parables & Faxes* (1995) Wobr Casgliad Cyntaf Aldeburgh; *Y Llofrudd Iaith* oedd Llyfr y Flwyddyn yng nghystadleuaeth Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2000; ac enillodd *Sparrow Tree* Wobr Barddoniaeth Roland Mathias yn 2012. Enillodd Gwyneth Wobr Cholmondeley Cymdeithas yr Awduron am gorff nodedig o waith. Yn ogystal â hyn mae wedi ysgrifennu dwy gyfrol anffuglennol, *Sunbathing in the Rain: A Cheerful Book on Depression* a *Two in a Boat*. Gwyneth hefyd a gyfansoddodd y geiriau ar flaen Canolfan Mileniwm Cymru.



## Richard Lynch

Mae Richard Lynch (BA Drama, 1986) wedi gweithio'n eang ym myd y theatr a theledu, gan ddod yn un o'r actorion uchaf ei barch yng Nghymru. Yn brif actor gyda chwmnïau theatr blaenllaw megis The Royal Shakespeare Company, Y Cwmni, The Royal Court, Almeida Theatre a Brith Gof, mae'n arbennig o falch o'i gysylltiad agos â National Theatre Wales, ac yn ddiweddar chwaraeodd y brif ran yn eu cynhyrchiad o *Coriolanus*. Mae'n dal i feithrin perthynas agos â Lurking Truth/Y Gwir sy'n Llechu, a sefydlodd ar y cyd â David Ian Rabey pan oedd yn fyfyriwr israddedig, ac fe gyfarwyddodd *I Saw Myself* gan Howard Barker yn Theatr y Chapter, Caerdydd.



## Sharon Maguire

Gweithiodd Sharon Maguire (BA Saesneg a Drama, 1982) ym maes cyhoeddi cyn cymryd cwrs ôl-radd mewn newyddiaduraeth a mynd i fyd y cyfryngau. Mae Sharon wedi cyfarwyddo llawer o raglenni a hysbysebion teledu gan gynnwys *The Late Show, Bookmark, Omnibus, MediaShow* cyn cyfarwyddo'r ffilm hynod boblogaidd, *Bridget Jones' Diary*. Yn 2007, ysgrifennodd y ffilm *Incendiary*, a'i chyfarwyddo, ac erbyn hyn mae'n gweithio fel sgriptiwr a chyfarwyddwr teledu a ffilmiau.



## Y Barnwr Niclas Parry

Mae Ei Anrhydedd y Barnwr Niclas Parry (LLB Y Gyfraith, 1979) yn Farnwr Cylchdaith ar Gylchdaith Cymru ac yn barnu mewn achosion Cyfraith Droseddol yn Llys y Goron. Wedi ei ysbrydoli gan brofiadau ei ddiweddar fam a oedd yn Ynad Heddwch, roedd Niclas yn awyddus i ddilyn gyrfa yn y Gyfraith ac ar ôl gorffen ei astudiaethau, aeth ymlaen i ddilyn gyrfa yn gyfreithiwr, gan arbenigo mewn cyfraith droseddol a chyfraith teulu. Mae Niclas hefyd yn gyflwynydd a sylwebydd chwaraeon adnabyddus ar y radio. Yn ddiweddar cafodd ei dderbyn yn aelod o Orsedd y Beirdd, lle caiff ei adnabod fel Niclas y Llais!



## Betsan Powys

Aeth Betsan Powys (BA Almaeneg a Drama, 1987) ymlaen o Aber i wneud MLitt yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen. Betsan yw Pennaeth Rhaglenni a Gwasanaethau Cymraeg BBC Cymru / Wales, ac mae ganddi gyfoeth o brofiad darlledu a chyflwyno. Ymunodd â'r BBC yn 1989 fel hyfforddai newyddion ac ers hynny mae wedi mwynhau gyrfa lwyddiannus fel cyflwynydd dwyieithog ar y teledu a'r radio, ac fel blogiwr gwleidyddol. Mae Betsan yn wyneb cyfarwydd ar y BBC ac S4C, ac mae wedi cyflwyno nifer o raglenni newyddion gwleidyddol gan gynnwys *Panorama, Week In Week Out* a'r *Byd ar Bedwar.*



## Dr Emyr Roberts

Dechreuodd Dr Emyr Roberts (PhD Daearyddiaeth, 1989) ei yrfa gydag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, cyn ymuno â'r Swyddfa Gymreig yn 1991. Ar ôl dal swyddi ym meysydd iechyd a diwylliant, dyrchafwyd Emyr i'r Uwch Wasanaeth Sifil a daeth yn Brif Weithredwr ar Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn 1997. Rhwng 2005 a 2012, daliodd Emyr swyddi amrywiol yn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Cyfarwyddwr yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio; Cyfarwyddwr yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol; Cyfarwyddwr Cyffredinol ar Gyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol; a Chyfarwyddwr Cyffredinol ar yr Adran Addysg a Sgiliau. Ym mis Tachwedd 2012, fe'i penodwyd yn Brif Weithredwr cyntaf Cyfoeth Naturiol Cymru.



## Dr Elaine Storkey

Mae Dr Elaine Storkey (BA Athroniaeth, 1966) yn academydd ac yn ddarlledwr adnabyddus. Yn dilyn ei gradd yn Aberystwyth, aeth Elaine ymlaen i wneud astudiaethau uwchraddedig yng Nghanada cyn mwynhau gyrfa academaidd nodedig ym maes Athroniaeth a Diwinyddiaeth. Mae ganddi hefyd Ddoethuriaeth mewn Diwinyddiaeth ym maes Cymdeithaseg a Diwinyddiaeth o Lambeth a Doethuriaeth er Anrhydedd o Goleg Cheltenham and Gloucester. Ers 2008 mae'n aelod o'r Bwrdd Uwch yng Ngholeg Newnham, Caergrawnt. Bu'n lywydd Tearfund ers 1997, ac mae hefyd yn Gyfarwyddwr Addysg ar Fyddin yr Eglwys, Eglwys Lloegr. Mae wedi ysgrifennu wyth o lyfrau, ac mae hefyd yn ysgrifennu'n rheolaidd i gyfnodolion a phapurau newydd ac yn cyfrannu'n aml i *Thought for the Day* ar Radio 4.



## Yr Athro Douglas Kell

Cyn aelod o staff Prifysgol Aberystwyth yw'r Athro Douglas Kell oedd yn Brif Weithredwr ar Gyngor Ymchwil y Gwyddorau Biolegol a Biotechnoleg (BBSRC) rhwng 2008 a Hydref 2013. Yn academydd o fri, dechreuodd Douglas ei yrfa ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth yn 1983 a rhwng 1997-2002 ef oedd Cyfarwyddwr Ymchwil Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Aber. Mae'n un o gyd-sylfaenwyr Aber Instruments, cwmni a enillodd Wobr y Frenhines am Gyflawniadau Allforio ym 1998. Arloesodd mewn amryw agwedd ym meysydd bioleg gyfrifiannol a metabolomeg arbrofol. Cyfrannodd Douglas hefyd at ddarganfyddiad y sytocein bacteriol cyntaf sydd ar hyn o bryd yn cael ei dreialu yn rhan o frechiad yn erbyn y ddarfodedigaeth. Dyfarnwyd CBE iddo yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd yn 2014.

# Gwobr CaisDyfeisio 2012/13

**Cystadleuaeth newydd sydd ar agor i fyfyrwyr ac sy'n annog entrepreneuriaeth yw Gwobr CaisDyfeisio, a gynhaliwyd am y tro cyntaf yn 2012/13 gyda chyllid o Gronfa Flynyddol 2011/12.** Y nod yw ysgogi syniadau newydd ar gyfer cynhyrchion neu wasanaethau y byddai modd eu datblygu'n fusnes llwyddiannus. Ymgymerodd ymgeiswyr â chyfres strwythuredig o weithdai a digwyddiadau wedi'u cynllunio i adeiladu achos busnes i'w gyflwyno i banel o feirniaid. Y rhai a ddaeth i'r rownd derfynol oedd: **Marc Diaper**, yn yr Ysgol Rheolaeth a Busnes gyda *YouAndIUNI*, cymuned arlein i fyfyrwyr werthu eu sgiliau; **Michal Konieczny** yn yr Adran Ieithoedd Ewropeaidd gyda *Elemarketing*, yn darparu gwasanaethau hysbysebu arbenigol; **Luke Mar**, Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, gyda *Constitution Films*, yn gwneud ffilmiau corfforaethol; **Micheal McMonagle**, myfyriwr uwchraddedig yn IBERS, gyda *AlgiBloom*, symbylydd planhigion wedi'i seilio ar wymon (canmoliaeth); **Alex Pitchford** yn yr Adran Mathemateg a Ffiseg gyda *HYDROcache*, yn darparu gwasanaeth dosbarthu trydan oriau brig (canmoliaeth), a'r enillydd, **Jake Stainer**, myfyriwr Rheolaeth a Busnes gyda Sbaeneg a'i gwmni, *Papora*, yn darparu gwasanaethau dysgu iaith arlein.

Jake oedd enillydd cyntaf y gystadleuaeth, ac ers hynny, mae *Papora* wedi ehangu'n gyflym, gan ddarparu cyrsiau estynedig, ap ar gyfer yr iPad ac iPhone, ac mae trafodaethau ar y gweill gydag ysgolion a darparwyr addysg i ddod â'r gwasanaeth i farchnad ehangach. Mae Jake hefyd yn apelio am ragor o gymorth drwy gymorth torfol, ac mae'r newyddion diweddaraf i'w weld yn rheolaidd ar ei flog yn inventerprize.wordpress.com/tag/jake-stainer

*Sganiwch y cod gyda'r sganiwr QR ar eich ffôn er mwyn cael dolen gyflym i'r wefan*



*Beirniaid a chystadleuwyr rownd derfynol cystadleuaeth CaisDyfeisio 2013*

Caiff Gwobr CaisDyfeisio 2013/14 ei beirniadu gan gyn-fyfyrwyr blaenllaw sydd wedi gwneud enw ym maes busnes a menter:

- **Jane Clayton:** cyfrifydd siartredig cymwysedig a Chyfarwyddwr anweithredol profiadol.
- **Nigel Davies:** mae wedi gweithio ers 30 o flynyddoedd ym maes technoleg gorfforaethol a busnes gan gynnwys sefydlu cwmni ymgynghori technoleg.
- **Tony Diment:** cyfalafwr menter profiadol sydd â diddordebau sy'n cynnwys darparu cyllid cychwynnol ar gyfer busnesau newydd.
- **Donald Davies:** Athro Emeritws mewn Tocsicoleg yng Ngholeg Imperial Llundain a Chyfarwyddwr Sefydlu ML Laboratories plc.
- **Peter Gradwell:** sefydlodd gwmni cyfathrebu rhyngrwyd, Gradwell dot com Ltd, pan oedd yn fyfyriwr yn Aber.
- **Huw Morgan:** bu'n Bennaeth Bancio Busnes yn y DG i Fanc HSBC plc ac mae'n gymrawd y Sefydliad Bancio Siartredig.
- Ar gyfer Gwobr CaisDyfeisio 2014, bydd **David Sargen**, Partner Rheoli Derivatives Risk Solutions, sy'n darparu cymorth i'r diwydiant gwasanaethau ariannol, yn ymuno â'r panel. Mae ganddo ddiddordeb mewn ffyrdd arloesol o godi cyfalaf yn erbyn eiddo deallusol.



# Cronfa Flynyddol 2013/14



**Mae Cronfa Flynyddol Aber yn ei phumed flwyddyn erbyn hyn, ac wedi'i sefydlu'n gadarn ar galendr y Brifysgol a gosod Aberystwyth yn glir ar frig y rhestr o brifysgolion Cymru am godi arian.** Mae hyn yn llwyr oherwydd eich haelioni chi, y cyn-fyfyrwyr, sydd wedi cofleidio'r prosiectau a'n myfyrwyr presennol.

Nod y Gronfa yw darparu'r adnoddau ar gyfer prosiectau y mae modd eu cyflawni ynghyd â gwobrau blynyddol fydd yn ehangu datblygiad bywyd ac addysgol ein myfyrwyr. Caiff yr holl arian a godir bob blwyddyn ei wario ar brosiectau'r flwyddyn honno, a gallwch ddarllen mwy am y prosiectau cyfredol a blaenorol yn **www.aber.ac.uk/cy/development/support/annfund/af1314**

*Sganiwch y cod gyda'r sganiwr QR ar eich ffôn er mwyn cael dolen gyflym i'r wefan*

# Rhwydwaith Cyfleoedd Aber yn tyfu

**Yn y rhifyn diwethaf o PROM disgrifiodd Lucy Spencer ei phrofiad gwaith gyda'r cwmni cyfathrebu rhyngwladol, SyQic yn ninas Kuala Lumpur gyda thri myfyriwr arall, diolch i'r cyn-fyfyriwr o Aber, Jamal Hassim.** Ers hynny, mae Jamal a chyn-fyfyrwyr eraill wedi bod yn gweithio gyda Gwasanaeth Gyrfaoedd Aber i gynnig amrywiaeth gwych o gyfleoedd i fyfyrwyr cyfredol fanteisio ar brofiad cyn-fyfyrwyr. Cafwyd ymweliadau â chwmnïau, lleoliadau gwaith a phrofiad gwaith, ynghyd â sgyrsiau a gweithdai yn Aber.

Er mwyn ehangu a datblygu'r Rhwydwaith Cyfleoedd, rydym ni nawr yn gweithio i sefydlu gwasanaeth mentora arlein i fyfyrwyr a chyn-fyfyrwyr diweddar a allai gael budd o ychydig o gymorth neu gyngor ar eu dewis o yrfa. Gyda chymorth y Gronfa Flynyddol a grŵp o wirfoddolwyr llwyddiannus o blith y cyn-fyfyrwyr fel mentoriaid, bydd Gwasanaeth e-Fentora Aberystwyth yn cysylltu myfyrwyr a graddedigion diweddar Aber â darpar fentoriaid. Bydd y mentoriaid yn dewis eu lefel o ymrwymiad i'r cynllun, a bydd myfyrwyr yn gallu chwilio am fentor â'r profiad i gynnig cyngor a chymorth perthnasol.

Os hoffech chi helpu gyda'r fenter newydd hon, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **datblygu@aber.ac.uk** neu 01970 621568 neu ewch i **www.aber.ac.uk/cy/development/aon**

# Aber Dramor

**Yn 2013 cynhaliwyd derbyniadau i gyn-fyfyrwyr Aber ar draws y byd o Tsieina i UDA, yn Washington DC, Hong Kong, Dubai, Shanghai a Chwlen.** Noddwyd y digwyddiad yn Washington drwy haelioni Margaret a Thomas West, a olygodd ein bod wedi gallu defnyddio'r Cosmos Club nodedig i gyfarfod â 25 o garedigion Aber yng nghwmni'r Is-Ganghellor. Cyfarfu staff Aber â chyn-fyfyrwyr a'u gwesteion gan fwynhau rhannu atgofion a dysgu am y datblygiadau newydd yn Aber, a'r cyfan gyda dogn da o letygarwch Cymreig. Mae ein staff yn cynllunio rhagor o deithiau yn 2014, yn enwedig yn Ewrop a'n gobaith yw cynnal derbyniadau mewn mannau lle ceir clystyrau o gyn-fyfyrwyr, felly i sicrhau gwahoddiad, gadewch i ni wybod ble'r ydych chi! Mae'n hawdd diweddaru eich manylion drwy Cyswllt Aber neu gysylltu â ni: **datblygu@aber.ac.uk**

*Sganiwch y cod gyda'r sganiwr QR ar eich ffôn er mwyn cael dolen gyflym i'r wefan*



*Saf a Nargiz, a gyfarfu yn Aber, yn rhoi help llaw yn Vancouver*

# Cymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr

## Cyfarchion oddi wrth y Llywydd

**Blwyddyn ddiddorol ac agoriad llygaid, dyna sut y byddwn innau'n disgrifio'r 12 mis diwethaf.** Cychwynnwyd ar drefniadau fydd, gobeithio, yn cyflymu uno Cymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr â'r mudiad alumni ehangach, yn gwella'r modd y rheolir cronfeydd y Gymdeithas, a chael enillion oddi wrthynt; a gwella'r cyfathrebu a'r cyfnewid gwybodaeth rhwng y naill ochr a'r llall trwy ddefnyddio'r Rhyngrwyd i sicrhau bod y Cyhoeddiad Blynyddol yn gyhoeddiad mwy parhaus.

Daeth arwyddocâd gwallt gwyn mwyafrif aelodau Cymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr i'r amlwg gyda marwolaeth drist Ifan Moelwyn Hughes, a fu'n un o hoelion wyth y Gymdeithas ers cyhyd, ym mis Mawrth; ac yn arbennig felly gyda marwolaeth yr anfarwol Mary Llewelfryn Davies ym mis Awst. Bwrodd ei marwolaeth gysgod dros benwythnos Cic Arall i'r Bar. A all unrhyw beth gymryd lle ei derbyniad ar fore Sul yn ystod yr Aduniad?

Mwynheais sawl achlysur fel cynrychiolydd Cymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr. Penllanw'r flwyddyn fu'r ymweliad â Maleisia, gyda Heide, yn Ionawr 2013 wrth imi gynrychioli'r Gymdeithas mewn seremoni arbennig i gyflwyno doethuriaeth anrhydeddus i EUB Muhriz (a raddiodd yn y Gyfraith o Aber); rhannu'r prif fwrdd mewn cinio dan nawdd Cyn-fyfyrwyr Maleisia i ddathlu pen-blwydd Muhriz yn 65 oed; mynychu seremoni i anrhydeddu pen-blwydd wrth i gyn-Lywydd Cymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr, Arshad Ayub, dderbyn yr anrhydedd uchaf a gyflwynir gan Wladwriaeth Negeri Sembilan; ac yn olaf cael eistedd yn rhes flaen y gynulleidfa wrth i UiTM Mara (200,000 o israddedigion) berfformio sioe gerdd o'u gwaith eu hunain i ddathlu *The Life of Arshad*, a hynny o flaen neuadd orlawn am 4 noson o'r bron.

Bûm hefyd yn cynrychioli Cymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr yng Ngŵyl y Gelli, (gwthiwyd fy nhei streipiog coch a gwyrdd naill ochr gan flaser streipiog coch a gwyrdd gwych), darlith Llanymddyfri, yr Eisteddfod – diolch yn arbennig i'r Is-Lywydd Ina Tudno Williams am gelu fy niffyg Cymraeg. Bu'r Wythnos Graddio yn agoriad llygaid – cyfanswm o naw sesiwn ar wahân dros bedwar diwrnod crasboeth yng Ngorffennaf. Yn rhinwedd fy swydd fel eich Llywydd, bûm yn bresennol mewn pedwar sesiwn gan fyfyrio'n eironig ar y ffaith fod y drefn gyfan yn fy nghyfnod i ond wedi cymryd rhyw ddwy awr yn ystod un sesiwn prynhawn yn yr hen Neuadd y Brenin, gyda the prynhawn i ddilyn yng Ngwesty'r Belle Vue ar gyfer y pwysigion. Anodd yw dychmygu enghraifft fwy pwerus o'r ehangu sydd wedi digwydd.

**Tom Morgan, Llywydd Cymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr 2012/14**



*Arshad a Zaleha gyda Tom a Heide*

## Cofio Aelodau

Yn ystod 2013 cofnododd y Gymdeithas golled drist tri o'i haelodau mwyaf pybyr, a gwelir eisiau cyfraniad unigryw pob un ohonynt yn fawr:

Roedd **Ifan Moelwyn Hughes** bob amser yn aelod brwd o Gymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr a'r gangen leol. Roedd ei gyfraniad dros y blynyddoedd yn enfawr, fel ysgrifennydd, is-lywydd, llywydd, golygydd am sawl blwyddyn a ffotograffydd lled-swyddogol bob amser.

Bydd cenedlaethau o fyfyrwyr y gyfraith a wahoddwyd i de yn ei chartref yn cofio am **Mary Llewelfryn Davies**, gweddw'r Athro David Llewelfryn Davies. Roedd Mary yn gymeriad anorchfygol a bu farw yn 97 oed, ar drothwy Aduniad 2013.

Bu **Gwen Owen** yn gynrychiolydd Cangen Bangor a Gogledd Cymru ar y Pwyllgor, gan wneud nifer o ffrindiau ac ennill parch mawr am ei natur dyner a meddylgar. Roedd hi'n bleser adnabod Gwen, yn rhinwedd ei gwaith i'r Gymdeithas ac yn gymdeithasol; gwelir ei heisiau yn fawr.

## Gweithgareddau'r Gymdeithas

Cynhelir **Aduniad 2014** yn Aber ar benwythnos rhwng Dydd Gwener 13 Mehefin a Dydd Sul 15 Mehefin, a'r Cinio Blynyddol ar Ddydd Sadwrn 14 Mehefin ym Medrus, Penglais, Aberystwyth. Cysylltwch â **development@aber.ac.uk** neu ffoniwch 01970 621568 i gael rhagor o wybodaeth.

Yn ystod Cinio Blynyddol 2013, a gynhaliwyd yn y Cwad yn ystod penwythnos aduniad Cic Arall i'r Bar, roedd aelodau Cymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr wrth eu bodd i glywed am frwdfrydedd y Brifysgol i danio bywyd newydd i'r Hen Goleg Gradd 1 rhestredig. Y bore trannoeth, fe ddychwelwyd i glywed cyflwyniad diddorol iawn ar ei hanes a chael taith fer o gwmpas, dan arweiniad Dr Elgan Davies, a gyrhaeddodd ei hanterth gyda'i ddatganiad o Waedd y Coleg, sŵn nas clywyd o fewn i'r muriau hyn am lawer degawd! Yn y Cwad roedd arddangosfa o bethau cofiadwy o hanes cynnar y Coleg hyd heddiw yn gefndir diddorol iawn i argraffiadau'r pensaer o sut y gallai'r ystafelloedd edrych y tu mewn. Aeth Trên y Cyn-Fyfyrwyr â ni ar daith gyda'r nos ar lein fach Cwm Rheidiol i Bontarfynach, lle cawsom ein diddanu gan grŵp o gantorion lleol, Sgarmes, wrth i'r haul fachlud ac wrth i'r gwin pefriog lifo.

Dathlwyd 21ain flwyddyn Darlith Llanymddyfri gyda hanes triniaeth un o Athrawon mwyaf lliwgar a thalentog Aber, Hermann Ethé, ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Daeth Tegwyn Jones â'r bennod gywilyddus hon yn fyw, gan ein hatgoffa mewn arddull wefreiddiol a oedd yn ennyn cydymdeimlad a barn, sut yr alltudiwyd Ethé, dinesydd o'r Almaen, o'r dref. Fe wnaeth y cyflwyniad ennyn ymdeimlad o gywilydd moesol ymhlith aelodau'r gynulleidfa wrth edrych yn ôl dros ganrif, gan gwestiynu hefyd sut y byddai ein cymdeithas yn ymateb mewn sefyllfa wleidyddol debyg heddiw.

Cynhelir **Darlith Llanymddyfri 2014** ddydd Sadwrn 31 Mai 2014 am 10.30 y.b. yng Ngholeg Llanymddyfri, drwy ganiatâd caredig y Warden. Bydd Dr Rachel Bryan Davies yn sôn am, "From Aber to Alexandria; the Davies Bryan family's gift of Penglais". Mae'r tocynnau yn £20 i gynnwys coffi wrth gyrraedd, y ddarlith a chinio. Cysylltwch â Swyddfa'r Gymdeithas ar **osaadmin@aber.ac.uk** neu ffoniwch 01970 621568 i gael mwy o wybodaeth.

Mae'r **Clwb Gwyliau** yn ffynnu o hyd dan arweiniad brwdfrydig Eleri a Mike Samworth. Ymhlith yr anturiaethau diweddar fu ymweliadau â phalas Minoa yn Knossos, gwinllannoedd afon Donwy, y Rhyfelwyr Terracotta a Mur Mawr Tsieina. Mae gan Eleri a Mike lawer o syniadau ar gyfer lleoedd newydd i ymweld â nhw, ond os hoffech ychwanegu rhywle at y rhestr, mae pob croeso i chi gysylltu â nhw. Cysylltwch ag **osatravelsamworth@hotmail.com** i gael gwybod mwy am deithio'r byd yng nghwmni cyn-fyfyrwyr eraill o Aber.

Mae **Cyhoeddiad Blynyddol y Gymdeithas**, sydd wedi ei argraffu a'i ddosbarthu i aelodau ers ganrif a mwy, bellach yn ymuno â'r 21ain ganrif. Bydd y fformat ar-lein newydd yn cyrraedd mwy o aelodau mewn ffordd fwy economaidd, ac yn cynnwys nodweddion rhyngweithiol, newyddion a'r diweddaraf am weithgareddau'r canghennau. Gwnewch yn siŵr fod gennym eich cyfeiriad e-bost cyfredol fel y gallwn anfon y ddolen atoch, ac ni fyddwn yn anghofio am y rhai hynny nad ydynt yn defnyddio'r we; bydd fersiwn papur ar gael i bob aelod fydd yn dymuno hynny! Cysylltwch â Chymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr ar **osaadmin@aber.ac.uk** neu ffoniwch 01970 621568 i gael mwy o wybodaeth.

## Aduniadau'r 50fed Pen-blwydd

**Mae 50fed Pen-blwydd graddedigion Ffiseg 1964 ar fin cyrraedd!** 2014 fydd 50fed Pen-blwydd y dosbarth a raddiodd yn '64. Os hoffech ymuno â William Williams ac eraill o'r Adran Ffiseg ar gyfer dathliad yn haf 2014, cysylltwch â'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni trwy **development@aber.ac.uk** neu ffoniwch 01970 621568 i gael mwy o wybodaeth.

### Cemeg

Yn 1963 enillodd 24 ohonom radd anrhydedd mewn Cemeg o GPC Aber. O ganlyniad i gysylltiad electronig ar hap, meddyliodd ambell un ohonom y byddai'n syniad da i ddod â chynifer â phosibl o'r grŵp at ei gilydd ar gyfer aduniad yn Aber i ddathlu'r 50fed pen-blwydd. Diolch i waith ditectif diflino Diane Markey (Davies), Jennifer Horgan (Davies) a Karyl Swinney (Owens), daethpwyd o hyd i ddeg o'r dosbarth gwreiddiol a chafwyd gwybod, yn anffodus, am farwolaeth y Chwaer Catherine Egan, a gofiem ag anwyldeb mawr.

Bu dau ar bymtheg o westeion, gan gynnwys cyn aelodau o'r staff, yn ciniawa yng Ngwesty'r Marine ar 23 Medi 2013. Daeth y gwesteion o lefydd mor bell â Durban, De Affrica a Burlington, Canada, heb anghofio Blaenplwyf a Cheinewydd. Nid gorchwyl hawdd ydoedd bob tro i adnabod pawb yn syth, ond ar ôl deall pwy oedd pwy, fe lifodd y sgwrs. Adroddwyd hanesion rhyfeddol - ac ambell stori anwir - ac os oedd y cof yn pallu, trowyd at ddychymyg lliwgar. Daeth y noson i ben trwy gicio'r bar yn ôl yr arfer.

Diolch yn fawr i Diane Markey am drefnu'r digwyddiad â manylder cyn-brifathrawes, ac os hoffech gael gwybodaeth am yr aduniad Cemeg nesaf, cysylltwch â Diane Markey neu Tony Ford drwy **development@aber.ac.uk**; fyddwn ni ddim yn ei gadael hi mor hir y tro nesaf.

Sefydlwyd Cymdeithas Cyn-Fyfyrwyr Aberystwyth yn 1892. Os hoffech fod yn aelod oes o'r Gymdeithas hanesyddol hon, ewch i **www.aber.ac.uk/cy/development/alumni** neu cysylltwch ag **osaadmin@aber.ac.uk**

# Fy Aber I: Yn Nhrap yr Harbwr

*Kat Dawes, myfyrwraig PhD, sy'n disgrifio ei hoff ran o Aber.*





**Wrth deithio ar y ffordd droellog ar hyd yr arfordir o'm cartref i Aber caf ddigonedd o gyfle i weld ewyn y môr, ac os oes tonnau yno, gwn y bydd tonnau hefyd yn Nhrap yr Harbwr.**

Dros Bont Trefechan ac i'r chwith, mae'r adeiladau uchel a'r strydoedd cul yn agor fel delta afon wrth ddynesu at y môr ac yn sydyn does dim ond llain y prom a'r môr mawr o'ch blaen. Troi i'r chwith eto a chyn hir gwelaf yr harbwr. Mae'r marina wedi esgor ar sawl breuddwyd braf am brynu cwch a theithio'r byd, ond y môr mawr i'r gorllewin sy'n fy nenu mewn gwirionedd, lle mae'r prom yn gorffen a does dim ond adeilad y bad achub ar y ffordd yn wynebu'r môr.

Pan oeddwn yn gweithio yn y Gwasanaethau Gwybodaeth arferwn ddianc i lawr yma i wylio'r syrffwyr amser cinio. Doedd awr ddim yn ddigon i mi gael syrffio, ac roedd gormod o dorf at fy nant i. Roedd (ac mae) mwy o gaiacau (*goatboats*) nag y gallwn ymdopi â hwy, a syrffwyr ifanc (*groms*), dechreuwyr (*kooks*), syrffwyr gwell o lawer na mi (*rippers*) a byrddau hirion (*planks*). Byddwn yn agor fy mocs bwyd, yn tynnu ychydig luniau ac yn teimlo'n falch nad oedd yn rhaid i mi wisgo fy hẁd, fy menig, fy esgidiau a fy siwt wlyb drwchus yn y gaeaf, a brwydro yn erbyn y dorf a'r cerrynt i ddod o hyd i don.

Ond esgus oedd hynny mewn gwirionedd — her yn aros i'w hateb. Pan ddes i'n ôl i Aber i wneud doethuriaeth, roeddwn yn well syrffiwr; ac roedd mwy o gyfle i wneud hynny, a daeth y dydd pan oedd y tonnau'n lân a dim enaid byw o gwmpas — nefoedd i syrffiwr. Daeth yn bryd i mi wisgo'r gêr a phlymio i mewn.

Mae'r olygfa o frig y don yn wych. Gwelwn wal yr harbwr a'r traeth caregog yn siglo o fy mlaen ac i'r de, a gwelwn bobl yn eistedd yn eu ceir yn gwylio. Ymhellach i'r gogledd roedd tai, y prom eto, y castell a'r gofeb ryfel, i gyd ar ogwydd wrth i'r môr ymchwyddo oddi tanaf. Pwffiodd cwch bychan allan y tu hwnt i nodded yr harbwr. Deg munud i synhwyro hyd a lled pethau, a chefais gyfle i syrffio tair ton dda, gan ddisgyn yn serth a rasio a'm cefn at y dŵr cyn dod i lawr eto wrth i egni'r don dawelu. Fy nhro cyntaf yn syrffio yn Nhrap yr Harbwr, ond yn bendant nid y tro olaf.

# Neuadd Padarn

**Yn 1961, agorwyd neuadd breswyl newydd yn yr adeilad a fu ar un adeg yn Westy'r Lion Royal ar ben uchaf y Stryd Fawr.** Roedd lle i 50 – 60 o fyfyrwyr yn Neuadd Padarn, fel y'i galwyd, a'r Warden cyntaf oedd Dr Ken Walters, a benodwyd yn Uwch Ddarlithydd mewn Mathemateg Gymhwysol yn 1960.

Mae llawer o'r myfyrwyr a oedd yn rhan o ddyddiau cynnar Padarn wedi cadw cyswllt agos â'i gilydd dros y degawdau. Tystiolaeth o'r cyfeillgarwch hwn yw'r ffaith i griw o ddosbarth 1961 – 1963 gwrdd ar 13 Mai, 2013, am Ginio Aduniad yn Amwythig, ynghyd â Ken Walters, sydd bellach yn Athro Ymchwil Nodedig yn Aber.

Roedd Neuadd Padarn yn enghraifft ragorol o'r naws cynnes teuluol y mae nifer o fyfyrwyr Aber wedi'i werthfawrogi yn ystod eu cyfnod yma.

Mae'r llun o'r aduniad yn cynnwys rhai o'r myfyrwyr a oedd yn llun tîm pêl droed 1962 – mae nabod yr wynebau ychydig yn anodd ar ôl 50 mlynedd!

**Ken Walters**



*Tîm Pêl droed Neuadd Padarn 1961 – 1962. Ken Walters, trydydd o'r dde yn y rhes gefn, Emlyn Rawson (Ross) Jones, OBE, a drefnodd yr aduniad yn 2013, ail o'r dde yn y rhes flaen*



*Aduniad 2013. Emlyn Rawson (Ross) Jones OBE, trydydd o'r dde yn y rhes flaen; Roger Banner, nawr yn aelod o Gyngor Prifysgol Aber, pedwerydd o'r dde a Stephen Wood, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ymchwil, Busnes ac Arloesi yn Aber o 1992-2002 ail o'r dde yn y rhes gefn*

# Teyrngedau

*Gyda thristwch mawr yr ydym yn cofnodi ar y tudalennau hyn golli alumni, myfyrwyr, Cymrodyr ac aelodau staff, sydd, neu a fu'n astudio yma, ac yr hysbyswyd ni am eu marwolaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theuluoedd a chyfeillion y sawl a restrir yma.*

## D Ellis Evans 1930 - 2013



Roedd D Ellis Evans yn Athro Celtaidd Coleg Iesu, Rhydychen, rhwng 1978 a 1996. Ei faes ymchwil oedd diwylliant y Celtiaid cynnar ar y cyfandir, ac yn arbennig ei berthynas â diwylliant y byd clasurol, a hanes yr ieithoedd Celtaidd ynysol, yn enwedig y Gymraeg a'r Wyddeleg, a'u llenyddiaeth. Cofir amdano'n bennaf oherwydd *Gaulish Personal Names: a study of some Continental Celtic Formations*, a ymddangosodd yn 1967, gwaith meistrolgar ac ysgolheigaidd o fri sy'n archwilio sylfeini gwareiddiad Ewrop; dyma'r llyfr safonol ar y pwnc o hyd.

Ganed David Ellis Evans yn 1930 yn Llanfynydd yn Sir Gaerfyrddin. Bu'n ddisgybl preswyl yn yr Ysgol Sir yn Llandeilo, ond roedd yn anhapus yno oherwydd awyrgylch Seisnig yr ysgol a'r dref, yn enwedig ar ôl toriad y rhyfel pan agorwyd gwersyll y fyddin yn yr ardal. Ar ôl blwyddyn yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, ac yn dilyn marwolaeth ei dad, symudodd i Goleg y Brifysgol, Abertawe, gan raddio â Dosbarth Cyntaf mewn Groeg, Lladin a'r Gymraeg.

Enillodd Ysgoloriaeth Meyricke a mynd yn fyfyriwr uwchraddedig i Goleg Iesu yn 1952; roedd yn un o'r cyntaf i ddod dan gyfarwyddyd Idris Foster. Dychwelodd i Rydychen yn 1978, ar ôl dysgu yn Adran y Gymraeg yn Abertawe, lle cafodd ei ddyrchafu'n Athro yn 1974, ac arhosodd yng Ngholeg Iesu tan ei ymddeoliad yn 1996.

Cyflawnodd nifer o swyddi'r Brifysgol a swyddi eraill. Bu'n Gadeirydd y Gyfadran Ieithoedd Canoloesol a Modern, Curadur Sefydliad Taylor, Ysgrifennydd y 7fed Gyngres Astudiaethau Celtaidd Ryngwladol a gynhaliwyd yn Rhydychen yn 1983 a Chyngres Astudiaethau Celtaidd Gogledd America a gynhaliwyd yn Ottawa yn 1986. Bu hefyd yn aelod o Bwyllgor Rhyngwladol Gwyddorau Onomastig, Cymdeithas Testunau Iwerddon, Cyngor Astudiaethau Enwau Prydain Fawr ac Iwerddon a Phwyllgor Rhyngwladol Unesco ar gyfer Astudio Diwylliannau Celtaidd.

Yng Nghymru ef oedd Is-Lywydd Cyngor Enwau Lleoedd Clwyd, Cadeirydd Grŵp Astudiaethau Tafodiaith Cymru, Llywodraethwr Coleg Dewi Sant, Aberhonddu, ac aelod o Gyngor Celfyddydau Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Bu hefyd yn olygydd Adran Iaith a Llenyddiaeth Bwletin Bwrdd y Gwybodau Celtaidd rhwng 1973 a 1993. Fe'i gwnaed yn Gymrawd Prifysgol Aberystwyth yn 1992.

Yn wahanol i lawer o ysgolheigion nodedig eraill, gan gynnwys ei ragflaenydd, ni chwaraeoedd Ellis Evans unrhyw ran ym mywyd yr Eisteddfod Genedlaethol, er iddo gael ei urddo i Wisg Wen Gorsedd y Beirdd yn rhinwedd ei swydd fel Athro Celtaidd Coleg Iesu. Ni chwenychai ychwaith amlygrwydd byd y radio a'r teledu yng Nghymru. Nid oedd mor adnabyddus â hynny yng Nghymru, ac eithrio ymhlith cylch bychan o ysgolheigion a ffrindiau o'i gyfnod yn Abertawe. Ond nid dyn y tyrau ifori mohono ychwaith; roedd yn ddyn hoffus a ymhyfrydai yng nghwmni ei gydweithwyr a'i fyfyrwyr.

David Ellis Evans, ysgolhaig Celtaidd; ganwyd Llanfynydd, Sir Gaerfyrddin, 23 Medi 1930; Darlithydd ac Athro'r Gymraeg, Coleg y Brifysgol, Abertawe 1957-78; Athro Celtaidd Coleg Iesu, Prifysgol Rhydychen 1978-96, yna Emeritws; priododd 1957 â Sheila Jeremy (dwy ferch); bu farw 26 Medi 2013.

***Meic Stephens, cyhoeddwyd yn wreiddiol yn yr* Independent, *Hydref 2013.***

## Estynnwn gydymdeimlad â theuluoedd a chyfeillion y canlynol:

**Allen**, Mr Barrie Ralph, bu farw Mawrth 2013, (Daearyddiaeth 1971)
**Barr**, Mr James Alexander, bu farw Medi 2011 (Biocemeg)
**Begley**, Mr Hugh Joseph, bu farw Hydref 2012, (Cymraeg 1989)
**Bourne**, Mr Timothy Huw, bu farw Hydref 2012 (Cerdd 1982)
**Bowen**, Mr Henry Gwilym, bu farw Ionawr 2013 (Hanes 1953)
**Buckler**, Dr Nigel Edmund, bu farw Mai 2013
**Bufton**, Miss Patricia Ann, bu farw Rhagfyr 2012
**Cameron** OBE, Mrs Susan Mary, née Price, bu farw Ionawr 2013 (Daearyddiaeth 1968)
**Campbell-James**, Mr John Brian, bu farw Mawrth 2013
**Ceredig**, Mr Huw, bu farw Ionawr 2013, (Ffiseg 1969)
**Dallison**, Miss Rachael Hannah, bu farw Mai 2013 (Gwyddoniaeth Amgylcheddol 2012)
**David**, Mrs Pamela, née Pring, bu farw Awst 2013 (Botaneg 1962)
**Davies**, Mr Aneurin, bu farw Mawrth 2013, (Hanes 1947)
**Davies**, Ms Caroline Louise, née Williams, bu farw Awst 2013, (Hanes 1990)
**Davies**, Mrs Elizabeth Mary (Betty), née Herriman, bu farw Tachwedd 2013, (Hanes 1948)
**Davies**, Mrs Mary Cavell Llewelfryn, née Thomas, bu farw Awst 2013, (Cymraeg 1937)
**Davies**, Mr Mervyn, bu farw Rhagfyr 2013,
**Davis**, Mr John, bu farw Awst 2013, (Hanes)
**Derrick**, Mr Bruno Michael, bu farw Rhagfyr 2012, (Hanes 1985)
**El-Hosaini**, Dr Tarrick Samir, bu farw Gorffennaf 2013, (Bioleg 2009)
**Emmanuel**, Mr Clive Robert, bu farw Rhagfyr 2012 (1971)

# MYFYRWYR

## Melissa Bridge

Melissa Bridge, myfyrwraig ar ei blwyddyn olaf yn yr Adrannau Saesneg, ac Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, a fu farw ym Mai 2013. Meddai Dr Jamie Medhurst, pennaeth yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, "Dyma sioc enfawr i'r staff a'r myfyrwyr. Roedd Melissa yn fyfyrwraig boblogaidd, ac yn fawr ei pharch. Roedd pawb yn hoff ohoni a rhoddai o'i gorau yn ei hastudiaethau bob amser."


# STAFF

## Yr Athro Gareth Elwyn Jones, MBE, 1939-2013



Dechreuodd yr Athro Gareth Elwyn Jones ei yrfa yn Aberystwyth ym mis Hydref 1990 fel Athro mewn Addysg ac fe'i penodwyd yn Bennaeth yr Adran Addysg a Deon y Gyfadran Addysg yn Hydref 1991 hyd ei ymddeoliad oherwydd salwch ym mis Gorffennaf 1993. Roedd ei egni, ei ddiddordeb a'i frwdfrydedd diderfyn dros addysg yn gyffredinol, heb sôn am hanes, yn ysbrydoli pawb a'i hadwaenai ac a weithiai gydag ef. Roedd yn uchel ei barch, ac yn cefnogi myfyrwyr a chydweithwyr fel ei gilydd.

## Richard Iorwerth Isaac, 1918 – 2013



Ganwyd Richard Iorwerth Isaac yn 1918, ac ar wahân i gyfnod yn gwasanaethu yn y rhyfel, treuliodd ei fywyd i gyd yn Aberystwyth. Ar ôl graddio mewn Swoleg yn Aberystwyth, gwnaeth Richard ddefnydd da o'r hyn a ddysgodd yn ystod yr Ail Ryfel Byd pan ymunodd â Labordy Maes Malaria Corfflu Meddygol Brenhinol y Fyddin yn Nigeria, uned a oedd yn gyfrifol am ddiogelu milwyr ac awyrenwyr rhag malaria. Yn 1945 dychwelodd Richard i Aberystwyth a chyflawni swydd technegydd ymchwil. Ymddeolodd o'i swydd yn brif dechnegydd ym mis Hydref 1981.

## Ian Gulley, 1949 – 2013



Gweithiodd Ian Gulley fel cartograffydd mewn Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear am 25 mlynedd, gan addasu ei sgiliau fel dylunydd i ddatblygiadau mewn mapio cyfrifiadurol i gynhyrchu miloedd o fapiau hardd a diagramau sydd wedi darlunio monograffau ymchwil, gwerslyfrau ac erthyglau gwyddonol. Yn grefftwr rhadlon, preifat a diwyd, roedd Ian yn gydweithiwr gwerthfawr a bydd colled ar ei ôl, nid yn unig ymhlith y rhai oedd yn parchu ei waith, ond hefyd gan y rheiny a rannodd ei angerdd am gerddoriaeth ac sy'n cofio ei rôl yn sefydlu Clwb Gwerin Aber.

## David Causton, 1939 - 2013



Ymunodd Dr Causton â Phrifysgol Aberystwyth yn 1970 fel darlithydd mewn Botaneg. Cwblhaodd ddoethuriaeth yma yn 1967 a chyn dychwelyd i Aberystwyth yn 1970 bu'n gweithio fel Swyddog Gwyddonol yn Adran Ffisioleg Planhigion Canolfan Ymchwil East Malling ac yna fel Uwch Swyddog Gwyddonol yn adran Ystadegau Cangen Ymchwil y Comisiwn Coedwigaeth yn Roslin, yr Alban. Ymddeolodd Dr Causton yn 1997 ond parhaodd i weithio fel darlithydd rhan-amser yn IBERS tan fis Mai 2013.

## Howard Williams, 1926 – 2013

Daeth Howard yn dechnegydd yn yr Adran Ddaearyddiaeth yn 1956, a'i ddyrchafu'n uwch-dechnegydd yn 1964 cyn ymddeol yn 1985. Roedd yn bysgotwr plu a cherddor o fri, a bu'n rhoi gwers piano i nifer o blant lleol ymhell ar ôl iddo ymddeol.

## Lynda Rollason, 1946 - 2013



Ymunodd Lynda â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn 1998 a daeth yn Rheolwr Lleoliadau y Brifysgol ar gyfer Cymru Prosper Wales ac ar ôl hynny ar gyfer GO Wales. Roedd Lynda yn aelod staff poblogaidd ac uchel ei pharch, a byddai bob amser yn mynd allan o'i ffordd i gefnogi myfyrwyr, cydweithwyr a chyflogwyr fel ei gilydd, a chaiff ei chofio'n annwyl am ei hegni a'i bwrdfrydedd diddiwedd yn ei gwaith.

**Gillham** MBE, Dr Mary Eleanor, bu farw Mawrth 2013 (Amaethyddiaeth)
**Grenby**, Dr Trevor Hilary, bu farw Gorffennaf 2013 (Cemeg a Cemeg Amaethyddol 1955)
**Harding Roberts**, Ms Mair Elizabeth, bu farw Rhagfyr 2012, (Cymraeg 2005)
**Harris**, Mrs F Greta, née Thomas, bu farw Gorffennaf 2013 (Lladin a Groeg 1939)
**Harris**, Mr Stuart A, bu farw Medi 2013, (Cyfrifeg a Chyllid 1991)
**Hemming**, Ms Lyn Tracey, bu farw Ionawr 2013 (Botaneg 1992)
**Isaac**, Dr Philip John, bu farw Hydref 2013 (Ffiseg 1953)
**Isherwood**, Mrs Molly, née Tyvold, bu farw Mawrth 2013 (Botaneg Amaethyddol a Godro)
**Jackson**, Mr Harry Alexander Graham, bu farw Ionawr 2011 (Astudiaethau Busnes)
**Jardine**, Mr Malcolm, bu farw Gorffennaf 2013, (Gwleidyddiaeth Ryngwladol 1984)
**John**, Ms Susan Catherine, bu farw Mehefin 2013 (Botaneg a Sŵoleg 1976)
**Jones**, Mrs Diane Christine, née Williams, bu farw Chwefror 2012 (Hanes 1967)
**Jones**, Mr Rhys Mostyn Jenkins, bu farw Chwefror 2012, (Daeryddiaeth 1950)
**Jones**, Mr Haydn Davies, bu farw Awst 2012 (1947)
**Jones**, Mrs Doris, bu farw Rhagfyr 2012
**Jones**, Mr Rhodri Wynne, bu farw Ebrill 2013, (Drama 1989)
**Jones**, Mrs Sian Ilar Beynon, née Davies, bu farw Mai 2013, (Addysg 1975)
**Jones**, Mrs Joan, née Parker, bu farw Gorffennaf 2013, (1945)
**Lawson**, Dr Robert Peter, bu farw Medi 2012 (Cemeg 1978)
**Lewis**, Mr Alexander Cedwyn John, bu farw Ebrill 2013 (Biocemeg 2002)
**Lewis**, Mr Geinor Bevan, bu farw Tachwedd 2013 (Daearyddiaeth 1950)
**Leyshon**, Mr John Mostyn, bu farw Awst 2013 (Daeareg ac Botaneg 1961)
**Lythe**, Mr Tony, bu farw Mawrth 2013 (Saesneg ac Astudiaethau Americanaidd 1966)
**Medley**, Ms Frances Victoria, bu farw Medi 2013 (Economeg Amaethyddol 1990)
**Middendorf**, Mr Julian Paul, bu farw Mawrth 2013 (Drama 2003)
**Moore**, Dr Lynne, née MacDonald, bu farw Rhagfyr 2011 (Sŵoleg 1973)
**Morgan**, Mrs Doreen, née Robinson, bu farw Tachwedd 2012 (Economeg Amaethyddol 1951)

## Iona Jones



Ymunodd Iona Jones â'r Brifysgol fel ysgrifenyddes, gan barhau yn ei gwaith tan ei hymddeoliad yn 2004. Gweithiodd yn ddiflino a bu'n driw i'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu am 12 mlynedd a bydd aelodau staff a chyn-fyfyrwyr yn gweld ei heisiau gan fod ganddynt oll atgofion da o'i gofal a'i chefnogaeth i bawb. Byddai'n aml yn dadlau achos myfyrwyr a fyddai'n cyflwyno gwaith yn hwyr neu a fyddai heb fynychu darlithoedd – 'Ond mae hi'n ferch hyfryd, Jamie!' – gan wneud hynny â gwir anwylder a gofal.

## Rowland Maddock, 1937-2012




Graddiodd Rowland Maddock, a oedd yn hanu o dde Cymru, o Brifysgol Cymru a bu'n dysgu Economeg yn Aberystwyth, Keele a Chaerhirfryn cyn symud i'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn Aberystwyth, lle'r oedd yn ddarlithydd ac yn uwch ddarlithydd. Roedd yn arbenigwr ar agweddau economaidd ar Gysylltiadau Rhyngwladol a materion amgylcheddol byd-eang. Ar ôl ymddeol o'r Brifysgol bu'n arholwr allanol i fodiwlau cyfrwng Cymraeg yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Mae gan ei gyn gydweithwyr yn y Brifysgol atgofion melys iawn amdano fel cydweithiwr gwych a dyn hynod garedig a hynaws.

## Ifan Moelwyn Hughes, 1931-2013



Enillodd Ifan Moelwyn Hughes radd Ffiseg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 1954. Ar ôl gweithio am rai blynyddoedd yn Llundain, daeth Ifan yn ôl i Gymru yn 1970 ac fe'i penodwyd yn bennaeth ar yr Uned Gyfrifiaduron ar adeg pan oedd cyfrifiadureg yn prysur ddatblygu. Daeth Ifan ag arbenigedd i'w swydd ac roedd yn un da am nodi tueddiadau newydd. Pan ymddeolodd yn 1996 gadawodd system dipyn yn fwy o ran maint a chymhlethdod na'r hyn a oedd yno ar y dechrau yn y 1960au. Dros sawl degawd, rhoddodd Ifan yn hael o'i amser i Gymdeithas Cyn-fyfyrwyr Aberystwyth a chapeli Seilo a'r Morfa, a bu'n aelod hefyd o gyngor Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

## Gillian Price, 1949 - 2012



Enillodd Gillian radd Cyfrifiadureg o Brifysgol Aberystwyth yn 1986. Ymunodd â'r Brifysgol yn aelod o'r staff yn 1991, a bu'n gweithio yn y Gwasanaethau Gwybodaeth am flynyddoedd lawer, cyn symud i 'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr lle bu hi'n cefnogi myfyrwyr anabl o 2009 hyd 2011. Ar ôl hynny dychwelodd i'r Adran Gyfrifiadureg nes iddi gael ei tharo'n ddifrifol wael yn haf 2012. Roedd pawb a fu'n gweithio gyda Gill yn rhyfeddu at ei hymroddiad i sicrhau'r profiadau gorau posibl i'n myfyrwyr. Roedd pob man lle byddai'n gweithio yn elwa o'i hymroddiad a'i phroffesiynoldeb.

## Dr John Trethewey, 1932 - 2013



Darlithydd yn yr Adran Ffrangeg oedd Dr John Trethewey ac ar ôl hynny yn yr Adran Ieithoedd Ewropeaidd o 1970 hyd ei ymddeoliad cynnar yn 1993, ac yna daliodd ati i ddarlithio'n rhan amser am rai blynyddoedd. Roedd John yn arbenigwr ar theatr yr ail ganrif ar bymtheg a llenyddiaeth Ffrengig yr ail ganrif ar bymtheg; roedd hefyd yn gerddwr brwd ac yn arbennig o hoff o gerddoriaeth jazz ac yn ddarlithydd poblogaidd a ffraeth.

## Tony Landeg, 1943 – 2013

Gweithiodd Tony Landeg yn Swyddfa Gyllid y Brifysgol am nifer o flynyddoedd, gan fanteisio ar y cyfle i astudio ar gyfer MBA a ddyfarnwyd iddo yn 1993. Bu Tony Landeg yn gweithio yn Swyddfa Gyllid y Brifysgol o 1986 tan ei ymddeoliad yn 2008. Dechreuodd fel Pennaeth y Swyddfa Incwm, ac yn ddiweddarach bu'n gyfrifol am yr Adran Grantiau Ymchwil a Chontractau, yn ogystal â gweithredu fel cyswllt y Swyddfa Gyllid â meysydd eraill megis Canolfan y Celfyddydau a'r Neuaddau Preswyl. Yn aelod o staff uchel ei barch, roedd modd dibynnu arno ym mhob sefyllfa. Bydd colled fawr ar ei ôl.

Mae'n falch gennym gadarnhau bod **Mr Brian Alexander Dingwall** (Y Gyfraith 1988) y rhestrwyd ei enw trwy gamgymeriad yng ngholofn deyrngedau PROM 20 yn fyw ac yn iach o hyd. Ymddiheurwn i Brian, ei deulu a'i ffrindiau.

**Morris**, Mr Huw, bu farw Awst 2013 (Saesneg ac Astudiaethau Americanaidd 1979)
**Nicholas**, Mr Jâms, bu farw Medi 2013 (1952)
**Owen**, Mr Richard Morgan, bu farw Mai 2013 (Y Gyfraith 1963)
**Owen**, Mrs Gwenllian Nest, née Hughes, bu farw Awst 2013 (Daearyddiaeth 1952)
**Owen**, Dr Sian, née Williams, bu farw Hydref 2013 (Ffiseg 1986)
**Parsons**, Ms Amanda Jennifer Penelope, née Evans, bu farw Ionawr 2011 (Astudiaethau Crefydd ac Addysg 1978)
**Pierce**, Mr Kenneth Douglas, bu farw Rhagfyr 2012 (Celf ac Hanes 1971)
**Pryce-Jones**, Dr Trevor, bu farw Medi 2012 (Cemeg 1960)
**Raw-Rees**, Mrs G E Anne, née Evans, bu farw Ebrill 2012 (Economeg 1954)
**Rees**, Mrs Barbara Challice, née James, bu farw Chwefror 2013, (Y Gyfraith 1946)
**Richards**, Mr David John Einon, bu farw Ionawr 2011 (Mathemateg a Ffiseg 1952)
**Richards**, Mrs Margaret Elizabeth, bu farw Gorffennaf 2013, (Y Gyfraith 1953)
**Roberts**, Mrs Joyce Mary, née Lewis, bu farw Mehefin 2013 (Lladin, Athroniaeth ac Addysg 1954)
**Rowe**, Mr Adam David, bu farw Hydref 2012 (Astudiaethau Clasurol a Saesneg 1991)
**Scanlon**, Mr Sean Patrick, bu farw Awst 2013 (Bioleg)
**Shaw**, Dr James Howard, bu farw Rhagfyr 2012 (Almaeneg 1967)
**Sherrington**, Mr Emlyn, bu farw Ionawr 2013
**Thomas**, Mrs Heulwen Mills, née Morgan, bu farw Chwefror 2013 (Cymraeg 1945)
**Trevena**, Dr David Henry, bu farw Awst 2013 (Ffiseg 1947)
**Williams**, Mr Arwel John, bu farw Rhagfyr 2011 (1967)
**Williams**, Lady Edythe Joan, née Bevan, bu farw Tachwedd 2012 (Cymraeg 1946)
**Williams**, Miss Menai, bu farw Ionawr 2013
**Williams**, Mr David Wynne, bu farw Chwefror 2013 (Sŵoleg)
**Williams**, Dr Ronald J H, bu farw Mehefin 2013 (Biocemeg Agri Biochem 1962)
**Wilson**, Mrs Pamela, née Beattie, bu farw Mai 2012 (Botaneg 1981)
**Woodhouse**, Mr Brian, bu farw Ebrill 2013 (Ystadegau 1976)

# Silff lyfrau

*Amlinelliad yn unig a geir yma o rai o'r llyfrau niferus a gafwyd gan ysgolheigion Aber yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.*



## Fighting the Mau Mau: the British Army and Counter-Insurgency in the Kenya Emergency

**Huw Bennett, Gwleidyddiaeth Ryngwladol**

Yn ôl pob sôn, byddai ymgyrchoedd gwrthryfelgarwch yn cael eu cynnal o fewn i ffiniau cyfraith ryngwladol, gan oresgyn gwrthryfelwyr â'r grym lleiaf posibl. Mae'r astudiaeth ddadlennol hon yn cwestiynu'r hyn a olygai ar gyfer y boblogaeth sifil yn ystod gwrthryfel y Mau Mau yn Kenya yn y 1950au.




## Performing Violence: Literary and Theatrical Experiments of New Russian Drama

**Birgit Beumers, Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu a M Lipovetsky**


Dechreuodd y 'Ddrama Rwsiaidd Newydd' ddod i'r amlwg tua diwedd yr ugeinfed ganrif. Mae'r gyfrol hon yn archwilio'r modd y cynrychiolir trais yn y gweithiau dramataidd newydd hyn ac yn chwilio am lecyn manteisiol ar gyfer dadansoddi creulondeb yn niwylliant ôl-Sofietaidd.



## The Vulnerable in International Society

**Ian Clark, Gwleidyddiaeth Ryngwladol**

Daw'r llyfr hwn â safbwynt 'cymdeithas ryngwladol' tuag at ddeall natur y rheiny sy'n agored i niwed. Mae'n dangos y ffyrdd y mae'r gymdeithas ryngwladol yn cyfrannu at greu pobl sy'n agored i niwed ym meysydd trais gwleidyddol, newid hinsawdd, symudiadau dyn ac iechyd byd-eang.




## Lygad yn Llygad

**Huw Edwards, Cymraeg**


Bu cryn ddisgwyl am y gyfrol hon sef cyfrol gyntaf y bardd Huw Meirion Edwards a enillodd Gadair Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd a'r Cylch 2004. Meddai'r bardd Dafydd Pritchard am Lygad yn Llygad, "Gellir gwneud dau honiad am Huw Meirion: mae o'n grefftwr ac mae o'n delynegwr. Mae hon yn gyfrol ragorol."




## Muscovy

**Matthew Francis, Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol**


Casgliad o gerddi sy'n cynnwys hanesion a thelynegion personol. Mae pedwerydd casgliad Matthew Francis gyda'r cyhoeddwr Faber yn archwilio byd o ryfeddodau, real a rhyfeddol. Daw pleserau'r byd a'r dychymyg at ei gilydd wrth i Francis lawenhau ym mhosibiliadau'r iaith.



## Rescaling the state: Devolution and the geographies of economic governance

**Martin Jones, Rhys Jones a Mark Goodwin, Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear**

Mae'r gyfrol hon yn cynnig hanes deallus am y broses ddatganoli a gafwyd yn y DG ers 1997, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ddatganoli rheolaeth economaidd. Gan ddefnyddio astudiaethau achos mae'r llyfr yn archwilio'r rhesymau dros ddatganoli, a'i goblygiadau anfwriadol.



## Counter-Terrorism Networks in the European Union: Maintaining Democratic Legitimacy after 9/11

**Claudia Hillebrand, Gwleidyddiaeth Ryngwladol**

Mae'r llyfr hwn yn archwilio'r heriau i gyfreithlonrwydd democrataidd gan arferion cyfredol plismona gwrth-derfysgaeth yr UE. Yr hyn sydd dan sylw yw'r cydweithredu rhyngwladol cynyddol rhwng yr heddlu a gweithredwyr cudd-wybodaeth yn y maes hwn, gan ddadansoddi i ba raddau y mae dulliau atebolrwydd traddodiadol yn dilyn y datblygiad hwn.




## The Elect Methodists: Calvinistic Methodism in England and Wales, 1735-1811

**David Ceri Jones ac Erin Mant White, Hanes a Hanes Cymru**

Mae'r astudiaeth hir gyntaf hon o Fethodistiaeth Galfinaidd, sef mudiad a ddaeth i'r amlwg yn y ddeunawfed ganrif fel dewis arall i'r gangen Wesleaidd fwy adnabyddus, yn dilyn hynt a hanes y gangen Galfinaidd yng Nghymru a Lloegr.



## Changing Behaviours: On the Rise of the Psychological State

**Rhys Jones a Mark Whitehead, Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear**

Gan olrhain dylanwad y gwyddorau ymddygiadol ar lunwyr polisi Whitehall, mae'r llyfr hwn yn dadansoddi'r modd y caiff y gwrthrych dynol ei hun ei ddychmygu o'r newydd drwy newid ymddygiad, ac yn datblygu fframwaith dadansoddol ar gyfer gwerthuso newid ymddygiad.



## Russia's International Relations in the Twentieth Century

**Alastair Kocho-Williams, Hanes a Hanes Cymru**

Gan gwmpasu'r ugeinfed ganrif ar ei hyd, mae'r llyfr hwn yn gyflwyniad i ddatblygiad Rwsia Fodern mewn cyd-destun rhyngwladol, drwy gyfrwng y cwestiynau allweddol sy'n berthnasol i ddatblygiad ôl-Sofietaidd Rwsia drwy gydol y ganrif.



## Democratic Futures: Revisioning democracy promotion

**Milja Kurki, Gwleidyddiaeth Ryngwladol**

Bu hyrwyddo democratiaeth yn bolisi dylanwadol mewn sawl gwladwriaeth yn y Gorllewin, mudiadau rhyngwladol a gweithredwyr cyrff anllywodraethol. Ond pa fathau o fodelau o ddemocratiaeth a hyrwyddir? Mae'r gwaith hwn yn archwilio'r gorchmynion cysyniadol sydd wrth wraidd gweithgarwch cynnal democratiaeth, a'r cysyniadau y mae hyrwyddwyr democratiaeth yn gweithio â nhw.



## Seals in Context: Medieval Wales and the Welsh Marches

**John McEwan, Elizabeth New a Phillipp Schofield, Hanes a Hanes Cymru**

Mae'r gyfrol hon, a gyhoeddwyd mewn cysylltiad â'r arddangosfa o'r un enw a gynhaliwyd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru rhwng Ebrill a Medi 2012, yn amlygu'r ystod o seliau o bob rhan o Gymru a'r Mers sydd wedi goroesi.



## Global Health and International Relations

**Colin John McInnes, Gwleidyddiaeth Ryngwladol**


Mae'r llyfr hwn yn torri tir newydd wrth annog darllenwyr i gamu'n ôl oddi wrth ddatrys problemau i holi sut y mae cynifer o broblemau yn cael eu creu o iechyd byd-eang yn y lle cyntaf, paham y mae agendâu a phynciau penodol yn cael eu blaenoriaethu, a beth sy'n pennu'r atebion posibl a gyflwynir i ymdrin â nhw?



## Evolutionary Linguistics

**April McMahon a Robert McMahon, Swyddfa'r Is-Ganghellor, Ieithoedd Ewropeaidd, Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes**


Sut y gwnaeth y strwythurau biolegol, ymddygiadol a'r ymennydd sydd wrth wraidd ieithoedd dyn esblygu? Pa bryd, paham ac ym mha le y daeth ein cyndeidiau yn anifeiliaid ieithyddol a beth sydd wedi digwydd ers hynny? Mae'r llyfr hwn, a ysgrifennwyd mewn arddull agosatoch, yn cynnig cyflwyniad cynhwysfawr ond bywiog i'r ddadl.



## Mobility, Space and Culture

**Peter Merriman, Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear**

Mae'r llyfr hwn yn gyfraniad pwysig ac amserol i bryderon y dydd ynghylch symudedd yn y gwyddorau cymdeithasol a'r dyniaethau, gan roi gwerthusiad beirniadol o'r berthynas rhwng 'symudedd' a 'lle/safle', a chan ail-lunio lleoedd fel ffurfiadau proses, agored a gofodol ddeinamig.



## Sydney Lee: Prints: A Catalogue Raisonné

**Robert Meyrick, Ysgol Gelf**


Mae Sydney Lee yn un o arlunwyr-llunwyr printiadau Prydain na chafodd ei werthfawrogi'n iawn ac a wnaeth lawer i ddatblygu llunio printiadau fel math o gelfyddyd fynegol wreiddiol, gan wthio ffiniau arferion traddodiadol. Hyd yma, ni chafodd ei brintiadau eu catalogio ac ni chafwyd fawr ddim gwerthuso beirniadol ar ei gyfraniad i gelfyddyd Prydain.



## British Films of the 1970s

**Paul Newland, Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu**


Mae'r llyfr hwn yn cynnig cipolwg ffres ar amrywiaeth o ffilmiau Prydeinig y cyfnod hwn, gan ganolbwyntio ar ddiwylliant gwneud ffilmiau'r cyfnod, a natur ddarniog y genedl y mae'r ffilmiau hyn yn ei chynrychioli. Dangosir bod y 1970au yn gyfnod o frwydro ac ansefydlogrwydd yn ogystal â chyfnod o syniadau newydd a newidiadau mawr.



## Claiming the Streets: Processions and Urban Culture in South Wales, c.1830-1880

**Paul O'Leary, Hanes a Hanes Cymru**

Roedd gorymdeithio ar y stryd yn nodwedd amlwg o fywyd pob tref Fictorianaidd; roedd y gorymdeithiau yn amrywiol ac yn digwydd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae'r llyfr hwn yn archwilio sut y creodd cymunedau trefol Cymru Oes Fictoria hunaniaethau dinesig cynhwysol wrth ddefnyddio'r strydoedd ar gyfer gorymdeithiau heddychlon.



## The UN Committee on Economic, Social and Cultural Rights: Legal and Procedural Issues

**Marco Odello, Y Gyfraith a Throseddeg**

Mae'r llyfr hwn yn ystyried goblygiadau posibl gwaith y Pwyllgor hwn ar Bwyllgorau eraill y Cenhedloedd Unedig, megis y Pwyllgor Hawliau Dynol a Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn ogystal ag ystyried effaith ei waith ar warchod hawliau sylfaenol yn rhyngwladol.



## Popular Reading in English Evidence and Experience c 1400-1600

**Elisabeth Salter, Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol**

Mae'r llyfr hwn yn canolbwyntio ar y mathau o lenyddiaeth a oedd ar gael yn hawdd i sbectrwm ehangaf y boblogaeth, ac yn seiliedig ar ddarllenwyr go-iawn yn hytrach na dychmygol. Mae Salter yn ceisio deall yn well sut y byddai pobl wedi darllen a'r hyn y byddent o bosibl wedi ei ddarllen.



## Losing an Empire and Finding a Role: Britain, the USA, NATO and Nuclear Weapons, 1964-70

**Kristan Stoddart, Gwleidyddiaeth Ryngwladol**

Mae'r llyfr hwn yn taflu goleuni newydd ar ddatblygiadau polisi arfau niwclear Prydain rhwng Hydref 1964, pan ddaeth y Blaid Lafur yn ôl i rym o dan Harold Wilson yn dilyn absenoldeb o dair blynedd ar ddeg, a Mehefin 1970 pan etholwyd llywodraeth Geidwadol Edward Heath.



## Literary Ghosts from the Victorians to Modernism: The Haunting Interval

**Luke Thurston, Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol**

Mae'r llyfr hwn yn ail-leoli'r stori ysbryd fel pwnc o letygarwch llenyddol ac fel rhan o gyn-hanes hanfodol i foderniaeth, gan ei hystyried yn ymateb llenyddol grymus i'r cythrwfwl technolegol a seicolegol a gafwyd ar ddiwedd y cyfnod Fictorianaidd, yn hytrach nag addurn neo-Gothig rhyfedd.



## Cleddyf ym mrwydr yr iaith?: Y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg


**Kate Woodward, Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu**

Sefydlwyd y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg yn un ymdrech arloesol ymhlith nifer i geisio diogelu a grymuso'r iaith drwy ddulliau diwylliannol. Mae'r gyfrol hon yn gwyntyllu hanes y Bwrdd fel rhan o'r frwydr i ddiogelu a gwarchod yr iaith Gymraeg a'r ysfa i sicrhau parhad iddi.

# Penodiadau

*Mae gennym lawer o resymau i ddathlu llwyddiannau cyn-fyfyrwyr, staff a myfyrwyr Aberystwyth. Dim ond detholiad o'r llwyddiannau hyn sydd yma; llongyfarchiadau i bawb ar eu llwyddiannau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.*

## Prifysgol Aberystwyth




Penodwyd **Dr Rhodri Llwyd Morgan** yn Ddirprwy Is-Ganghellor gyda chyfrifoldeb dros y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol.



Penodwyd **yr Athro Chris Thomas** yn Ddirprwy Is-Ganghellor gyda chyfrifoldeb dros Ymchwil a Sicrhau Ansawdd.


## Heads of Department



**Dr Cathryn Charnell-White**, Y Gymraeg




**Yr Athro Rhys Jones**, Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear



**Dr Jenny Mathers**, Gwleidyddiaeth Ryngwladol




**Yr Athro Steven McGuire**, Yr Ysgol Rheolaeth a Busnes



**Gary Reed**, Cyfarwyddwr Ymchwil, Busnes ac Arloesi




**Dr Elisabeth Salter**, Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol




Ac yng Nghanolfan Celfyddydau Aberystwyth y Cyfarwyddwr newydd yw **Gareth Lloyd Roberts**


## Cadeiriau personol



**Yr Athro Kate Bullen**
Yr Adran Seicoleg



**Yr Athro Henry Lamb**
Yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear




**Yr Athro Robert Meyrick**
Yr Ysgol Gelf



**Yr Athro Nick Perdikis**
Yr Ysgol Busnes a Rheolaeth



**Yr Athro Heike Roms**
Yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu



**Yr Athro Mark Whitehead**
Yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear




Crëwyd dwy Gadair newydd i hyrwyddo ymgysylltu â'r gwyddorau a dychymyg y cyhoedd. **Yr Athro Richard Marggraf Turley** yw Athro Ymgysylltu â Dychymyg y Cyhoedd a'r **Athro Nigel Scollan** yw'r Athro Ymgysylltu â'r Cyhoedd gyda Gwyddoniaeth. Gweler y cyfweliad ar dudalen 20 am ragor o wybodaeth am y swyddi newydd hyn.

## A thu hwnt i Brifysgol Aberystwyth



Penodwyd **Judith Diment** (Daeareg a Daearyddiaeth 1967) yn Gadeirydd Pwyllgor Eiriolaeth Polio Byd-eang Rotari Rhyngwladol, sy'n gweithio i ddileu polio ar draws y byd.




Penodwyd yr arbenigydd ar drosglwyddo technoleg yn yr adran Ymchwil Busnes ac Arloesi yn Aberystwyth, **Dr Rhian Hayward**, yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.



Penodwyd y cyn-fyfyriwr Americanaidd **Yr Athro Jerry Hunter** (Cymraeg 1989) yn Ddirprwy Is-Ganghellor dros Faterion Cyfrwng Cymraeg ac a Chysylltiadau â'r Gymuned ym Mhrifysgol Bangor.


Penodwyd **Kelly Hynes**, (Y Gyfraith 2004) yn Ddirprwy Farnwr Rhanbarth yng ngogledd Cymru, o bosib y Dirprwy Farnwr Rhanbarth ieuengaf ym Mhrydain.




Penodwyd **yr Athro Aled Gruffydd Jones**, cyn Ddirprwy Is-Ganghellor a Phennaeth Adran y Gymraeg yn Aber, yn Brif Weithredwr a Llyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru.




Penodwyd **yr Athro Martin Jones**, cyn Ddirprwy Is-Ganghellor, yn Gyfarwyddwr y White Rose Social Science Doctoral Training Centre, sef prosiect cydweithredol ar draws y gwyddorau cymdeithasol ym Mhrifysgolion Leeds, Sheffield a Chaerefrog.




Etholwyd y darlithydd mewn ymddygiad anifeiliaid, **Dr Rupert Marshall**, yn aelod o gyngor llywodraethu'r Gymdeithas Ryngwladol er Astudio Ymddygiad Anifeiliaid.



Penodwyd **yr Athro Wayne Powell**, cyn Gyfarwyddwr y Sefydliad Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, yn Brif Swyddog Gwyddonol Consortiwm CGIAR sy'n bartneriaeth fyd-eang yn uno sefydliadau sy'n ymwneud ag ymchwil ar gyfer dyfodol â sicrwydd bwyd.



Penodwyd **Cheryl Martinez Thibodeau** (Celf 2004) yn Gyfarwyddwr cyntaf ar gyfer Cysylltiadau Corfforaethol a Sefydliadol ym Mhrifysgol Clayton State yn Georgia, UDA.




Etholwyd **yr Athro David Trotter**, Pennaeth yr Adran Ieithoedd Ewropeaidd, yn Llywydd y *Société de Linguistique Romane* ar gyfer 2013-16, dim ond yr ail academydd o Brydain i gael ei anrhydeddu yn y fath fodd. Sefydlwyd y *Société de Linguistique Romane* ym 1924 ac mae'n un o'r cymdeithasau dysgedig rhyngwladol pwysicaf a mwyaf nodedig ar gyfer yr ieithoedd Romawns.

# Athrofeydd Newydd

**Ym mis Chwefror 2013, lansiodd Prifysgol Aberystwyth ei chynllun strategol am 2012-2017, (www.aber.ac.uk/strategicplan) i sicrhau bod Aber yn cadw'r nodweddion arbennig sy'n rhoi lle pwysig iddi yng nghalonnau ei myfyrwyr, ei staff a'i chyn-fyfyrwyr, a hefyd yn ei rhoi mewn sefyllfa i dyfu a gwneud y gorau o'i photensial.**
Y nod cyffredinol a eglurir yn fanwl yn y Cynllun yw sicrhau bod Aberystwyth yn cael ei gosod yn gyson ymhlith y 30 prifysgol orau yn y Deyrnas Gyfunol, a'r 250 orau yn y byd erbyn 2017.

Un o heriau strategol mwyaf y Brifysgol yw grwpio'r ddwy adran academaidd ar bymtheg yn saith o Athrofeydd rhyngddisgyblaethol. Bydd yr adrannau academaidd yn parhau i ddarparu eu haddysg a'u hymchwil rhagorol yn eu meysydd pwnc, ond byddant nawr mewn gwell sefyllfa i fanteisio ar weithio ochr yn ochr â disgyblaethau cyflenwol yn eu Hathrofa dan strwythur reoli symlach.



### Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig

Sefydlwyd rai blynyddoedd yn ôl trwy ddod â'r adrannau Bioleg a Gwyddorau Gwledig at ei gilydd gydag IGER, y sefydliad ymchwil glaswelltir yng Ngogerddan. **Cyfarwyddwr dros dro:** Yr Athro Chris Thomas




### Athrofa Addysg, Datblygiad Proffesiynol a Graddedigion

Yr Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes, y Gwasanaeth Gyrfaoedd, y Ganolfan Saesneg Ryngwladol, Cymorth Dysgu, y Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd, ac Ysgol y Graddedigion. **Cyfarwyddwr:** Yr Athro Tim Woods




### Athrofa Daearyddiaeth, Hanes a Gwleidyddiaeth

Adrannau Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Hanes a Hanes Cymru a Gwleidyddiaeth Ryngwladol. **Cyfarwyddwr:** Yr Athro Neil Glasser



### Athrofa Gwyddorau Dynol

Yr Adrannau Seicoleg a Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff. **Cyfarwyddwr:** Yr Athro Kate Bullen



### Athrofa Llenyddiaeth, Ieithoedd a'r Celfyddydau Creadigol

Adrannau Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, Ieithoedd Ewropeaidd, Yr Ysgol Gelf ac Adran y Gymraeg a'r Ieithoedd Celtaidd. Mae'r Athrofa hefyd yn cynnwys Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth a Chanolfan Gerdd Prifysgol Aberystwyth. **Cyfarwyddwr:** Yr Athro Sarah Prescott



### Athrofa Rheolaeth, y Gyfraith a Gwyddor Gwybodaeth

Adrannau'r Gyfraith a Throseddeg, Astudiaethau Gwybodaeth a'r Ysgol Rheolaeth a Busnes. **Cyfarwyddwr:** Yr Athro Andrew Henley



### Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg

Adrannau Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg. **Cyfarwyddwr:** Yr Athro Qiang Shen.

# Gwobrau a Llwyddiannau



Enillodd **Owen Ashton** (Amaeth 2013) deitl Myfyriwr Llaeth y Flwyddyn yn ei flwyddyn olaf. Cyflwynwyd gwobr ariannol o £1,000 iddo mewn seremoni wobrwyo yn Llundain a chafodd y Brifysgol £500 at brosiect addysgol ym maes llaeth. Owen oedd yr unig ymgeisydd nad oedd yn dod o gefndir ffermio, a'i obaith yw sefydlu cytundeb cyd-fenter o fewn y deng mlynedd nesaf.



Dyrchafwyd **yr Athro Syr George Berwick** CBE (Addysg 1971) yn farchog yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd am ei wasanaethau i addysg fel pennaeth gweithredol Ysgol Ravens Wood yn ardal Bromley ac am gefnogi 30 o ysgolion eraill drwy gynllun London Challenge a helpu i greu model Ysgolion Addysgu.

Dyrchafwyd **Nick Bourne** (Y Gyfraith 1973 a 1976), cyn arweinydd y Ceidwadwyr yng Nghynulliad Cymru, i Dŷ'r Arglwyddi ym mis Awst.



*Richard Body*

Dyfarnwyd MBE i **Richard Body** (Cyfrifiadureg ac Ystadegau 1988) yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines am wasanaethau i'r diwydiant hydrodrydanol gyda'i waith gwirfoddol i Torrs Hydro New Mills Ltd - y cynllun hydrodrydanol cyntaf yn y wlad i fod yn eiddo i'r gymuned a'i gyllido ganddi.

# Gwobrau a llwyddiannau (parhad)

Llongyfarchiadau i **Alan Cole** (Daeareg 1997), triathletwr y DG ac aelod o staff yn Aber a enillodd Fedal Aur ym Mhencampwriaethau Grŵp Oedran Triathlon Ewrop a gynhaliwyd yn Nhwrci ym mis Mehefin 2013.


*Alan Cole*

Dyfarnwyd Cymrodoriaeth Windsor mewn Celfyddyd Gain i **Vivian Ezugha**, myfyriwr cyfredol yn yr Ysgol Gelf, sef rhaglen o ddatblygiad proffesiynol a phersonol dros flwyddyn i israddedigion du a lleiafrif ethnig sy'n ymrwymo i weithio yng Nghymru.


Vivian Ezugha

Dyfarnwyd Gwobr Gwasanaeth Nodedig y Gymdeithas GeoCemeg Ryngwladol 2012-2013 i **Dr Ron Fuge** (Cemeg a Daeareg 1964 i 1976, ac aelod o staff)



Ron Fuge

Enillodd **Sarah Hall**, (Saesneg a Hanes Celf, 1995), Wobr Stori Fer Genedlaethol y BBC 2013 gyda'i stori *Mrs Fox*, a chafodd ei henwi'n un o ugain nofelydd gorau Prydain yn rhestr cylchgrawn *Granta* sy'n ymddangos unwaith bob degawd.


Caryl Hughes

**Caryl Hughes** (Amaeth 2012) yw enillydd cyntaf ysgoloriaeth Llyndy Isaf yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Caryl fydd yn gyfrifol am y fferm ucheldir 614 erw eiconig yn Eryri a achubwyd i'r genedl drwy Apêl Eryri'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn 2012.

**Glesni Haf Jones** (Cymraeg a Drama 2007) oedd enillydd y Fedal Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych 2013.



Glesni Haf Jones

**Llion Jones** (Cymraeg 1985) enillodd wobr Dewis y Bobl yng nghystadleuaeth Llyfr Cymraeg y Flwyddyn 2013 am ei waith *Trydar Mewn Trawiadau*.

Yr aelod staff a'r bardd, **Jemma L King**, yw un o saith o awduron ar restr fer Gwobr lenyddol Dylan Thomas eleni sydd werth £30,000.


Stacey Melia

Enillodd **Stacey Melia**, (Sŵoleg 2013) Wobr Cymdeithas Adarwyr Cymru am y prosiect myfyriwr gorau am ei gwaith ar weilch a dylanwad ffactorau amgylcheddol ar eu harferion bwyta.




Roedd **Rhodri Meilir**, (Astudiaethau Theatr Ffilm a Theledu 2000) a **Michael Sheen**, OBE (Cymrawd 2012) ill dau yn y ras ar gyfer gwobr actor gorau yng Ngwobrau BAFTA Cymru 2013, gyda Michael Sheen yn fuddugol ar y noson.


Debbie Moon

Enwebwyd *Wolfblood*, drama i'r arddegau ar CBBC gan y gyn-fyfyrwraig **Debbie Moon** (Drama 1992) am bedair gwobr BAFTA Plant, gan gynnwys Awdur Gorau a Drama Orau.

Llongyfarchiadau i **Charles Nelson**, (Botaneg 1971), enillydd gwobr Cyfeirlyfr y Flwyddyn yng Ngwobrau Garden Media Guild 2012 am ei waith *Hardy Heathers from the Northern Hemisphere*.

**Eleanor Paish** (Sŵoleg 2013) oedd un o dri yn y ras ar gyfer gwobr Myfyriwr Bioleg y Flwyddyn yng Ngwobrau Peirianneg a Thechnoleg Wyddonol Ewrop 2013.


Eleanor Paish

Dyfarnwyd OBE i'r Athro **Judith Phillips** (Daearyddiaeth 1980) am wasanaethau i bobl hŷn yn rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines. Yr Athro Phillips yw Athro Gerontoleg Prifysgol Abertawe a chyfarwyddwr y Rhwydwaith Ymchwil a Datblygu Pobl Hŷn a Heneiddio yng Nghymru.


Judith Phillips

Cyflwynwyd Gwobr M Wynn Thomas sy'n dathlu ysgrifennu Cymreig yn Saesneg i ddwy aelod o'r adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, yr Athro **Sarah Prescott** a Dr **Mary Chadwick**, gyda Sarah yn ennill y wobr Agored a Mary y categori Ysgolheigion Newydd.

Enwyd **Francis Prior**, sydd ar hyn o bryd yn fyfyriwr yn IBERS, yn Ffotograffydd Ifanc y Flwyddyn yng ngwobrau'r RSPCA ym mis Rhagfyr 2012. *Gweler y clawr a thudalen 22 am ragor o wybodaeth am sgiliau Francis.*


Laura Wall

**Laura Wall**, (Astudiaethau Ffilm a Theledu gyda Chelf, 2006) enillodd y bleidlais am yr Artist Addawol Gorau 2013 yng Ngwobrau'r Fine Art Trade Guild, a chyrhaeddodd Laura hefyd rownd derfynol y People's Book Prize 2013 am ei phedwaredd gyfrol yn ei chyfres *Goose* i blant, *Goose Goes to the Zoo*.

Tra'r oedd yn dal i fod yn fyfyriwr daearyddiaeth ail flwyddyn yn Aberystwyth, daeth **Dave Webber** yn rheolwr tîm cyntaf clwb Dolgellau Athletic, gan olygu mai fe, yn 19 oed, oedd rheolwr ieuengaf tîm pêl-droed uwch yn hanes pêl-droed Prydain.

# O Banty i Bentan

## *Eurig Salisbury*

**Ddiwedd Awst y llynedd fe ddathlais fy mhen blwydd yn ddeg ar hugain.** Dwyn yr ugeiniau i ben ac, yn fuan wedyn, dod yn ŵr i Riannon. A chynefino hefyd â'r ffaith fod dros ddeng mlynedd wedi mynd heibio ers imi ddod i'r coleg yn Aberystwyth.

Ym mis Mai 2004, a minnau yn fy ail flwyddyn yn y coleg, roedd dathliadau pen blwydd eraill ar waith ar Riw Penglais. Roedd y neuadd breswyl a fu'n gartref imi am fy nwy flynedd gyntaf fel myfyriwr yn ddeg ar hugain oed y flwyddyn honno – Neuadd Pantycelyn, cartref ysbeidiol i gynifer o Gymry ifanc tanbaid ar hyd y blynyddoedd. Trefnwyd gig yn Undeb y Myfyrwyr … ond does gen i fawr ddim cof o'r noson honno, am ryw reswm!

Yr hyn y mae gen i gof da ohono yw'r hwyl a gefais i wrth lunio cywydd i ddathlu'r achlysur. Roeddwn i wedi cael cip ar gywydd arall tebyg gan Myrddin ap Dafydd, un o fyfyrwyr Pantycelyn ym mlynyddoedd cynnar y neuadd – roedd ei gerdd yn eistedd mewn ffrâm ar ddesg yn swyddfa Dilys. Roedd gen i awydd gosod fy stamp farddol fy hun ar y lle, a minnau wedi esgyn o stafell ddwbl fy mlwyddyn gyntaf ar y llawr isaf i stafell sengl ar yr ail lawr ym mhen draw eithaf yr adeilad.

Doedd y syniad o ganu cerdd i adeilad ddim yn ddieithr imi. Roeddwn i'n gyfarwydd ers dyddiau ysgol â chywydd enwog Iolo Goch i lys Owain Glyndŵr yn Sycharth, a bellach wrth astudio barddoniaeth yr Oesoedd Canol yn Adran y Gymraeg fe gefais i gyfle i fynd dan groen y traddodiad arbennig hwnnw. Roeddwn i hefyd yn ymwybodol fod nifer o feirdd cyfoes yn hoff o gymharu rhyw dafarn neu gartref digon di-sut â neuaddau a chestyll yr hen feirdd. Ond roedd Panty'n Neuadd go iawn, yn glamp o adeilad hir a solet y byddai Owain ei hun wedi bod yn fwy na balch ohono!

Roedd 2004 yn flwyddyn gyffrous i fyfyrwyr y neuadd. Ddechrau Mai y flwyddyn honno fe orymdeithiodd cannoedd o fyfyrwyr mewn protest er mwyn galw am addysg Gymraeg ar ffurf coleg ffederal – gweithredu a gyfrannodd at sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011. Hon oedd y seithfed protest mewn deng mis. Roedd UMCA a'r Geltaidd yn llawn bwrlwm a chynnwrf heriol – mor heriol, yn wir, fel na chafodd fy nghywydd i ei fframio! A Phantycelyn, yn naturiol, oedd canolbwynt yr holl asbri.

Ac eto roedd y neuadd yn hŷn na'i thrigolion. Doedd deg ar hugain yn golygu fawr ddim i mi, a minnau heb gyrraedd fy ugain oed – '*Yn dri deg mae'r anrhegion / Yn o sad, yn ôl y sôn, / Travel clocks a socs o'r sêl …*' Yn wahanol i'r rhan fwyaf o adeiladau, gallai Pantycelyn ymhyfrydu yn y ffaith fod ei hysbryd, ni waeth pa mor hen oedd ei meini, yn fythol ifanc – '*Nid yw Nawr yn mynd yn hen*'. A gallwn innau hefyd ymhyfrydu yn y ffaith fy mod i wedi cyfranogi ychydig o'r egni ifanc hwnnw am gyfnod bythgofiadwy -

> *Beth yw tranc? Ifanc yw'r co'*
> *Presennol, parhaus yno.*

Doedd gan y myfyriwr ail flwyddyn hwnnw a luniodd y gerdd ddim syniad fod ffenest ei stafell yng nghefn Pantycelyn yn wynebu'r adeilad lle byddai'n parhau i astudio barddoniaeth yr Oesoedd Canol ddeng mlynedd yn ddiweddarach. O ffenest fy swyddfa yn y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd bron na allaf weld, pan fo'r gaeaf wedi dwyn dail y coed i ffwrdd, rhyw rith ohonof i fy hun yn syllu draw. Fy ngobaith i yw y bydd pob darn o'r gobaith ifanc hwnnw a deimlais ym Mhantycelyn yn parhau i fyw ynof i. A hynny wrth imi ddechrau pennod newydd yng nghwmni merch y sbeciais arni am y tro cyntaf, nid ym Mhanty, ond mewn darlithfa yn yr Hen Goleg pan nad oedd geiriau'r traddodiad barddol, am unwaith, cweit mor ddeniadol!



*Eurig a'i wraig Rhiannon ar ddiwrnod eu priodas. Tynnwyd y llun yn y ddarlithfa lle cyfarfu'r ddau*



# Cicio'r Bar

*Llawn afiaith a sgertiau cwta* | *Russell Davies*

1974 **Blwyddyn llawn afiaith a sgertiau cwta.** Ond y fath flwyddyn i ganu pop – ‘*we were young, we had fun, we had seasons in the sun*’. Pan fu farw’r canwr, roedden ni yn ein dagrau. Aeth Leonard Cohen, David Bowie a Bob Dylan i deithio’r byd – ac mae eu taith yn parhau. Yng Nghymru, roedd ‘*Man*’ yn ein galw’n ‘*Rhinos, Winos and Lunatics*’ ac roedd dyn gyda chenhinen anferth yn fyw yn Nhreorci. *Duw it’s hard*. Sibrydwch e’n dawel, yn eisteddfod Caerfyrddin, bu Edward H, Ac Eraill a Sidan yn canu stori Nia Ben Aur, y ferch o Dir na nôg. Dyma’r agosaf i’r nefoedd rydyn ni’n debyg o gyrraedd, roedden ni’n ieuanc ac roedden ni’n cael hwyl.

Roedd hi’n flwyddyn dda i ferched. Drafftiwyd Deddfau Cyflog Cyfartal a Gwahaniaethu ar Sail Rhyw. Roedd cyfarpar atal cenhedlu i’w cael am ddim ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, dechreuodd gwasg Virago ac agorodd Gardd Efa. Fe’n siomwyd, fel erioed,  gan y gwleidyddion - trodd y gaeaf o anfodlonrwydd yn argyfwng olew ac, fel pe na bai un yn ddigon drwg, cafwyd dau etholiad cyffredinol.

Roedd hi’n flwyddyn ofnadwy i’r byd ffasiwn – roedden ni’n gwisgo trowsusau llongwr, crysau coleri mawr a theis lletach na gwasg Cyril Smith. Fel roedd y leotard disco yn ymddangos, yn anhygoel ddigon enillodd ffasiwn Gymreig galon *haute couture* wrth i Laura Ashley agor siop ym Mharis. Ychydig cyn i’r clychau ganu i nodi diwedd y flwyddyn, daeth y newydd bod un o filwyr Japan o’r Ail Ryfel Byd, Preifat Teruo Nakamura, wedi ildio ar Ynys Morotai yn Indonesia, ar ôl 34 o flynyddoedd – a ninnau’n meddwl bod Aberystwyth ar ôl yr oes. Ond doedd hynny ddim yn wir. Oherwydd fel gymerwyd penderfyniad pwysig yn Aberystwyth.

Perswadiwyd Cyngor y Brifysgol gan grŵp o staff academaidd ac aelodau lleyg i sefydlu neuadd breswyl gymysg wedi ei neilltuo ar gyfer siaradwyr y Gymraeg. Roedd yn symudiad radical ar fwy nag un ystyr. Roedd llenni tywyll parchusrwydd Fictoraidd yn dal i bwyso’n drwm ar foesoldeb y dref glan y môr Gymreig fechan hon yn y 70au. Roedd pobl o’r fath yn pryderu y byddai dod â’r myfyrwyr gwrywaidd Cymraeg eu hiaith a drigai yn Carpenter a Cheredigion ar lan y môr a’u cyffelybion benywaidd o neuaddau Alexandra a Phenbryn at ei gilydd yn creu’r amgylchedd ar gyfer trythyllwch gorffwyll yn Aberystwyth. Roedden ni’n byw mewn gobaith. Roedd eraill yn ystyried bod y Brifysgol yn ymddwyn yn ddadleuol wrth gefnogi’r iaith Gymraeg, a bod y Cyngor i bob pwrpas yn creu geto ym Mhantycelyn a fyddai’n ynysu siaradwyr Cymraeg.

Roedd eraill yn pryderu y byddai’r Brifysgol yn cael ei hystyried yn eithriadol o ddadleuol wrth gefnogi’r iaith Gymraeg. Y byddai’r Cyngor, i bob pwrpas, wrth greu Pantycelyn, yn creu geto lle byddai siaradwyr Cymraeg yn cael eu hynysu oddi wrth y Brifysgol, y gymuned eangach a’r byd.

Roedd y dadleuon yn rhygnu yn ôl ac ymlaen ynglŷn â mater a oedd yn ddadleuol a chynhennus. Er hynny, roedd y grŵp a oedd yn ymestyn yn fras ar draws y Brifysgol (yn staff a myfyrwyr) - a’r dref a’r genedl, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg a rhai na siaradai Gymraeg, yn dal yn ffyddiog eu cred yn y syniad a’r ddelfryd y byddai cartref wedi ei neilltuo ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn dda o beth. Ond er gwaethaf pawb a phopeth penderfynwyd sefydlu neuadd breswyl ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Agorwyd y drysau yn 1974, ac ar amrantiad dyma greu’r gymuned fwyaf yn y byd o siaradwyr Cymraeg.

Pantycelyn. Mae’n anodd dweud yr enw heb wenu – a mingamu wrth gofion arogl unigryw’r diheintydd. Roeddwn i yno o 1976 hyd 1985. Mae oedran ac alcohol wedi pylu’r cof, ond drwy lygaid fy meddwl gallaf grwydro unwaith yn rhagor yng nghwmni’r bobl hoff, hoffus a hawddgar a wnaeth y newid o lencyndod i oedran gŵr (nid i aeddfedrwydd) yn brofiad mor bleserus.

Wrth benderfynu sefydlu Pantycelyn creodd Cyngor y Brifysgol sefydliad cenedlaethol sydd wedi chwarae rhan arwyddocaol ym mywyd Cymru. Mae’r rebeliaid hynny yn eu denims, a’u llygaid gloywon yn llawn brwdfrydedd, a aeth drwy’r drysau derw cadarn bellach yn gwisgo siwtiau busnes parchus. Ymhlith y cyn-fyfyrwyr mae llond ystafelloedd dosbarth o athrawon a phrifathrawon, nytheidiau o wyddonwyr, mantol o gyfrifwyr, huodledd o gyfreithwyr, twrneiod, bargyfreithwyr a barnwyr uchel lys (onid dichellwaith fyddai’r enw torfol addas iddynt?), ac anghydfod o wleidyddion (gan gynnwys un prif weinidog).

Mae Pantycelyn wedi cyfrannu’n nodedig ac arwyddocaol at fywyd diwylliannol a chreadigol Cymru. Sawl bardd cadeiriol a choronog a fu’n trigo rhwng ei muriau? Sawl cerddor, awdur, llenor, dramodydd a nofelydd sydd wedi lleisio eu hing mewn inc yn y neuadd? Sawl grŵp pop sydd wedi cychwyn strymian eu rhythmau roc yn yr hen far ar y llawr isaf?

Mae’r cwestiynau tragwyddol heb eu hateb. Pa rai oedd y digwyddiadau doniolaf? Pa rai yw’r atgofion gorau? Pa rai oedd y gorchestion mwyaf bisâr? (Mae’n rhaid bod gyrru car Mini i lawr y coridorau fel yn y ffilm *The Italian Job* rywle o’i chwmpas hi – (roedd ceir Minis, fel finnau, yn feinach bryd hynny). Pa rai oedd y blynyddoedd gorau? Pa un oedd y genhedlaeth orau? Mae’r ateb, wrth gwrs, yn cael ei gynnig gan bob cenhedlaeth – ein cenhedlaeth ni.

Fel sawl un ohonom oedd yno o gwmpas y cychwyn, mae’r hen adeilad annwyl erbyn hyn yn dechrau dangos ei oed a bellach mae mewn dirfawr angen ei adnewyddu. Fel yn achos Miss Havisham, nid yw hud colur yn ddigon erbyn hyn, ni allai crefft yr embalmiwr, hyd yn oed, guddio difrod amser. Felly, ddeugain mlynedd yn ddiweddarach, mae’r tir yn cael ei ddarparu ar gyfer Pantycelyn newydd. Yn ôl y puryddion fydd pethau byth yr un fath eto. Ni fydd hen ysbryd Pantycelyn byth yn cael ei drosglwyddo i adeilad newydd. Ac mae’n hawdd cydymdeimlo â safbwyntiau o’r fath. Ond nid adeilad yn gymaint fu Pantycelyn erioed, ond pobl a’r gymdeithas afieithus a grëwyd ganddynt. Mae’r genhedlaeth hon, a chenedlaethau o fyfyrwyr y dyfodol, yn haeddu eu cyfle i greu eu dyfodol eu hunain, mewn cartref newydd.

# Diwrnodau Agored Uwchraddedig 2014

***Byddwn yn cyfrannu tuag at eich costau teithio i'ch helpu i gyrraedd y Diwrnod Agored Uwchraddedig***

Cyrsiau meistr, datblygu proffesiynol parhaus, graddau trosi uwchraddedig ac astudiaethau doethurol. Dyma'r enghreifftiau:

Archebwch eich lle ar y we nawr: **www.aber.ac.uk/cy/postgrad/postgraduate-open-days/**

Cewch wybodaeth am ein cyfleoedd cyllid gwych, ein buddsoddiad mewn cyfleusterau uwchraddedig newydd, a'r amrywiaeth o raglenni proffesiynol, cyrsiau trosi, cyrsiau byr a dysgu o bell sy'n addas ar gyfer amrywiaeth o alluoedd mewn nifer o bynciau.

**Addysg a Dysgu Gydol Oes** Ymarfer Dysgu a chwrs Meistr mewn Astudiaethau Plentyndod a Datblygiad Proffesiynol.

**Astudiaethau Gwybodaeth** Amryw o gyrsiau Dysgu o Bell ar gael, gan gynnwys Gweinyddu Archif, Rheoli Gwybodaeth a chyrsiau DPP byr.

**Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu** Amryw o gyfleoedd uwchraddedig gan gynnwys graddau meistr mewn Theatr Gymhwysol a'r Diwylliant Digidol a Theledu.

**Celf** Graddau Meistr trwy Ymchwil a Chwrs mewn Hanes Celf a Chelfyddyd Gain.

**Cyfrifiadureg** Rhaglenni trwy ymchwil a chwrs.

**Cymraeg** Cyfleoedd ymchwil; graddau meistr mewn Cyfieithu a Llenyddiaeth Gymraeg y Canol Oesoedd.

**Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear** Synhwyro o Bell, Rhewlifeg, Daearyddiaeth Ddynol, Deinameg Basn Afonydd, Newid Amgylcheddol a GIS.

**Gwleidyddiaeth Ryngwladol** Graddau Meistr mewn Astudiaethau Rhyfel, Cysylltiadau Rhyngwladol, Gwleidyddiaeth Ryngwladol Feirniadol, a Gwleidyddiaeth Ryngwladol y Rhyngrwyd.

**Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS)** Gwyddor Anifeiliaid, Rheoli'r Amgylchedd, Biotechnoleg Werdd a chyrsiau Dysgu o Bell.

**Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff** Cyfleoedd ymchwil.

**Hanes a Hanes Cymru** gan gynnwys Hanes a Threftadaeth, Prydain yr Oesoedd Canol a Hanes Modern.

**Ieithoedd Ewropeaidd** Graddau ymchwil ar gael a graddau meistr mewn Cyfieithu Cymhwysol.

**Mathemateg a Ffiseg** Cyfleoedd ymchwil ar gael.

**Rheolaeth a Busnes** gan gynnwys cwrs meistr wedi'i achredu mewn Busnes Rhyngwladol, Rheolaeth, Cyllid a Bancio Rhyngwladol, Marchnata Twristiaeth a Marchnata Digidol.

**Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol** gan gynnwys Ysgrifennu Ôl-fodern, Llenyddiaeth ac Ysgrifennu Creadigol.

**Seicoleg** Graddau ymchwil.

**Y Gyfraith a Throseddeg** Cyfres o raglenni mewn Cyfiawnder Troseddol a'r Gyfraith.

## Diwrnodau Agored ar y Campws

Dydd Sadwrn **5ed o Ebrill**
Dydd Mercher **2il o Orffennaf**
Dydd Sadwrn **13eg o Fedi**
Dydd Sadwrn **18fed o Hydref**
Dydd Mercher **12fed o Dachwedd**

## Digwyddiadau Diwrnod Agored Rhithwir

Dydd Mercher **30ain o Ebrill**
Dydd Mawrth **15fed o Orffennaf**
Dydd Iau **25ain o Fedi**
Dydd Mercher **26ain o Dachwedd**



**I gael rhagor o wybodaeth cysyllter â'r:**
Swyddfa Derbyn Uwchraddedigion
**Ffôn:** (01970) 622270
**E-bost:** da-uwch@aber.ac.uk

# Buddsoddi ynoch chi

130314 - 18701

# Pathways to Information Leadership

# eDdysgu hyblyg ac achrededig i weithwyr proffesiynol ym maes gwybodaeth



Darparwyd gan ...

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

## Rhaglen Datblygu Proffesiynol ar-lein o gyrsiau byr ar lefel Meistr i arweinwyr newydd a darpar arweinwyr ym maes gwybodaeth

Mae **Pathways to Information Leadership** yn rhoi i chi'r rhyddid i ddewis beth rydych chi'n ei astudio a phryd, yn ogystal â darparu holl gefnogaeth ac adnoddau cymhwyster ffurfiol prifysgol.

Gan ymgorffori'r diweddaraf o ran y syniadau, yr ymchwil a'r arferion gorau ar agweddau creiddiol ar reoli ac arwain ym maes gwybodaeth, mae'r rhaglen yn cynnig **mwy na 30 o gyrsiau** o blith **chwe phrif bwnc yn y maes:**

- Casglu, Datblygu a Churadu Gwybodaeth Ddigidol
- Moeseg, Hawliau a Chadw Rheolaeth ar Wybodaeth Ddigidol
- Strwythurau Gwybodaeth Ddigidol
- Gwarchod a Sicrhau Asedau Gwybodaeth
- Adnoddau a Risgiau yn yr Amgylchedd Digidol
- Arweinyddiaeth Gwybodaeth Strategol.

Mewn partneriaeth ag ... Emerald aslib MANAGING INFORMATION Est. 1924

## Mwy o wybodaeth

www.infoleader.org

info@infoleader.org

neu sganiwch y cod QR hwn

### Cysylltwch â ni

@InfoLeaderCPD

Ymunwch â'n grŵp Pathways to Information Leadership